# Y LLYFR GWEDDI GYFFREDIN
# I'W ARFER YN
# YR EGLWYS YNG NGHYMRU

# Y CALENDR NEWYDD
# A'R
# COLECTAU

**EBRILL 2003**

# CALENDR
# COLECTAU A GWEDDIAU ÔL GYMUN

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Nodiadau ar y Calendr | 3 |
| Y Flwyddyn | 5 |
| Gwyliau Eraill | 8 |
| Colectau'r Suliau a'r Prifwyliau | 15 |
| Colectau Gwyliau Eraill | 85 |
| Colectau Eraill a Gweddïau Ôl Gymun | 188 |

# Nodiadau ar y Calendr

**Mae dosbarthu'r Calendr i bum grŵp** yn dynodi blaenoriaeth yn hytrach na phwysigrwydd. Pan fo dau ddydd Gŵyl yn disgyn ar yr un diwrnod, rhoddir blaenoriaeth i'r ŵyl a'r rhif is. **Dylid dathlu Gŵyliau Sanctaidd yn Grŵp I a II** bob amser a'r rhai yn grŵp II sy'n cael eu symud ar unrhyw ddydd cyfleus cyn y Sul nesaf. **Mae'r Gŵyliau a'r Coffadwriaethau yn Grwpiau III – V** yn ddewisol.

**Grŵpiau I, II a III**: Mae'r Cymun Bendigaid a'r Gwasanaeth Dyddiol ar gyfer y dydd fel rheol gyda darpariaeth o'r Llithiadur. Hepgorir darpariaeth Cymun Bendigaid dyddiol a gellir cyfuno deunydd Gwasanaeth Dyddiol ar y dydd gwaith blaenorol ac/neu ar y dydd gwaith dilynol. Defnyddir Colect y dydd.

**Grŵpiau IV a V**: Mae'r gwasanaethau dyddiol ar gyfer y dydd neu dymor cyffredin, a phan defnyddir y colect dylid defnyddio Colect yr wythnos yn arferol. Mewn gweinyddiadau o'r Cymun Bendigaid unai yng Ngrwp IV neu V yn ystod yr wythnos, gellid defnyddio darlleniadau'r Cymun Dyddiol.

**Gall Gŵyl Nawddsant, Gŵyl Gyfenwad, Gŵyl Gyflwyniad neu ddathliad Taleithiol, Esgobaethol neu Ecwmenaidd neu ddydd Diolchgarwch** (yn draddodiadol o gwmpas y Sul cyntaf o Hydref) gael blaenoriaeth dros unrhyw Sul neu gadwraeth arall yn adrannau III - V.

Cedwir **wythawdau** ar ŵyliau'r Nadolig a'r Pasg yn unig. Mae **Tymor y Pasg** yn dechrau ar Noswŷl y Pasg ac yn gorffen ar ddydd y Pentecost.

Mae'r **Lliwiau Litwrgaidd** yn draddodiadol ond cymeradwyir gwyn trwy gydol Tymor yr Ystwyll, porffor cyn y Garawys o 3 Chwefror a choch trwy gydol Tymor y Deyrnas. Ar ddydd Iau Cablyd ac ar gyfer dathliadau llai ar ddyddiau gwaith, bwriedir y lliw ar gyfer y Cymun Bendigaid yn unig.

**Y Colect**: Dylai fod yn arferol defnyddio un colect am y dydd, yn cydfynd â'r llithiaduron a ddefnyddir. Mae'r weddi ôl-gymun yn fater o ddewis ac yn cydweddu â'r colect.

**Yn y gyfres o golectau o dan y pennawd Cyfoes,** gellir defnyddio'r canlynol yn lle'r colect a roddir am y Sul:

| | |
|---|---|
| Suliau Adfent 2-4 | Advent 1<br>*(pan ddigwydd hynny, ni ddylid ei ddefnyddio yn weddi Ôl-gymun)* |
| Suliau'r Nadolig | Nadolig 2 |
| Suliau'r Ystwyll 3(4) a 4 | Ystwyll 2(3) |
| Suliau cyn y Garawys | 5 cyn y Garawys |
| Suliau'r Garawys 2 a 3 | Garawys 1 |
| Suliau'r Pasg 2 – 6 | Dydd y Pasg |
| Suliau wedi'r Pentecost | Pentecost 7, 10, 14, 15, 18 |
| Suliau'r Deyrnas | Deyrnas 1 |

# Y Flwyddyn

## YR ADFENT

| | |
|---|---|
| **Sul Cyntaf yr Adfent: 27 Tachwedd – 3 Rhagfyr** | I |
| Ail Sul yr Adfent: 4 - 10 Rhagfyr | I |
| Trydydd Sul yr Adfent: 11 - 17 Rhagfyr | I |
| Pedwerydd Sul yr Adfent: 18 - 24 Rhagfyr | I |

## GENEDIGAETH EIN HARGLWYDD

| | |
|---|---|
| Noswyl y Nadolig: 24 Rhagfyr | II |
| **Dydd Nadolig: 25 Rhagfyr** | I |
| Sul (Cyntaf) y Nadolig: 26 - 31 Rhagfyr | I |
| Ail Sul y Nadolig: 2 - 5 Ionawr | II |
| *Gellir dathlu'r Ystwyll ar y dydd Sul hwn* | |

## YR YSTWYLL A CHYN Y GARAWYS

| | |
|---|---|
| **Yr Ystwyll: 6 Ionawr** | I |
| Sul Cyntaf (Ail Sul) yr Ystwyll, Bedydd Crist: 7 – 13 Ionawr | II |
| Ail (Trydydd) Sul yr Ystwyll: 14 – 20 Ionawr | III |
| *Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol: 18 - 25 Ionawr* | |
| Trydydd (Pedwerydd) Sul yr Ystwyll: 21 - 27 Ionawr | III |
| Pedwerydd Sul yr Ystwyll: 28 Ionawr – 1 Chwefror | III |
| **Cyflwyniad Crist: 2 Chwefror** | I |
| *Gellir dathlu'r Cyflwyniad ar y Sul agosaf* | |
| Pumed Sul cyn y Garawys* | III |
| Pedwerydd Sul cyn y Garawys* | III |
| Trydydd Sul cyn y Garawys* | III |
| **Gellir defnyddio Priod 1-3, fel y bo angen, ar y Suliau hyn* | |
| Ail Sul cyn y Garawys, Sul y Greadigaeth | I |
| Sul o flaen y Garawys, Sul y Gweddnewidiad | I |

## Y GARAWYS A THYMOR Y DIODDEFAINT

| | |
|---|---|
| **Dydd Mercher y Lludw** | I |
| Sul Cyntaf y Garawys | I |
| Ail Sul y Garawys | I |
| Trydydd Sul y Garawys | I |
| Pedwerydd Sul y Garawys, Sul y Fam | I |
| Pumed Sul y Garawys, Sul y Dioddefaint | I |
| Chweched Sul y Garawys, Sul y Blodau | I |
| Llun, Mawrth a Mercher yr Wythnos Fawr | I |
| Dydd Iau Cablyd | I |
| **Dydd Gwener y Groglith** | I |

## YR ATGYFODIAD

| | |
|---|---|
| Noswyl y Pasg | I |
| **Dydd y Pasg** | I |
| Llun hyd Sadwrn y Pasg | I |
| Ail Sul y Pasg | I |
| Trydydd Sul y Pasg | I |
| Pedwerydd Sul y Pasg | I |
| Pumed Sul y Pasg | I |
| Chweched Sul y Pasg, Sul y Gweddïau | I |
| Tridiau'r Gweddïau: Llun, Mawrth a Mercher | IV |
| **Dyrchafael ein Harglwydd: Dydd Iau** | I |
| *Neilltuir y cyfnod o'r Dyrchafael hyd at Ddydd y Pentecost i weddïo am ddoniau'r Ysbryd Glân* | |
| Seithfed Sul y Pasg | I |
| **Dydd y Pentecost** | I |
| Tymor y Pasg: Diolchgarwch am Fedydd Bendigaid | III |

## WEDI'R PENTECOST

| | |
|---|---|
| **Sul y Drindod** | I |
| Dydd Iau: Diolchgarwch am y Cymun Bendigaid | IV |
| Yr Ail Sul hyd yr Ail Sul ar Hugain wedi'r Pentectost | III |
| Y Sul Olaf wedi'r Pentecost, Sul y Beibl: 23 - 29 Hydref | I |

## Y DEYRNAS

| | |
|---|---|
| **Gŵyl yr Holl Saint:  1 Tachwedd** | I |
| Sul Cyntaf y Deyrnas:  30 Hydref - 5 Tachwedd | I |
| Ail Sul y Deyrnas:  6 – 12 Tachwedd | I |
| Trydydd Sul y Deyrnas:  13 - 19 Tachwedd | I |
| Pedwerydd Sul y Deyrnas, Crist y Brenin:  20 - 26 Tachwedd | I |

# Gŵyliau Eraill

## IONAWR

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Enwi Iesu** | I |
| 3 | Morris Williams (1874), Offeiriad a Bardd | V |
| 10 | William Laud (1645), Esgob | V |
| 11 | Rhys Prichard (1644), Offeiriad a Bardd,<br>William Williams (1791), Diacon a Bardd, ac<br>Isaac Williams (1865), Offeiraid a Bardd | V |
| 13 | Ilar (368), Esgob | V |
| 14 | Cyndeyrn (c 603), Esgob | V |
| 17 | Antwn (356), Abad | V |
| 18 | Cyffes Pedr, Apostol | IV |
| 21 | Agnes (304), Gwyryf a Merthyr | V |
| 23 | Ffransis de Sales (1622), Esgob | V |
| 24 | Cadog (6ed ganrif), Abad | V |
| **25** | **Tröedigaeth Paul, Apostol** | II |
| 26 | Timotheus a Titus, Cymdeithion Paul | IV |
| 27 | Ioan Chrysostom (407), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 28 | Thomas o Acwin (1274), Dysgawdwr | V |

## CHWEFROR

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Ffraid (6ed ganrif), Abades | V |
| **2** | **Cyflwyniad Crist yn y Deml** | I |
| 3 | Saint, Merthyron a Chenhadon Ewrop | V |
| *neu* | Seiriol (6ed ganrif), Abad | V |
| 4 | Manche Masemola (1928), Merthyr | V |
| 9 | Teilo (6ed ganrif), Esgob | V |
| 14 | Cyril (869), Mynach a Chenhadwr, a<br>Methodius (885), Esgob a Chenhadwr | V |
| 18 | Ioan o Fiesole (Fra Angelico) (1455), Offeiriad, ac<br>Andrei Rublev (c 1430), Mynach, Arlunwyr | V |
| 19 | Thomas Burgess (1837), Esgob ac Athro’r Ffydd | V |
| 20 | Saint, Merthyron a Chenhadon Affrica | V |
| 23 | Polycarp (c 155), Esgob a Merthyr | V |
| 27 | George Herbert (1633), Offeiriad a phob Bugail | V |
| *Dyddiau’r Catgoriau: Mercher, Gwener a Sadwrn yn dilyn Garawys I* | | IV |

## MAWRTH

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Dewi (6ed ganrif), Esgob, Nawddsant Cymru** | II |
| 5 | Non (5ed ganrif), Mam Dewi Sant | V |
| 7 | Perpetwa, Ffelicitas a’u Chymdeithion (203), Merthyron | V |
| 17 | Padrig (5ed ganrif), Esgob, Nawddsant Iwerddon | V |
| 18 | Cyril o Jerwsalem (386), Esgob | V |
| 19 | Joseff o Nasareth | IV |
| 21 | Thomas Cranmer (1566), Hugh Latimer, Nicholas Ridley, a Robert Ferrar (1555), Esgobion, Athrawon y Ffydd a Merthyron | V |
| 24 | Oscar Romero (1980), Esgob a Merthyr | V |
| **25** | **Cyhoeddi ein Harglwydd i Fair Forwyn Fendigaid** | II |
| 29 | Gwynllyw (6ed ganrif), Brenin | V |
| *Tymor y Pasg: Diolchgarwch am Fedydd Bendigaid* | | III |

## EBRILL

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Brynach (5ed ganrif), Abad | V |
| 8 | Griffith Jones (1761), Offeiriad ac Athro’r Ffydd | V |
| 9 | Saint, Merthyron a Chenhadon De America | V |
| *neu* | Dietrich Bonhoeffer (1945), Bugail, Athro’r Ffydd a Merthyr | V |
| 11 | George Augustus Selwyn (1878), Esgob a Chenhadwr | V |
| 15 | Padarn (6ed ganrif), Esgob | V |
| 20 | Beuno (c 640), Abad | V |
| 21 | Anselm (1109), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 23 | Siôr (304?), Merthyr, Nawddsant Lloegr | V |
| **25** | **Marc, Efengylwr** | II |
| 29 | Catrin o Siena (1380), Awdures | V |
| *Dyddiau’r Catgoriau: Mercher, Gwener a Sadwrn wedi’r Pentecost* | | IV |
| *Dydd Iau wedi Sul y Drindod: Diolchgarwch am y Cymun Bendigaid* | | III |

## MAI

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Philip ac Iago, Apostolion** | II |
| 2 | Athanasius (373), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 3 | Henry Vaughan (1695), Bardd | V |
| 5 | Asaff (6ed ganrif), Esgob | V |
| 8 | Julian o Norwich (c 1417) Awdures Ysbrydol | V |
| 9 | Gregor o Nasiansus (390), Esgob | V |
| **14** | **Mathias, Apostol** | II |
| 15 | Edmwnd Prys (1624), Offeiriad, Bardd a Chyfieithydd, a John Davies (1644), Offeiriad a Chyfieithydd | V |
| 19 | Dunstan (988), Esgob | V |
| 20 | Siad (672), Esgob | V |
| 24 | Charles Wesley (1788) a John Wesley (1791), Offeiriaid a Chenhadon | V |
| 25 | Beda (735), Dysgawdwr | V |
| 26 | Awstin o Gaer-gaint (605), Esgob | V |
| 28 | Melangell (6ed ganrif), Abades | V |
| 31 | Ymweliad Mair Forwyn ag Elisabeth | IV |

## MEHEFIN

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Iestyn (c 165), Amddiffynnydd a Merthyr | V |
| 2 | Blandina a'i Chymdeithion (177), Merthyron | V |
| 3 | James Hannington (1885), Esgob, Cenhadwr a Merthyr, Merthyron Uganda (1886) a Janani Luwum, (1977), Esgob a Merthyr | V |
| 5 | Boniffas (754), Esgob, Cenhadwr a Merthyr | V |
| 9 | Columba (597), Abad | V |
| 10 | Effrem y Syriad (373), Diacon, Emynydd ac Athro'r Ffydd | V |
| **11** | **Barnabas, Apostol** | II |
| 14 | Basil Fawr (397), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 16 | Richard (1253), Esgob | V |
| 20 | Alban (250), Iŵl ac Aaron (304-5), Merthyron | V |
| **24** | **Genedigaeth Ioan Fedyddiwr** | II |
| 28 | Irenaeus (c 200), Esgob a Dysgawdwr | V |
| **29** | **Pedr, Apostol** | II |
| 30 | Merthyrdod Paul, Apostol | IV |

## GORFFENNAF

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Euddogwy (6ed ganrif), Esgob | V |
| **3** | **Thomas, Apostol** | II |
| 4 | Peblig (4edd ganrif), Abad | V |
| 6 | Thomas More (1535), Merthyr | V |
| 11 | Bened (c 540), Abad | V |
| 14 | John Keble (1886), Offeiriad ac Athro'r Ffydd | V |
| 18 | Elisabeth o Rwsia (1918), Lleian a Merthyr | V |
| 19 | Gregor o Nyssa (c 394), Esgob, a Macrina (c 379), Gwyryf, Athrawon | V |
| 21 | Howell Harris (1773), Pregethwr | V |
| **22** | **Mair Magdalen** | II |
| **25** | **Iago, Apostol** | II |
| 26 | Ann, Mam y Forwyn Fair | V |
| 27 | Martha a Mair o Fethania | IV |
| 28 | Samson (5ed ganrif), Esgob | V |
| 29 | William Wilberforce (1833), Josephine Butler (1906) a phob Diwygiwr Cymdeithasol | V |
| 30 | Silas, Cenhadwr | IV |
| 31 | Joseff o Arimathea | IV |

## AWST

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Garmon (5ed ganrif), Esgob | V |
| 5 | Oswallt (642), Brenin a Merthyr | V |
| **6** | **Gweddnewidiad ein Harglwydd** | III |
| 8 | Dominig (1221), Pregethwr | V |
| 9 | Augustine Baker (1641), Offeiriad a Mynach | V |
| *neu* | Mary Sumner (1921), Sefydlwraig Undeb y Mamau | V |
| *neu* | Edith Stein (1942), Athrawes y Ffydd, Lleian a Merthyr | V |
| 10 | Lawrens (258), Diacon a Merthyr | V |
| 11 | Clêr o Assisi (1253), Cardotes | V |
| 12 | Ann Griffiths (1805), Emynyddes | V |
| 13 | Jeremy Taylor (1667), Esgob | V |
| 14 | Maximilian Kolbe (1941), Offeiriad a Merthyr | V |
| **15** | **Mair, Mam ein Harglwydd** | II |
| 20 | Bernard (1153), Abad | V |

| | | |
|---|---|---|
| 23 | Tudful (430), Merthyr | V |
| **24** | **Bartholomeus, Apostol** | II |
| 27 | Monica (378), Mam Awstin o Hippo | V |
| 28 | Awstin o Hippo (430), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 29 | Dienyddio Ioan Fedyddiwr | IV |
| 31 | Aidan (651), Esgob | V |

## MEDI

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Lucian Tapiedi (1942), Cenhadwr a Merthyr, a Merthyron Papua Guinea Newydd (1901 & 1942) | V |
| 3 | Gregor Fawr (604), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 4 | Cuthbert (687), Esgob | V |
| 8 | Genedigaeth Mair Forwyn Fendigaid | V |
| 10 | William Salesbury (1584), Chyfieithydd, a William Morgan (1604), Esgob a Chyfieithydd | V |
| 11 | Deiniol (6ed ganrif), Esgob | V |
| 13 | Cyprian (258), Esgob, Dysawdwr a Merthyr | V |
| 14 | Gŵyl y Grog | V |
| *Dyddiau'r Catgoriau: Mercher, Gwener a Sadwrn yn dilyn 14 Medi* | | IV |
| 16 | Ninian (c 430), Esgob | V |
| 20 | Saint, Merthyron a Chenhadon Awstralasia a'r Môr Tawel | V |
| **21** | **Mathew, Apostol ac Efengylwr** | II |
| 25 | Sergei o Radonezh (1392), Abad | V |
| 26 | Lancelot Andrewes (1626), Esgob | V |
| 27 | Vincent de Paul (1660), Offeiriad | V |
| **29** | **Mihangel a'r Holl Angylion** | II |
| 30 | Sierôm (420), Dysgawdwr | V |

## HYDREF

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Ffrancis o Assisi (1226), Brawd Crefyddol | V |
| 6 | William Tyndale (1536), Cyfieithydd a Merthyr | V |
| 9 | Cynog (5ed ganrif), Abad | V |
| 13 | Edward Gyffeswr (1066), Brenin | V |
| 14 | Esther John (1960) Cenhades a Merthyr | V |
| 15 | Teresa o Afila (1582), Athrawes y  Ffydd | V |
| 16 | Daniel Rowland (1790), Offeiriad a Phregethwr | V |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Ignatius (c 117), Esgob a Merthyr | V |
| **18** | **Luc, Efengylwr** | II |
| 19 | Henry Martyn (1812), Bugail, Cyfieithydd a Chenhadwr | V |
| 23 | Iago o  Jerwsalem, Esgob | IV |
| 25 | Lewis Bayley (1631), Esgob ac Awdur | V |
| 26 | Alffred (899), Brenin | V |
| **28** | **Simon a Jwdas, Apostolion** | II |
| 30 | Richard Hooker (1600), Offeiriad ac Athro'r Ffydd | V |
| 31 | Gwylnos yr Holl Saint | |
| *neu* | Saint a Merthyron Catholig a Phrotestannaidd Cyfnod y Diwygiad Protestannaid | V |

**TACHWEDD**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Yr Holl Saint** | I |
| 2 | Yr Holl Eneidiau | V |
| 3 | Merthyron a Chyffeswyr ein Hoes | V |
| *neu* | Gwenfrewi (7ed ganrif), Abades | V |
| 4 | Saint a Merthyron y Cymundeb Anglicanaidd | V |
| 5 | Cybi (6ed ganrif), Abad | V |
| 6 | Illtud (5ed ganrif), Abad | V |
| 7 | Richard Davies (1581), Esgob a Chyfieithydd | V |
| 8 | Holl Saint Cymru | V |
| 10 | Leo (461), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 11 | Martin (c 397), Esgob | V |
| 12 | Tysilio (6ed ganrif), Abad | V |
| 13 | Charles Simeon (1836), Offeiriad ac Athro'r Ffydd | V |
| 14 | Dyfrig (6ed ganrif), Esgob | V |
| 15 | Saint, Merthyron a Chenhadon Gogledd America | V |
| 16 | Margaret o'r Alban (c 1045), Brenhines | V |
| 17 | Huw (1200), Esgob | V |
| 18 | Hilda (680), Abades | V |
| 19 | Elsbeth o Hwngari (1231), Tywysoges | V |
| 21 | Peulin (5ed ganrif), Abad | V |
| 23 | Clement (c 100), Esgob | V |
| 25 | John Donne (1631), Offeiriad a Bardd | V |
| 29 | Gwylnos a Dydd Gweddi dros Genhadaeth yr Eglwys | IV |
| **30** | **Andreas, Apostol, Nawddsant yr Alban** | II |

**RHAGFYR**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nicholas Ferrar (1637), Diacon | V |
| 2 | Saint, Merthyron a Chenhadon Asia | V |
| 3 | Francis Xavier (1552), Cenhadwr | V |
| 6 | Nicolas (c 342), Esgob | V |
| 7 | Emrys (397), Esgob a Dysgawdwr | V |
| 8 | Cynidr (6ed ganrif), Esgob | V |
| 13 | Lleucu (304), Merthyr | V |
| *Dyddiau'r Catgoriau: Mercher, Gwener a Sadwrn yn dilyn 13 Rhagfyr* | | IV |
| 14 | Ioan y Groes (1591), Offeiriad, Bardd ac Athro'r Ffydd | V |
| 17 | O Ddoethineb! | V |
| 18 | O Adonai! | V |
| 19 | O Wreiddyn Jesse! | V |
| 20 | O Allwedd Dafydd! | V |
| 21 | O Wawrddydd! | V |
| 22 | O Frenin y Cenhedloedd! | V |
| 23 | O Immanuel! | V |
| **26** | **Steffan, Diacon a'r Merthyr Cyntaf** | II |
| **27** | **Ioan, Apostol ac Efengylwr** | II |
| **28** | **Y Diniweidiaid** | II |
| 29 | Thomas o Gaer-gaint (1170), Esgob a Merthyr | V |
| 30 | Tathan (6ed ganrif), Abad | V |
| 31 | John Wycliffe (1384), Offeiriad a Chyfieithydd | V |

# Y SULIAU A'R PRIF WYLIAU

## SUL CYNTAF YR ADFENT

### 1 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*

Hollalluog Dduw, dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau'r goleuni, yn awr yn y bywyd marwol hwn, a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist pan ymwelodd â ni mewn gostyngeiddrwydd mawr; fel y bo i ni yn y dydd diwethaf, pan ddaw drachefn yn ei ogoneddus fawredd i farnu'r byw a'r meirw, gyfodi i'r bywyd anfarwol; trwyddo ef sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd.

Tyred, Arglwydd, yn dy nerth, a gwared ni rhag y pechodau hynny sy'n bygwth ein caethiwo; fel y bo i ni, trwy dy nodded, sefyll yn gadarn yn rhyddid dy Efengyl; dydi sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw yn dragwyddol.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch
ac i wisgo arfau'r goleuni,
yn awr yn y bywyd marwol hwn
a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist
pan ymwelodd â ni mewn gostyngeiddrwydd mawr;
fel y bo i ni yn y dydd diwethaf,
pan ddaw drachefn yn ei fawredd gogoneddus
i farnu'r byw a'r meirw,
gyfodi i'r bywyd anfarwol;
trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Gellir defnyddio'r Colect hwn fel yr Ôl Gymun o Adfent 2  hyd at Noswyl y Nadolig.*

### 2 Ôl Gymun

O Dduw ein gwaredwr, deffro ein calonnau
i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodiad dy Fab;
fel, â meddyliau wedi eu puro gan ras ei ddyfodiad,
y bo i ni dy wasanaethu'n ffyddlon gydol ein dyddiau;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## AIL SUL YR ADFENT

### 3 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Y gwynfydedig Arglwydd, a beraist fod yr holl Ysgrythur lân yn ysgrifenedig i'n haddysgu ni: dyro i ni yn y fath fodd ei gwrando, ei darllen, ei chwilio, ac ymborthi arni, fel, trwy ddyfalbarhad, a chymorth dy Air sanctaidd, y cofleidiwn ac y daliwn ein gafael yn wastadol yng ngobaith bendigedig y bywyd tragwyddol, a roddaist inni yn ein Hiachawdwr Iesu Grist.

Deffro ein calonnau, erfyniwn arnat, O Arglwydd, i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodiad dy unig-anedig Fab; fel y bo i ni, a'n meddyliau wedi eu puro, trwy ras ei ddyfodiad, allu dy wasanaethu'n ffyddlon holl ddyddiau ein bywyd; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd.

*Cyfoes*
Dad yn y nefoedd,
a ddanfonaist dy Fab i waredu'r byd
ac yr anfoni ef drachefn i fod yn farnwr arnom:
dyro inni ras i'w efelychu ef
yng ngostyngeiddrwydd a phurdeb
ei ddyfodiad cyntaf
fel, pan ddaw drachefn,
y byddwn yn barod i'w gyfarch
â chariad llawen ac â ffydd gadarn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 4 Ôl Gymun

Arglwydd,
bwydaist ni yma â maeth y bywyd;
trwy ein cyfranogi o'r sacrament sanctaidd hwn,
dysg ni i farnu'n ddoeth bethau daearol ac i ddyheu am bethau nefol.
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## TRYDYDD SUL YR ADFENT

### 5 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd Iesu Grist, a anfonaist dy genhadwr ar dy ddyfodiad cyntaf i baratoi dy ffordd o'th flaen: caniatâ i weinidogion a goruchwylwyr dy ddirgeleddau yn yr un modd baratoi ac arloesi dy ffordd, trwy droi calonnau'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn, fel, ar dy ail ddyfodiad i farnu'r byd, y ceir ni'n bobl gymeradwy yn dy olwg di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

Gwrando ein gweddïau, O Arglwydd, a thrwy dy ymweliad grasol goleua dywyllwch ein meddyliau, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yr awr hon ac yn dragywydd.

*Cyfoes*
O Arglwydd Iesu Grist,
a anfonaist dy genhadwr ar dy ddyfodiad cyntaf
i baratoi dy ffordd o'th flaen,
pâr i weinidogion a goruchwylwyr dy ddirgeleddau
yn yr un modd baratoi ac arloesi dy ffordd
trwy droi calonnau'r anufudd
i ddoethineb y cyfiawn,
fel, ar dy ail ddyfodiad i farnu'r byd,
y ceir ni'n bobl gymeradwy yn dy olwg di;
oherwydd yr wyt yn fyw ac yn teyrnasu gyda'r Tad
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 6 Ôl Gymun

Dduw trugaredd a nerth,
y mae dy Fab yn teyrnasu dros bawb;
caniatâ i ni fyw mewn ufudd-dod i'th ewyllys sanctaidd,
fel, pan ddaw atom,
y cawn ein cyfodi i'r bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## PEDWERYDD SUL YR ADFENT

### 7 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, yr ymddangosodd dy fendigedig Fab fel y datodai weithredoedd y diafol, a'n gwneud ni'n feibion Duw ac yn etifeddion bywyd tragwyddol: caniatâ i ni, a'r gobaith hwn gennym, ein puro ein hunain, megis y mae yntau'n bur; fel, pan ddaw drachefn mewn nerth a mawr ogoniant, y gwneir ni'n gyffelyb iddo ef yn ei ogoneddus deyrnas dragwyddol, lle gyda thi, O Dad, a thi, O Ysbryd Glân, y mae'n byw ac yn teyrnasu, byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

Cyfod dy nerth, O Arglwydd, a thyred i'n plith, ac â'th allu mawr cymorth ni; fel, oherwydd ein rhwystro gan ein pechodau i redeg yr yrfa a osodir o'n blaen, y bo i'th hael ras a'th drugaredd ein cymorth a'n gwared yn ebrwydd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Dduw ein gwaredwr,
a roddaist y Forwyn Fair Fendigaid
i fod yn fam i'th Fab:
caniatâ, fel y bu iddi hi ddisgwyl ei ddyfodiad
yn iachawdwr arnom,
y bydd i ninnau fod yn barod i'w gyfarch
pan ddaw drachefn yn farnwr arnom:
yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 8 Ôl Gymun

Dad nefol,
a ddewisaist y Forwyn Fair Fendigaid
i fod yn fam y Gwaredwr a addawyd,
llanw ni dy weision â'th ras,
fel y gallwn ym mhob peth
dderbyn dy ewyllys sanctaidd
a llawenhau gyda hi yn dy iachawdwriaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**NOSWYL Y NADOLIG**
**Rhagfyr 24**

### 9 Colect

Hollalluog Dduw,
sy'n ein llawenhau
wrth goffáu yn flynyddol
enedigaeth dy Fab Iesu Grist;
caniatâ i ni, sy'n ei dderbyn yn llawen
yn waredwr inni,
edrych arno'n llawn hyder
pan ddaw yn farnwr arnom;
yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 10 Ôl Gymun

O Dduw, y disgwyliwn amdanat,
porthaist ni â bara'r bywyd tragwyddol:
gwna ni bob amser yn wyliadwrus,
fel y byddwn yn barod i sefyll
gerbron Mab y Dyn,
Iesu Grist ein Harglwydd.

**DYDD NADOLIG CRIST**
**Rhagfyr 25**

**11 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a roddaist inni dy uniganedig Fab i gymryd ein natur ni, a'i eni ar gyfenw i'r amser yma o Forwyn bur: caniatâ i ni, sy'n llawenychu yn nyfodiad dy fywiol dragwyddol Air, gael ein hadnewyddu beunydd trwy dy Ysbryd Glân; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r un Ysbryd, byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Llyfr Gweddi 1984: Colect Ychwanegol*
Nefol Dad, sy'n llawenhau â'r coffâd blynyddol am enedigaeth dy unig Fab, Iesu Grist: caniatâ i ni, sy'n ei dderbyn yn llawen yn waredwr, allu edrych arno'n llawn hyder pan ddaw yn farnwr arnom; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*

***Yn y Nos***
Dduw tragwyddol,
a wnaethost i'r noson gysegredig hon
lewyrchu â disgleirdeb
dy unig wir oleuni:
dwg ni, sydd wedi adnabod datguddiad
y goleuni hwnnw ar y ddaear,
i weld llewyrch dy ogoniant nefol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

***Yn y Dydd***
Hollalluog Dduw,
rhoddaist i ni dy uniganedig Fab
i gymryd ein natur ni
a’i eni ar gyfenw i’r amser yma o forwyn bur:
caniatâ i ni, sydd wedi ein geni drachefn
a’n gwneud yn blant i ti trwy fabwysiad a gras,
gael ein hadnewyddu’n feunyddiol
trwy dy Ysbryd Glân;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## 12 Ôl Gymun

***Yn y Nos***
Dduw ein Tad,
y noson hon amlygaist inni drachefn
ddyfodiad Iesu Grist ein Harglwydd;
cadarnhâ ein ffydd a hoelia ein llygaid arno ef
nes y gwawria’r dydd
ac y cyfoda Crist, Seren y Bore yn ein calonnau.
Iddo ef y bo’r gogoniant, yn awr ac am byth.

***Yn y Dydd***
Dduw ein Tad,
daeth dy Air i’n plith
ym Mhlentyn Sanctaidd Bethlehem:
bydded i oleuni ffydd oleuo ein calonnau
a disgleirio yn ein geiriau a’n gweithredoedd;
trwyddo ef sy’n Grist yr Arglwydd.

## SUL (CYNTAF) Y NADOLIG

### 13 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a greaist ddyn yn rhyfeddol ar dy ddelw dy hun, a'i adfer yn fwy rhyfeddol byth: caniatâ, megis y gwnaed dy Fab Iesu Grist yn gyfrannog o'n natur ddynol ni, a'i wneud yn ddyn, i ninnau fod yn gyfrannog o'i natur ddwyfol ef; trwyddo ef sydd gyda thi a'r Ysbryd GIân yn byw ac yn teyrnasu, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a'n creaist yn rhyfeddol ar dy ddelw dy hun,
a'n hadfer yn fwy rhyfeddol byth
trwy dy Fab Iesu Grist:
caniatâ, fel y daeth ef i gyfranogi o'n dynoliaeth,
i ninnau rannu bywyd ei ddwyfoldeb;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 14 Ôl Gymun

Dad nefol,
y cyfranogodd dy Fab bendigaid yn Nasareth
o fywyd cartref daearol,
cynorthwya dy Eglwys i fyw fel un teulu,
wedi ei huno mewn cariad ac ufudd-dod,
a dwg ni oll o'r diwedd i'n cartref yn y nefoedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## AIL SUL Y NADOLIG

### 15  Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Nefol Dad, y daeth dy fendigedig Fab i'r byd i gyflawni dy ewyllys: yn dy drugaredd caniatâ i ni, a ninnau wedi'n sancteiddio a'n gwneud yn blant i ti trwy fabwysiad a gras, ymhyfrydu'n wastadol yn dy wasanaeth di; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
yng ngenedigaeth dy Fab
tywelltaist arnom
oleuni newydd dy Air ymgnawdoledig,
gan ddangos i ni gyflawnder dy gariad:
cynorthwya ni i rodio yn ei oleuni a byw yn ei gariad
fel y bo i ni brofi llawnder ei lawenydd ef;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 16  Ôl Gymun

Pob moliant i ti,
hollalluog Dduw a Brenin nefol,
a anfonaist dy Fab i'r byd
i gymryd ein natur ni
a'i eni o forwyn bur:
caniatâ, wrth i ni gael ein geni drachefn ynddo ef,
iddo drigo am byth ynom ni
a theyrnasu ar y ddaear
fel y teyrnasa yn y nefoedd
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn awr ac am byth.

**YR YSTWYLL**
**Ionawr 6**

## 17 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, a roddaist dy unig-anedig Fab i fod yn oleuni i'r holl genhedloedd: o'th drugaredd dyro i ni sy'n dy adnabod yn awr trwy ffydd, allu ar ôl y fuchedd hon fwynhau gweledigaeth o'th Dduwdod gogoneddus; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Dduw graslon,
a amlygaist dy unig Fab
i bobloedd y ddaear,
trwy arweiniad seren:
arwain ni, sy'n dy adnabod yn awr drwy ffydd,
i'th bresenoldeb sanctaidd
lle y cawn ganfod dy ogoniant wyneb yn wyneb
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## 18 Ôl Gymun

Arglwydd Dduw,
yr ysblander disglair y mae'r cenhedloedd
yn ei geisio,
bydded i ni, sydd gyda'r doethion,
wedi ein denu gan dy oleuni,
ddirnad gogoniant dy bresenoldeb yn dy Fab,
y Gair a wnaethpwyd yn gnawd,
Iesu Grist ein Harglwydd.

## SUL CYNTAF (AIL SUL) YR YSTWYLL

### Bedydd Crist

*Pan fo'r Ystwyll ei hun yn Sul, Ail Sul yr Ystwyll fydd Bedydd Crist (13 Ionawr)*

### 19 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, erfyniwn arnat gadw dy Eglwys a'th deulu'n wastadol yn dy wir grefydd; fel y gall y rhai sy'n ymgynnal yn unig ar obaith dy nefol ras gael eu hamddiffyn byth gan dy allu nerthol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dad tragwyddol,
a ddatguddiaist ym medydd Iesu
ei fod yn Fab i ti,
gan ei eneinio â'r Ysbryd Glân:
caniatâ i ni a anwyd drachefn o ddŵr a'r Ysbryd,
lawenhau i gael ein galw
yn blant i ti;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 20 Ôl Gymun

Arglwydd Dduw,
wedi ein hadnewyddu gan y rhoddion sanctaidd hyn,
ceisiwn dy drugaredd:
fel, trwy wrando'n ffyddlon ar dy unig Fab,
ac ufuddhau i gymhelliad yr Ysbryd,
y byddwn yn blant i ti mewn enw ac mewn gwirionedd
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**AIL SUL (TRYDYDD SUL) YR YSTWYLL**
*Pan fo'r Ystwyll yn Sul, defnyddir y canlynol ar Ionawr 20*

**21 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a ddatgenaist ym medydd Crist ein Harglwydd yn afon lorddonen mai dy annwyl Fab ydoedd ef: caniatâ i ni, sydd wedi'n bedyddio iddo, ei gyffesu'n wastadol yn Arglwydd ac lachawdwr, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd GIân, byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
yng Nghrist yr wyt yn gwneud popeth yn newydd:
trawsffurfia dlodi ein natur
â chyfoeth dy ras,
ac yn adnewyddiad ein bywydau
gwna'n hysbys dy ogoniant nefol;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**22 Ôl Gymun**

O Dduw'r gogoniant,
yr wyt yn rhoi inni faeth dy Air
sy'n fara'r bywyd,
llanw ni â'th Ysbryd Glân
fel y disgleiria goleuni dy ogoniant
trwom ni yn yr holl fyd.
Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.

## TRYDYDD SUL (PEDWERYDD SUL) YR YSTWYLL

*Pan fo'r Ystwyll yn Sul, defnyddir y canlynol ar Ionawr 27*

### 23 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*

Cofia, O Arglwydd, yr hyn a wnaethost ti ynom, ac nid ein haeddiant ni; a chan i ti ein galw i'th wasanaeth, gwna ni'n deilwng o'n galwedigaeth: trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*

Hollalluog Dduw,
y datguddiodd dy Fab mewn arwyddion a gwyrthiau
ryfeddod dy bresenoldeb achubol,
adnewydda dy bobl â'th ras nefol,
ac yn ein holl wendid,
cynnal ni â'th allu nerthol;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 24 Ôl Gymun

Hollalluog Dad,
dy Fab ein Gwaredwr Iesu Grist
yw goleuni'r byd:
bydded i'th bobl,
o'u goleuo â'th air a'th sacramentau,
ddisgleirio â llewyrch ei ogoniant,
er mwyn i bawb ei adnabod, ei addoli,
ac ufuddhau iddo
hyd eithafoedd y ddaear;
oherwydd y mae'n fyw ac yn teyrnasu yn awr a hyd byth.

## PEDWERYDD SUL YR YSTWYLL

### 25 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a byth fywiol Dduw, y datguddir dy allu ath ogoniant yn dy Fab Iesu Grist: adnewydda a nertha ni â'th ras, fel y bo i ni, sy'n dy addoli yn dy Eglwys, dystiolaethu'n llawen i'th ogoniant yn y byd; trwy'r un Iesu Grist ein Hiachawdwr.

*Cyfoes*
Dduw y creawdwr,
a orchmynnodd yn y dechreuad
i'r goleuni ddisgleirio o'r tywyllwch,
gweddïwn ar i oleuni efengyl ogoneddus Crist
wasgaru tywyllwch anwybodaeth ac anghrediniaeth,
disgleirio yng nghalonnau dy holl bobl,
a datguddio yr adnabyddiaeth o'th ogoniant
yn wyneb Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 26 Ôl Gymun

Arglwydd bywiol,
cyhoeddasom mewn gair a chymun
ddirgeledd dy gariad:
cynorthwya ni i dreulio ein dyddiau
fel y byddwn yn arwyddion
o'th ryfeddodau yn y byd;
trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

## CYFLWYNIAD CRIST YN Y DEML
## Gŵyl Fair y Canhwyllau

### 27 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a byth fywiol Dduw, megis ar y dydd hwn y cyflwynwyd dy unig-anedig Fab yn y deml yn sylwedd ein cnawd, erfyniwn yn ostyngedig ar i'th Fawredd felly ein cyflwyno ninnau â chalonnau pur a glân; trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog a bythfywiol Dduw,
sy'n gwisgo mawredd,
y cyflwynwyd dy annwyl Fab
y dydd hwn yn y Deml,
yn sylwedd ein cnawd:
caniatâ i ninnau gael ein cyflwyno i ti
â chalonnau pur a glân,
gan dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 28 Ôl Gymun

Arglwydd, cyflawnaist obaith Simeon ac Anna,
a gafodd fyw i groesawu'r Meseia:
bydded i ni, a dderbyniodd y rhoddion hyn sydd y tu hwnt i eiriau,
baratoi i gyfarfod â Christ Iesu pan ddaw
i'n dwyn i fywyd tragwyddol,
oherwydd y mae'n fyw ac yn teyrnasu, yn awr a hyd byth.

## PUMED SUL CYN Y GARAWYS / Y PUMED SUL YN YR YSTWYLL

### 29 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, deisyfwn arnat dderbyn yn drugarog weddïau dy bobl sy’n galw arnat; a chaniatâ iddynt ddeall a gwybod yr hyn a ddylent ei wneud, a hefyd gael gras a gallu i’w wneud yn ffyddlon; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
trwy dy ras yn unig y cawn ein derbyn
a’n galw i’th wasanaeth:
nertha ni â’th Ysbryd Glân
a gwna ni’n deilwng o’n galwedigaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 30 Ôl Gymun

Dduw trugarog,
diolchwn i ti am ein gwahodd i gyfranogi o’r un bara
a’r un cwpan:
trwy dy ras sy’n parhau
galluoga ni i fyw fel un teulu yng Nghrist
ac i rannu dy iachawdwriaeth yn llawen
â phawb nad ydynt yn d’adnabod;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## PEDWERYDD SUL CYN Y GARAWYS / Y CHWECHED SUL YN YR YSTWYLL

### 31 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Arglwydd a thragwyddol Dduw, deisyfwn arnat gyfarwyddo, sancteiddio, a llywio ein calonnau a'n cyrff yn ffyrdd dy ddeddfau ac yng ngweithredoedd dy orchmynion, fel, trwy dy nodded gadarnaf yma a thros byth, y byddwn yn gadwedig gorff ac enaid; trwy ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist.

*Cyfoes*
O Dduw,
gwyddost i ni gael ein gosod
mewn cynifer o beryglon,
fel na allwn, oherwydd gwendid ein natur,
sefyll bob amser yn uniawn:
caniatâ i ni y fath nerth a nodded
ag a'n cynorthwya ym mhob rhyw berygl
a'n cynnal trwy bob profedigaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 32 Ôl Gymun

Rhagflaena ni, Arglwydd, ym mhob peth a wnawn,
â'th ragorol ras,
ac arwain ni â'th gymorth gwastadol,
fel y gallwn ogoneddu dy enw
yn ein holl weithredoedd
o'u dechrau i'w diwedd ynot ti,
a chael yn y pen draw, o'th drugaredd,
fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## TRYDYDD SUL CYN Y GARAWYS / SEPTWAGESIMA

### 33 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a greaist y nefoedd a'r ddaear, a llunio dyn ar dy ddelw dy hun: caniatâ inni ganfod ôl dy law yn dy holl waith, a'th foliannu'n wastadol am dy ddoethineb a'th gariad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
ti yn unig all ddod â threfn i
chwantau a serchiadau afreolus
y ddynoliaeth bechadurus:
dyro ras i'th bobl
i garu dy orchmynion
a deisyfu dy addewidion;
fel, yn aml droeon y byd hwn,
y sefydlir ein calonnau'n ddiogel
lle mae gwir lawenydd i'w gael;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 34 Ôl Gymun

Dad trugarog,
rhoddaist Iesu Grist
i fod i ni yn fara'r bywyd,
fel na newyna byth
y rhai a ddaw ato ef:
arwain ni at yr Arglwydd mewn ffydd a chariad,
fel y gallwn fwyta ac yfed gydag ef
wrth ei fwrdd yn y deyrnas,
lle y mae'n fyw ac yn teyrnasu,
yn awr a hyd byth.

**AIL SUL CYN Y GARAWYS: Sul y Greadigaeth / SECSAGESIMA**

**35 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, cadw dy Eglwys â'th drugaredd gwastadol; a channa ddichon gwendid dyn hebot ti ond syrthio, cadw ni byth trwy dy gymorth oddi wrth bob peth niweidiol, ac arwain ni at bob peth buddiol i'n hiachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
creaist y nefoedd a'r ddaear
a'n creu ni ar dy ddelw dy hun:
dysg ni i ddirnad ôl dy law
yn dy holl waith
a'th lun yn dy holl blant;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
sy'n teyrnasu goruwch pob peth,
yn awr a hyd byth.

**36 Ôl Gymun**

Dduw ein creawdwr,
trwy dy rodd
y gosodwyd pren y bywyd yng nghanol
y baradwys ddaearol,
a bara'r bywyd yng nghalon dy Eglwys,
bydded i ni, sydd wedi ein porthi
wrth dy fwrdd ar y ddaear,
gael ein trawsffurfio gan ogoniant
croes y Gwaredwr
a mwynhau hyfrydwch tragwyddoldeb;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## SUL O FLAEN Y GARAWYS: Sul y Gweddnewidiad / CWINCWAGESIMA

### 37 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, a’n dysgaist mai diwerth yw ein holl weithredoedd heb gariad: anfon dy Ysbryd Glân, a thywallt yn ein calonnau ddawn odidocaf cariad, sy’n wir rwymyn tangnefedd a phob rhinwedd dda, y cyfrifir pwy bynnag sy’n byw hebddo yn farw ger dy fron di; caniatâ hyn er mwyn dy unig Fab Iesu Grist.

*Cyfoes*
Hollalluog Dad,
y datguddiwyd dy Fab mewn mawredd
cyn iddo ddioddef angau ar y groes:
dyro inni ras i ganfod ei ogoniant,
fel y cawn ein cryfhau i ddioddef gydag ef
a’n newid o ogoniant i ogoniant
i fod yn debyg iddo ef;
sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

### 38 Ôl Gymun

Dduw sanctaidd,
gwelwn dy ogoniant yn wyneb Iesu Grist:
bydded i ni sy’n cyfranogi wrth ei fwrdd
adlewyrchu ei fywyd ar air a gweithred,
er mwyn i’r holl fyd adnabod
ei allu i newid ac i achub.
Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## DYDD MERCHER Y LLUDW

### 39 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, a ymprydiaist ddeugain nydd a deugain nos er ein mwyn: dyro inni ras i ymarfer â'r fath ddirwest, fel, wedi darostwng ein cnawd i'r Ysbryd, y gallwn fyth ufuddhau i'th anogaethau duwiol mewn cyflawnder a gwir sancteiddrwydd, i'th anrhydedd a'th ogoniant di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw yn oes oesoedd.
*Mae'r Colect hwn i'w arfer ar y dydd yn unig.*

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
nad wyt yn casáu un dim a wnaethost
ac wyt yn maddau pechodau
pawb sy'n edifeiriol,
crea a gwna ynom
galonnau newydd a drylliedig
fel y bo i ni, gan ofidio'n ddyledus am ein pechodau
a chyfaddef ein trueni,
gael gennyt ti, Dduw'r holl drugaredd,
faddeuant a gollyngdod llawn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Gellir defnyddio'r Colect hwn (heb y fawlgan) fel Ôl Gymun ar unrhyw ddydd o Sul Cyntaf y Garawys hyd at ddydd Sadwrn cyn Garawys 4*

### 40 Ôl Gymun

Hollalluog Dduw,
rhoddaist dy unig Fab i ni
yn aberth dros bechod
a hefyd yn batrwm o fywyd duwiol:
dyro i ni ras
fel y gallwn bob amser dderbyn yn ddiolchgar
ei roddion anhraethol,
ac ymroi beunydd
i ganlyn llwybrau bendigedig
ei fywyd sanctaidd ef;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y DYDDIAU YN DILYN DYDD MERCHER Y LLUDW

### 41 Colect ac Ôl Gymun

*Gellir defnyddio Colect a Gweddi Ôl Gymun y Sul cyn y Garwys / Cwincwagesima*

## SUL CYNTAF Y GARAWYS

### 42 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, erfyniwn arnat ganiatáu i'th bobl ras i wrthsefyll temtasiynau'r byd, y cnawd, a'r diafol, ac â phur galon a meddwl dy ddilyn di, yr unig Dduw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
yr ymprydiodd dy Fab Iesu Grist ddeugain diwrnod yn yr anialwch,
a'i demtio fel ninnau, ond eto heb bechod,
dyro inni ras i ddisgyblu ein hunain
mewn ufudd-dod i'th Ysbryd;
a chan wybod am ein gwendid,
bydded i ni felly adnabod dy allu achubol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 43 Ôl Gymun

Arglwydd trugarog,
dyro i'th bobl ras
i wrthsefyll temtasiynau'r byd,
y cnawd a'r diafol,
ac â chalon a meddwl pur dy ddilyn di,
yr unig Dduw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## AIL SUL Y GARAWYS

### 44 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, erfyniwn arnat ganiatáu i'th bobl ras i wrthsefyll temtasiynau'r byd, y cnawd, a'r diafol, ac â phur galon a meddwl dy ddilyn di, yr unig Dduw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
rwyt yn dangos i'r sawl sydd ar gyfeiliorn
lewyrch dy wirionedd,
er mwyn iddynt ddychwelyd i ffordd cyfiawnder:
caniatâ i bawb a dderbynnir
i gymdeithas crefydd Crist,
wrthod y pethau hynny
sy'n wrthwyneb i'w bedydd,
a chanlyn yn ffordd Iesu Grist ein Harglwydd;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 45 Ôl Gymun

Greawdwr nefoedd a daear,
diolchwn i ti am y dirgeleddau sanctaidd hyn
a roddwyd i ni gan ein Harglwydd Iesu Grist,
y derbyniwn trwyddynt dy ras
a sicrwydd o'th gariad,
yn awr ac am byth.

## TRYDYDD SUL Y GARAWYS

### 46 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, nad wyt yn casáu un dim a wnaethost, ac wyt yn maddau pechodau pawb sy'n edifeiriol: crea a gwna ynom. galonnau newydd a drylliedig, fel y bo i ni, gan ofidio'n ddyledus am ein pechodau, a chyfaddef ein trueni, gael gennyt ti, Dduw'r holl drugaredd, faddeuant a gollyngdod llawn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
nad aeth dy Fab anwylaf
i fyny i lawenydd
cyn iddo yn gyntaf ddioddef poen,
na mynd i mewn i'r gogoniant
cyn iddo gael ei groeshoelio:
caniatâ yn drugarog i ni,
gan gerdded ffordd y groes,
ganfod nad yw'n ddim arall
ond ffordd bywyd a thangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 47 Ôl Gymun

Erfyniwn arnat, hollalluog Dduw,
edrych ar ddeisyfiadau gostyngedig dy weision ufudd,
ac estyn deheulaw dy fawredd,
i fod yn ymwared i ni rhag ein holl elynion;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## PEDWERYDD SUL Y GARAWYS

### 48 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dad hollalluog, edrych ar dy deulu yr Eglwys, fel y gallwn ni, o'n hadfywio a'n nerthu trwy dy ras, ddyfalbarhau yn ffordd yr iachawdwriaeth, a chael ynot ti ein llawenydd a'n tangnefedd; trwy dy Fab Iesu Grist ein Hiachawdwr.

*Cyfoes*
Arglwydd Dduw,
y cyflwynodd dy fendigedig Fab ein Gwaredwr
ei gefn i'r fflangellwyr
ac na chuddiodd ei wyneb rhag gwarth,
dyro i ni ras i ddwyn dioddefiadau
yr amser presennol hwn
yn llawn hyder yn y gogoniant
sydd i'w ddatguddio;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Gellir defnyddio'r Colect hwn ar ddyddiau'r wythnos wedi Garawys 4*
Dduw trugarog,
gollwng dy bobl oddi wrth eu camweddau,
fel y gallwn trwy dy ddaioni haelionus
fod oll yn rhydd
o gadwynau'r pechodau hynny
a gyflawnwyd gennym oherwydd ein llesgedd;
caniatâ hyn, Dad nefol,
er mwyn Iesu Grist,
ein Harglwydd bendigedig a'n Hiachawdwr,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 49  Ôl Gymun

Dduw cariadus,
fel y mae mam yn bwydo'i phlant ar y fron,
rwyt yn ein bwydo ni yn y sacrament hwn â bwyd a diod y bywyd tragwyddol:
cynorthwya ni sydd wedi blasu dy ddaioni
i dyfu mewn gras yn nheulu'r ffydd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

***Neu* "Sul y Fam"**

### 50  Colect

Dduw tosturi,
y bu i'th Fab Iesu Grist, plentyn Mair,
gyfranogi o fywyd cartref yn Nasareth,
ac a ddygodd y teulu dynol cyfan ato'i hun
ar y groes,
cryfha ni yn ein byw beunyddiol
fel y gallwn, mewn llawenydd ac mewn gofid,
brofi nerth dy bresenoldeb
i rwymo ynghyd ac i iacháu;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## PUMED SUL Y GARAWYS
## Dechrau Tymor y Dioddefaint

### 51 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, a ddatguddiaist fawredd dy unig-anedig Fab ar y mynydd sanctaidd cyn ei Ddioddefaint: dyro i ni dy weision gael canfod ei ogoniant a'n nerthu i ddwyn ei groes; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Drugarocaf Dduw,
a waredaist ac a achubaist y byd
drwy angau ac atgyfodiad dy Fab Iesu Grist:
caniatâ i ni drwy ffydd ynddo ef
a ddioddefodd ar y groes,
orfoleddu yn nerth ei fuddugoliaeth;
trwy Iesu Grist, ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 52 Ôl Gymun

Arglwydd Iesu Grist,
dysgaist ni
yn gymaint ag inni ei wneud
i'r lleiaf o'n brodyr a'n chwiorydd
y gwnawn hefyd i ti:
dyro i ni'r ewyllys i fod yn weision i eraill
fel y buost ti yn was i bawb,
a rhoi dy fywyd a marw drosom,
ond sy'n fyw ac yn teyrnasu,
yn awr ac am byth.

## CHWECHED SUL Y GARAWYS
## Sul y Blodau

### 53 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, a anfonaist dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, o'th dyner gariad at ddynion, i gymryd ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y groes, fel y gallai pob dyn ddilyn esiampl ei ostyngeiddrwydd mawr: dyro inni allu dilyn esiampl ei ddioddefgarwch, a bod hefyd yn gyfrannog o'i atgyfodiad; trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
a anfonaist dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist
o'th gariad tyner at yr hil ddynol
i gymryd ein cnawd
ac i ddioddef angau ar y groes,
caniatâ inni ddilyn esiampl
ei amynedd a'i ostyngeiddrwydd
a bod hefyd yn gyfrannog o'i atgyfodiad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân.

### 54 Ôl Gymun

Arglwydd Iesu Grist,
darostyngaist dy hun
trwy gymryd ffurf gwas,
ac mewn ufudd-dod buost farw ar y groes
er ein hiachawdwriaeth:
dyro i ni'r bwriad i'th ddilyn di,
ac i'th gyhoeddi di yn Arglwydd ac yn Frenin,
er gogoniant i Dduw y Tad.

## DYDD IAU CABLYD

### 55 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, a anfonaist dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, o'th dyner gariad at ddynion, i gymryd ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y groes, fel y gallai pob dyn ddilyn esiampl ei ostyngeiddrwydd mawr: dyro inni allu dilyn esiampl ei ddioddefgarwch, a bod hefyd yn gyfrannog o'i atgyfodiad; trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd.

Fendigaid Arglwydd, a adewaist i ni goffadwriaeth o'th Ddioddefaint mewn Sacrament rhyfeddol: caniatâ inni felly barchu dirgeleddau sanctaidd dy Gorff a'th Waed, fel y canfyddwn yn wastad ynom ein hunain ffrwyth dy brynedigaeth di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Dduw ein Tad,
gwahoddaist ni i gyfranogi o'r swper
a roes dy Fab i'r Eglwys
i gyhoeddi ei angau nes y daw drachefn:
bydded iddo ein maethu â'i bresenoldeb,
a'n huno yn ei gariad ef;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Yn y Foreol a'r Hwyrol Weddi defnyddir Colect Sul y Blodau.*

### 56 Ôl Gymun

Iesu, Waredwr y byd,
diolchwn i ti am adael inni
yn y sacrament rhyfeddol hwn
goffâd o'th ddioddefaint:
caniatâ inni felly barchu dirgeleddau sanctaidd
dy gorff a'th waed
fel y profwn ynom ein hunain
ac egluro yn ein bywydau
ffrwyth dy gariad achubol di;
oherwydd yr wyt yn fyw ac yn teyrnasu, yn awr ac am byth.

## DYDD GWENER Y GROGLITH

### 57 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*

Hollalluog Dduw, erfyniwn arnat edrych yn rasol ar dy deulu yma, y bu'n fodlon gan ein Harglwydd Iesu Grist gael ei fradychu drosto, a'i roddi yn nwylo dynion anwir, a dioddef angau ar y groes, yr hwn sy'n awr yn byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

Hollalluog a thragwyddol Dduw, sydd trwy dy Ysbryd yn llywodraethu ac yn sancteiddio holl gorff yr Eglwys: derbyn ein hymbiliau a'n gweddïau a offrymwn ger dy fron dros bob gradd o ddynion yn dy lân Eglwys, fel y gall pob aelod ohoni, yn ei alwedigaeth a'i weinidogaeth, dy wasanaethu di'n gywir ac yn dduwiol; trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist.

Drugarog Dduw, gwneuthurwr pob dyn, nad wyt yn casáu dim a wnaethost, nac yn dymuno marwolaeth pechadur, eithr yn hytrach ddychwelyd ohono a byw: deisyfwn arnat drugarhau wrth bawb nad ydynt yn cyffesu Crist a groeshoeliwyd. Symud ymaith oddi wrthynt bob anwybodaeth, caledwch calon, a dirmyg ar dy Air; ac felly dwg hwynt adref i'th gorlan, fel y byddant hwy a ninnau'n un praidd dan Un Bugail, Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dad,
edrych yn drugarog ar dy deulu yma
y bu Iesu Grist ein Harglwydd yn barod i gael ei fradychu er ei fwyn
a'i draddodi i ddwylo pechaduriaid
a dioddef angau ar y groes;
sy'n fyw ac wedi ei ogoneddu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

### 58 Ôl Gymun

O Dduw trugaredd, o orsedd gras,
ar awr y rhoddodd dy Fab ei hunan i farwolaeth,
clyw weddi daer dy bobl.
Wrth iddo gael ei ddyrchafu ar y groes,
dwg i mewn i'w fywyd dyrchafedig bawb a enir o'r newydd
yn y gwaed a'r dŵr sy'n llifo o'i ystlys agored ef.

## NOSWYL Y PASG

### 59 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Caniatâ, O Arglwydd, megis y bedyddir ni i farwolaeth dy fendigedig Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, fod inni felly, trwy farwhau'n wastad ein serchiadau llygredig, gael ein claddu gydag ef; a thrwy'r bedd a phorth angau fynd rhagom i'n hatgyfodiad llawen; trwy ei haeddiannau ef, a fu farw, ac a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn; sef dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Caniatâ, O Arglwydd,
i ni a fedyddiwyd i farwolaeth
dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist,
farwhau'n wastad
ein dymuniadau llygredig,
a chael ein claddu gydag ef;
a, thrwy'r bedd a phorth angau,
yr awn rhagom i'n hatgyfodiad llawen;
trwy ei haeddiannau ef, a fu farw, ac a gladdwyd,
ac a gyfododd drachefn er ein mwyn,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd.

## DYDD Y PASG

### 60 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a orchfygaist angau trwy dy unig-anedig Fab Iesu Grist, ac agor inni borth y bywyd tragwyddol: cynydda a chyfnertha ein ffydd, fel y bo i ni ei adnabod ef a grym ei atgyfodiad, a byw byth i'th ogoniant di; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân byth yn un Duw yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Arglwydd pob bywyd a nerth,
gorchfygaist hen drefn pechod a marwolaeth
drwy atgyfodiad nerthol dy Fab
er mwyn gwneud pob peth yn newydd ynddo ef:
caniatâ i ni, sy'n farw i bechod,
ac yn fyw i ti yn Iesu Grist,
deyrnasu gydag ef mewn gogoniant;
bydded iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
glod a moliant, gogoniant a gallu,
yn awr ac yn dragwyddol.

### 61 Ôl Gymun

Fywiol Dduw,
a roddaist dy unig-anedig Fab
i farw ar y groes er ein prynedigaeth,
a thrwy ei atgyfodiad gogoneddus
a'n gwaredodd ni oddi wrth allu'r gelyn:
dyro inni felly farw beunydd i bechod,
fel y byddwn fyw mwyach gydag ef
yn llawenydd ei fywyd atgyfodedig;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## WYTHNOS Y PASG

### 62 Colect

*Llyfr Gweddi 1984 Dyddiau Llun a Mawrth*
Hollalluog Dduw, a roddaist dy unig Fab i farw ar y groes er ein prynedigaeth, a thrwy ei atgyfodiad gogoneddus a'n gwaredaist ni oddi wrth allu'r gelyn: dyro inni felly farw beunydd i bechod, fel y byddwn fyw mwyach gydag ef yn llawenydd ei atgyfodiad; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Llyfr Gweddi 1984 Dyddiau Mercher i Sadwrn*
Hollalluog Dduw, a orchfygaist angau trwy dy unig-anedig Fab Iesu Grist, ac agor inni borth y bywyd tragwyddol: cynydda a chyfnertha ein ffydd, fel y bo i ni ei adnabod ef a grym ei Atgyfodiad, a byw byth i'th ogoniant di; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glan byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
*Defnyddier Colect a Gweddi Ôl Gymun ar gyfer Dydd y Pasg*

## AIL SUL Y PASG

### 63 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Dad hollalluog, a roddaist dy unig Fab i farw dros ein pechodau, ac i atgyfodi drachefn i'n cyflawnhau: dyro inni gredu mor berffaith a chwbl ddiamau yn ei atgyfodiad, fel na cheryddir ein ffydd un amser yn dy olwg di; trwy'r un Iesu Grist, y bo iddo, gyda thi a'r Ysbryd Glân, bob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Dad hollalluog,
rhoddaist dy unig Fab
i farw dros ein pechodau
ac i gyfodi drachefn i'n cyfiawnhau:
caniatâ i ni fwrw ymaith surdoes malais a drygioni
er mwyn inni dy wasanaethu'n wastadol
mewn purdeb bywyd a gwirionedd;
trwy haeddiannau dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 64 Ôl Gymun

Arglwydd Dduw ein Tad,
trwy ein Gwaredwr Iesu Grist
yr wyt wedi sicrhau bywyd tragwyddol i'th blant
a'n gwneud yn un ag ef mewn bedydd,
gwared ni rhag marwolaeth pechod
a chyfoda ni i fywyd newydd yn dy gariad,
yng nghymdeithas yr Ysbryd Glân,
trwy ras Iesu Grist ein Harglwydd.

## TRYDYDD SUL Y PASG

### 65 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a roddaist dy unig Fab inni'n aberth dros bechod, ac yn esiampl o fuchedd dduwiol: dyro inni ras, fel y gallwn byth dderbyn yn ddiolchgar o'i lesâd anhraethol hwnnw, a hefyd ymroi beunydd i ganlyn llwybrau bendigedig ei lanaf fuchedd ef; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dad,
a wnaethost yn dy drugaredd mawr
y disgyblion yn llawen
o weld yr Arglwydd atgyfodedig:
dyro inni'r fath adnabyddiaeth o'i bresenoldeb,
fel y cawn ein hatgyfnerthu a'n cynnal
gan ei fywyd atgyfodedig,
a'th wasanaethu'n barhaus mewn cyfiawnder a gwirionedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 66 Ôl Gymun

Fywiol Dduw,
amlygodd dy Fab ei hun i'w ddisgyblion
yn nhoriad y bara:
agor lygaid ein ffydd,
fel y gwelwn ef yn ei holl waith gwaredol;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

## PEDWERYDD SUL Y PASG

### 67 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Fywiol Dad, a roddaist dy unig Fab i fod inni'r Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd: dyro inni ynddo ef dy geisio'n ffyddlon, dy gaffael yn llawen, a'th feddu'n wastadol, dydi Dduw bythol fendigedig.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
dy Fab Iesu Grist
yw'r atgyfodiad a'r bywyd:
cyfoda ni, sy'n ymddiried ynddo ef,
o farwolaeth pechod
i fywyd cyfiawnder,
fel y ceisiwn y pethau hynny sydd uchod
lle y mae ef yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

### 68 Ôl Gymun

Dad trugarog,
rhoddaist dy Fab Iesu Grist i fod yn fugail da,
ac yn ei gariad tuag atom i roi ei einioes a chyfodi drachefn:
cadw ni'n wastad dan ei adain,
a dyro i ni ras i ddilyn ei lwybr;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## PUMED SUL Y PASG

### 69 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, ti yn unig a all lywodraethu chwantau a serchiadau afreolus dynion pechadurus: dyro i'th bobl felly garu dy orchmynion, a cheisio dy addewidion, fel, yn aml ac amryw droeon byd, y sefydlir ein calonnau'n ddiogel lle mae gwir lawenydd i'w gael; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a orchfygaist angau trwy dy uniganedig Fab
ac a agoraist i ni borth y bywyd tragwyddol:
bydded i'th ras ein rhagflaenu
a dyro ddeisyfiadau da yn ein meddyliau
fel y gallwn, trwy dy gymorth parhaus di,
eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd atgyfodedig,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 70 Ôl Gymun

Dragwyddol Dduw,
dy Fab Iesu Grist
yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd,
caniatâ i ni gerdded yn ei ffordd,
i lawenhau yn ei wirionedd
a chyfranogi o'i fywyd atgyfodedig;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**CHWECHED SUL Y PASG**
**Sul y Gweddïau**

## 71 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, yr wyt bob amser yn barotach i wrando na ni i weddïo, ac yn arfer rhoi mwy nag yr ydym yn ei ddeisyf na'i haeddu: tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddau inni'r pethau y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoi inni'r pethau daionus hynny nad ydym yn deilwng i'w gofyn, ond trwy haeddiannau a chyfryngdod dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Dduw ein hiachawdwr,
gwaredaist ni rhag galluoedd y tywyllwch
a'n dwyn i deyrnas dy Fab:
caniatâ iddo ef a'n galwodd ni'n ôl i fywyd trwy ei angau,
ein cyfodi i lawenydd tragwyddol
trwy ei bresenoldeb parhaus ynom ni;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## 72 Ôl Gymun

O Dduw haelionus,
dy Fab Iesu Grist
sy'n rhoi dŵr y bywyd tragwyddol:
bydded i ni sychedu amdanat ti,
ffynnon bywyd a ffynhonnell daioni,
trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu, yn awr a hyd byth.

*Gweler hefyd golectau Dydd Gweddïau a Gweddi Ôl Gymun.*

## DYDD IAU'R DYRCHAFAEL

### 73 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, erfyniwn arnat ganiatáu, megis yr ydym yn credu i'th uniganedig Fab esgyn i'r nef, felly fod i ninnau ym meddylfryd ein calon ymddyrchafael yno, a thrigo'n wastad gydag ef, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
fel yr ydym yn credu i'th unig-anedig Fab
Iesu Grist ein Harglwydd
esgyn i'r nef,
gweddïwn arnat ganiatáu i ninnau ym meddylfryd ein calon
ymddyrchafu a thrigo yno'n wastad gydag ef;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 74 Ôl Gymun

Dduw ein Tad,
cyfodaist ein dynoliaeth yng Nghrist
a'n bwydo â bara'r nefoedd:
caniatâ'n drugarog i ni,
o gael ein maethu â'r fath fendithion ysbrydol,
osod ein calonnau yn y lleoedd nefol;
trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

**SEITHFED SUL Y PASG**
**Y Sul ar ôl Dydd Iau’r Dyrchafael**
**Wythnos weddi am ddoniau’r Ysbryd Glân**

**75 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, Brenin y Gogoniant, a ddyrchefaist dy un Mab Iesu Grist â mawr fuddugoliaeth i’th deyrnas yn y nef: erfyniwn arnat, na ad ni’n amddifad; eithr anfon dy Ysbryd Glan i’n nerthu, a dyrchafa ni i’r un fan lle’r aeth ein Hiachawdwr Crist o’n blaen; yr hwn sy’n byw ac yn teyrnasu gyda thi a’r un Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
O Dduw, Brenin y gogoniant,
dyrchefaist dy unig Fab Iesu Grist
â buddugoliaeth fawr i’th deyrnas yn y nefoedd:
erfyniwn arnat beidio â’n gadael yn ddigysur,
ond anfon dy Ysbryd Glân i’n nerthu ni
a’n dyrchafu i’r fan lle’r aeth ein Hiachawdwr Crist o’n blaen,
yr hwn sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**76 Ôl Gymun**

Rhoddwr Tragwyddol cariad a nerth,
anfonodd dy Fab Iesu Grist ni i’r holl fyd
i bregethu efengyl ei deyrnas:
cadarnhâ ni yn y genhadaeth hon,
a chynorthwya ni i fyw
y newyddion da a gyhoeddwn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## DYDD Y PENTECOST
## Y Sulgwyn

### 77 Colect

*Llyfr Gweddi*
O Dduw, a ddysgaist ar gyfenw i'r amser yma galonnau dy ffyddloniaid trwy anfon iddynt oleuni dy Ysbryd Glân: dyro i ni trwy'r un Ysbryd feddu barn gywir ym mhob peth, a llawenychu byth yn ei ddiddanwch gwynfydedig; trwy haeddiannau Iesu Grist ein Hiachawdwr, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr un Ysbryd, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
O Dduw, a ddysgaist yr adeg hon
galonnau dy ffyddloniaid
trwy anfon atynt oleuni dy Ysbryd Glân,
dyro i ni drwy'r un Ysbryd
feddu barn gywir ym mhob peth
a llawenhau byth yn ei ddiddanwch sanctaidd;
drwy haeddiannau Crist Iesu ein Gwaredwr,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 78 Ôl Gymun

O Dduw ffyddlon,
a gyflawnaist addewidion y Pasg
drwy anfon dy Ysbryd Glân
ac agor ffordd y bywyd tragwyddol
i bob hil a chenedl,
agor ein gwefusau trwy dy Ysbryd,
fel y gall pob tafod ddatgan dy ogoniant;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Defnyddir y Colect Cyfoes a'r Ôl Gymun ar Noswyl a Dydd y Pentecost yn unig.*

## Y DYDDIAU GWAITH WEDI'R PENTECOST

### 79 Colect

*Cyfoes*
O Arglwydd, ffynhonnell pob peth da,
caniatâ i ni dy weision gostyngedig,
trwy dy ysbrydoliaeth
feddwl y pethau sy'n dda,
a thrwy dy arweiniad trugarog
gyflawni'r pethau hynny;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 80 Ôl Gymun

O Dduw grasol, sy'n caru pawb,
trwy'r sacrament hwn
fe'n gwnaethost yn un teulu yng Nghrist dy Fab,
yn un wrth gyfranogi o'i gorff a'i waed
ac yn un yng nghymundeb ei Ysbryd,
cynorthwya ni i dyfu mewn cariad at ein gilydd
a chyrraedd aeddfedrwydd llawn Corff Crist.
Gweddïwn hyn trwy dy Fab ein Gwaredwr.

**SUL Y DRINDOD**
**Y Sul Cyntaf wedi'r Pentecost**

## 81 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, a roddaist ras i ni dy weision, gan gyffesu ac arddel y wir ffydd, i gydnabod gogoniant y Drindod dragwyddol, ac yn nerth y Dwyfol Fawredd i addoli'r Undod: cadw ni'n ddiysgog yn y ffydd hon, a'n hamddiffyn byth rhag pob gwrthwyneb, dydi sy'n byw ac yn teyrnasu, yn un Duw, byth heb ddiwedd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
rhoddaist ras i ni dy weision,
gan gyffesu ac arddel y wir ffydd,
i gydnabod gogoniant y Drindod dragwyddol
ac addoli'r Undod yn nerth y dwyfol fawredd:
cadw ni'n ddiysgog yn y ffydd hon,
a'n hamddiffyn byth rhag pob trallod;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## 82 Ôl Gymun

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
datguddiaist dy hun
yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
ac yr wyt yn byw ac yn teyrnasu
yn undod perffaith cariad:
cynnal ni'n ddiysgog yn y ffydd hon,
fel y bo i ni dy adnabod yn dy holl ffyrdd
a llawenhau byth yn dy ogoniant tragwyddol,
sanctaidd a thragwyddol Drindod,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## YR AIL SUL WEDI’R PENTECOST / TRINDOD 1

### 83 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, nerth pawb oll sy’n ymddiried ynot, yn drugarog derbyn ein gweddïau; a chan na allwn, gan wendid ein natur farwol, wneud dim da hebot ti, caniatâ inni gymorth dy ras, i gadw dy orchmynion a’th foddhau ar ewyllys a gweithred; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Dduw, nerth pawb sy’n
ymddiried ynot,
derbyn yn drugarog ein gweddïau
a chan na allwn, gan wendid ein natur farwol,
wneud dim da hebot ti,
caniatâ inni gymorth dy ras,
fel wrth gadw dy orchmynion
y bo i ni dy foddhau ar ewyllys a gweithred;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 84 Ôl Gymun

Dad tragwyddol,
diolchwn i ti am ein maethu â’r rhoddion nefol hyn:
bydded i’n cymundeb ein nerthu mewn ffydd,
ein hadeiladu mewn gobaith,
a’n cynorthwyo i dyfu mewn cariad;
er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y TRYDYDD SUL WEDI’R PENTECOST/ TRINDOD 2

### 85  Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thrugarog Dduw, y daw o’th rodd di yn unig fod dy bobl ffyddlon yn dy wasanaethu’n gywir ac yn ganmoladwy: caniatâ inni allu dy wasanaethu mor ffyddlon yn y bywyd hwn fel na chollwn yn y diwedd fwynhad dy nefol addewidion; trwy haeddiant Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Arglwydd, fe’n dysgaist
mai diwerth yw ein holl weithredoedd heb gariad:
anfon dy Ysbryd Glân
a thywallt yn ein calonnau
ddawn odidocaf cariad,
sy’n wir rwymyn tangnefedd a phob rhinwedd dda,
y cyfrifir pwy bynnag sy’n byw hebddo
yn farw ger dy fron di.
Caniatâ hyn er mwyn dy unig Fab Iesu Grist
sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 86  Ôl Gymun

O Dduw cariadlon,
diolchwn i ti am ein bwydo yn swper dy Fab:
cynnal ni â’th Ysbryd,
fel y gwasanaethwn di yma ar y ddaear
hyd nes y cyflawnir ein llawenydd yn y nefoedd
a chyfranogwn o’r wledd nefol
gyda Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y PEDWERYDD SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 3

### 87 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, erfyniwn fod i'th dosturi gwastadol lanhau ac amddiffyn dy Eglwys; a chan na all hi barhau mewn diogelwch heb dy nodded di, cadw hi byth trwy dy gymorth a'th ddaioni; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
torraist ormes pechod
ac anfon Ysbryd dy Fab
i'n calonnau
a thrwyddo yr ydym yn dy alw'n Dad:
dyro i ni ras i gysegru ein rhyddid
i'th wasanaeth,
fel y dygir ni a'r greadigaeth gyfan
i ryddid gogoneddus plant Duw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 88 Ôl Gymun

O Dduw, sydd â'th brydferthwch y tu hwnt i'n dychymyg
a'th nerth y tu hwnt i'n deall:
dangos i ni dy ogoniant i'r graddau
y gallwn ei amgyffred,
ac amddiffyn ni rhag gwybod mwy nag y gallwn ei oddef
nes y cawn edrych arnat yn ddi-ofn;
trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

## Y PUMED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 4

### 89 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Rhagflaena ni, O Arglwydd, â'th ragorol ras, a hyrwydda ni â'th barhaus gymorth, fel, yn ein holl weithredoedd o'u dechrau i'w diwedd ynot ti y gogoneddwn dy Enw sanctaidd, a chael yn y diwedd gan dy drugaredd fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Dduw, gwarchodwr pob un sy'n ymddiried ynot,
nad oes dim yn nerthol hebot ti,
na dim yn sanctaidd,
ychwanega ac amlha dy drugaredd arnom,
fel y gallwn, a thi yn llywodraethwr
ac yn arweinydd i ni,
dreiddio trwy bethau tymhorol
fel na chollwn yn y diwedd y pethau tragwyddol;
caniatâ hyn, Dad nefol,
er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 90 Ôl Gymun

O Dduw tragwyddol,
cysur y cystuddiol
ac iachawr y drylliedig,
porthaist ni wrth fwrdd bywyd a gobaith:
dysg i ni ffyrdd addfwynder a thangnefedd,
er mwyn i'r holl fyd gydnabod
teyrnas dy Fab ein Harglwydd Iesu Grist.

## Y CHWECHED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 5

### 91 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Caniatâ inni, O Arglwydd, erfyniwn arnat, yr ysbryd i feddwl ac i wneud yn wastad yr hyn sy'n gyfiawn; fel y bo i ni, na allwn hebot ti wneud dim sy dda, allu drwot ti fyw yn ôl dy ewyllys: trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
sydd trwy dy Ysbryd yn
llywodraethu ac yn sancteiddio
holl gorff yr Eglwys,
gwrando ein gweddi a offrymwn dros dy holl bobl ffyddlon,
iddynt allu dy wasanaethu mewn
sancteiddrwydd a gwirionedd
yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth
er gogoniant i'th enw;
trwy ein Harglwydd
a'n Hiachawdwr Iesu Grist,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 92 Ôl Gymun

Caniatâ, O Arglwydd, erfyniwn arnat,
i gwrs y byd hwn gael ei drefnu mor heddychlon
trwy dy reolaeth di,
fel y gall dy Eglwys dy wasanaethu'n llawen
ym mhob tawelwch duwiol
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y SEITHFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 6

### 93 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, sydd bob amser yn cynorthwyo a llywodraethu'r rhai yr wyt yn eu meithrin yn dy ddilys ofn a'th gariad: cadw ni yn nodded dy ragluniaeth ddaionus, a phâr inni ofni a charu'n ddi-baid dy Enw bendigedig; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dduw trugarog,
darperaist i'r rhai sy'n dy garu
y fath bethau daionus sydd uwchlaw ein deall:
tywallt yn ein calonnau'r fath gariad tuag atat,
fel y bo i ni, sy'n dy garu uwchlaw pob dim,
allu derbyn dy addewidion,
sy'n fwy rhagorol na dim y gallwn ni ei ddeisyfu;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 94 Ôl Gymun

Dduw ein pererindod,
tywysaist ni at y dŵr bywiol:
adfywia a chynnal ni
wrth inni fynd ymlaen ar ein taith,
yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.

## YR WYTHFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 7

### 95 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, na allwn hebot ti ryngu bodd i ti; o'th drugaredd caniatâ fod i'th Iân Ysbryd ym mhob peth gyfarwyddo a llywio ein calonnau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Arglwydd pob nerth a chadernid,
awdur a rhoddwr popeth sy'n dda:
planna yn ein calonnau gariad at dy enw,
cynydda ynom wir grefydd,
maetha ni â phob daioni,
ac o'th fawr drugaredd cadw ni ynddynt;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 96 Ôl Gymun

Arglwydd Dduw, dy Fab yw'r wir winwydden
a ffynhonnell bywyd,
yn ei roi ei hun yn wastadol i'r byd gael byw:
bydded i ni dderbyn ynom ein hunain
rym ei angau a'i ddioddefaint
fel y gallwn gyfranogi o'i ogoniant
yn ei gwpan achubol,
a'n gwneud yn berffaith yn ei gariad;
oherwydd y mae'n fyw ac yn teyrnasu,
yn awr ac am byth.

## Y NAWFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 8

### 97 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, a ddarperaist i'r rhai sy'n dy garu bethau daionus uwchlaw deall dyn: tywallt yn ein calonnau'r fath gariad atat, fel y bo i ni, gan dy garu uwchlaw pob dim, allu mwynhau. dy addewidion, sy'n fwy rhagorol na dim y gallwn ni ei ddeisyf; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Arglwydd a thragwyddol Dduw,
deisyfwn arnat gyfarwyddo,
sancteiddio a llywodraethu
ein calonnau a'n cyrff
yn ffyrdd dy gyfreithiau
a gweithredoedd dy orchmynion;
fel trwy dy nodded mawr,
y cawn ein cadw'n gorff ac enaid
yn awr ac am byth;
trwy ein Harglwydd
a'n Hiachawdwr Iesu Grist
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 98 Ôl Gymun

Cyfnertha i wasanaeth, O Arglwydd,
y dwylo a gymerodd bethau sanctaidd;
bydded i'r clustiau a glywodd dy air
fod yn fyddar i dwrw a dadl;
bydded i'r tafodau a ganodd dy fawl
fod yn rhydd o ddichell;
bydded i'r llygaid a welodd
arwyddion dy gariad
lewyrchu â goleuni gobaith;
a bydded i'r cyrff a borthwyd â'th gorff
gael eu hadfywio â llawnder dy fywyd;
gogoniant i ti am byth.

## Y DEGFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 9

### 99  Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, noddwr pawb oll sy'n ymddiried ynot, nad oes dim yn nerthol hebot ti, na dim yn sanctaidd: ychwanega ac amlha dy drugaredd arnom; fel y gallwn, a thi'n llywiawdwr ac yn arweinydd inni, felly dreiddio drwy bethau tymhorol, fel na chollwn yn y diwedd y pethau tragwyddol; caniatâ hyn, O Dad, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a anfonaist dy Ysbryd Glân
i fod yn fywyd a goleuni i'th Eglwys,
agor ein calonnau i gyfoeth dy ras,
fel y dygwn ffrwyth yr Ysbryd
mewn cariad a llawenydd a thangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 100  Ôl Gymun

Dad sanctaidd,
a'n galwodd ni yma ynghyd
o amgylch bwrdd dy Fab
i gyfranogi o'r pryd hwn
gyda holl deulu Duw:
yn y byd newydd hwnnw
lle y datguddi lawnder dy dangnefedd,
cynnull bobl o bob hil ac iaith
i gyfranogi o wledd dragwyddol
Iesu Grist ein Harglwydd.

## YR UNFED SUL AR DDEG WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 10

### 101 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Caniatâ, O Arglwydd trugarog, i'th bobl ffyddlon faddeuant a thangnefedd; fel y glanheir hwynt oddi wrth eu holl bechodau, a'th wasanaethu di â meddwl tawel; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Bydded dy glustiau trugarog, O Arglwydd,
yn agored i weddïau dy weision gostyngedig;
a gwna iddynt ofyn am y pethau hynny
sy'n dderbyniol i ti,
fel y bo iddynt gael eu gofynion;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 102 Ôl Gymun

Dduw ein pererindod,
ewyllysiaist fod i borth trugaredd
aros yn agored i'r rhai sy'n ymddiried ynot:
edrych arnom â'th ffafr
fel na fo i ni sy'n dilyn llwybr dy ewyllys
grwydro byth oddi ar ffordd y bywyd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y DEUDDEGFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 11

### 103 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, yr anfonodd dy Fab Iesu Grist ei apostolion i wneud disgyblion o bob cenedl: cynorthwya ni i gyhoeddi Efengyl dy gariad, fel y bo i bawb a'i clywo gael eu cymodi â thi; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Dduw, rwyt yn amlygu dy allu anfeidrol
yn bennaf trwy ddangos trugaredd a thosturi:
dyro inni'n drugarog y fath fesur o'th ras,
fel y bo i ni, gan redeg ar hyd ffordd dy orchmynion,
dderbyn dy addewidion grasol,
a'n gwneud yn gyfranogion o'th drysor nefol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 104 Ôl Gymun

Dduw pob trugaredd,
rydym ni dy bobl ffyddlon
wedi dathlu'r un aberth hwnnw
sy'n dwyn ymaith ein pechodau
ac yn dod â maddeuant a thangnefedd:
trwy ein cymun,
cadw ni'n ddiysgog ar sylfaen yr efengyl
a chadw ni rhag pob pechod;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y TRYDYDD SUL AR DDEG WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 12

### 105 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, ein nodded a'n nerth, ac awdur pob duwioldeb: gwrando'n ebrwydd weddïau diffuant dy Eglwys; a chaniatâ inni dderbyn yn gyflawn yr hyn a ofynnwn yn ffyddlon; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
rwyt bob amser yn barotach i wrando nag ydym ni i weddïo
ac yn arfer rhoi mwy nag a ddeisyfwn na'i haeddu:
tywallt arnom amlder dy drugaredd,
gan faddau inni'r pethau y mae ein cydwybod yn eu hofni
a rhoi inni'r pethau daionus hynny nad ydym yn deilwng i ofyn amdanynt,
ond trwy haeddiannau a chyfryngdod
Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 106 Ôl Gymun

Dduw tosturi,
rhoddaist heibio ein pechodau yn y cymun hwn
gan roi i ni dy iachâd:
caniatâ i ni a wneir yn gyfan yng Nghrist
ddwyn yr un iachâd i'r byd drylliedig hwn,
yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y PEDWERYDD SUL AR DDEG WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 13

### 107 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Arglwydd pob nerth a chadernid, ac awdur a rhoddwr pob daioni: planna yn ein calonnau gariad at dy Enw, ychwanega ynom wir grefydd, maetha ni â phob daioni, ac o'th fawr drugaredd cynnal ni ynddynt; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a elwaist dy Eglwys i dystiolaethu
dy fod ti yng Nghrist yn cymodi'r byd â thi dy hun,
cynorthwya ni i gyhoeddi newyddion da dy gariad,
fel y denir pawb sy'n ei glywed atat ti;
trwyddo ef a ddyrchafwyd ar y groes,
ac sy'n teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

### 108 Ôl Gymun

Dduw'r creawdwr,
rwyt yn porthi dy bobl â'r gwir fanna,
bara'r bywyd o'r nefoedd:
bydded i'r bwyd sanctaidd hwn ein cynnal
trwy ein pererindod ddaearol
nes dod i'r fan honno
lle nad oes na newyn na syched mwyach;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y PYMTHEGFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 14

### 109 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, dyro inni ychwaneg o ffydd, gobaith, a chariad; ac fel y cawn yr hyn yr wyt yn ei addo, gwna inni garu'r hyn yr wyt yn ei orchymyn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
yr agorodd dy unig Fab inni
ffordd newydd a bywiol i'th bresenoldeb,
dyro inni galonnau pur ac ewyllys gadarn
i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 110 Ôl Gymun

Arglwydd Dduw, ffynhonnell gwirionedd a chariad,
cadw ni'n ffyddlon i ddysgeidiaeth
a chymdeithas yr apostolion,
wedi ein huno mewn gweddi a thorri bara,
ac yn un mewn llawenydd a symlrwydd calon,
yn Iesu Grist ein Harglwydd.

## YR UNFED SUL AR BYMTHEG WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 15

### 111 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollgyfoethog a thrugarocaf Dduw, erfyniwn arnat, o'th hael ddaioni ein cadw rhag pob peth a'n dryga; fel, a ninnau'n barod yn enaid a chorff, y gallwn gyflawni'n llawen yr hyn yr wyt ti yn ei ewyllysio; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Dduw,
yn dy drugaredd hael
anfonaist yr Ysbryd Glân ar dy Eglwys,
yn nhân ysol dy gariad:
caniatâ i'th bobl fod yn danbaid
yng nghymdeithas yr efengyl
fel, gan fyw'n wastadol ynot ti,
y ceir hwy yn gadarn mewn ffydd
ac yn ymroddgar eu gwasanaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 112 Ôl Gymun

Cadw, O Arglwydd, dy Eglwys,
â'th drugaredd tragwyddol;
a chan na all ein gwendid dynol hebot ti ond syrthio,
cadw ni bob amser trwy dy gymorth
rhag pob peth niweidiol,
ac arwain ni at bob peth sy'n fuddiol i'n hiachawdwriaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## YR AIL SUL AR BYMTHEG WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 16

### 113 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, sydd trwy dy ragluniaeth ddiball yn llywodraethu pob peth yn y nef a'r ddaear: erfyniwn yn ostyngedig arnat fwrw ymaith oddi wrthym bob peth niweidiol, a chaniatáu inni'r hyn sydd er ein lles; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Arglwydd, erfyniwn arnat
yn drugarog wrando gweddïau dy bobl sy'n galw arnat;
a chaniatâ iddynt ddeall a gwybod
y pethau y dylent eu gwneuthur,
a chael hefyd ras a gallu
i'w cyflanwi'n ffyddlon;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 114 Ôl Gymun

Hollalluog Dduw,
dysgaist ni trwy dy Fab
mai cariad yw cyflawniad y gyfraith:
dyro i ni dy garu â'n holl galon
a'n cymdogion fel ni ein hunain;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y DEUNAWFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 17

### 115Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, a wyddost ein bod wedi ein gosod mewn cymaint o beryglon, fel na allwn, gan wendid ein natur, sefyll bob amser yn uniawn: dyro inni'r cyfryw nerth a nodded ag a'n cynnal ym mhob perygl, a'n tywys drwy bob temtasiwn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
gwnaethost ni ar dy gyfer di dy hun,
ac y mae'n calonnau'n anniddig
nes cael gorffwys ynot ti:
dysg inni gynnig ein hunain i'th wasanaeth,
fel y cawn yma dy dangnefedd,
ac yn y byd a ddaw
dy weld wyneb yn wyneb;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 116 Ôl Gymun

Arglwydd, gweddïwn am i'th ras
ein rhagflaenu a'n dilyn bob amser,
a gwna i ni ymroddi'n gyson i bob gweithred dda;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## Y PEDWERYDD SUL AR BYMTHEG WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 18

### 117 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, sy'n amlygu dy allu anfeidrol yn bennaf trwy ddangos trugaredd a thosturi: dyro inni'n drugarog y fath fesur o'th ras, fel y bo i ni, gan redeg ar hyd ffordd dy orchmynion, fwynhau dy addewidion grasol, a chyfranogi o'th drysor nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
cynydda ynom dy rodd o ffydd
fel, gan adael yr hyn a aeth heibio
ac ymestyn at yr hyn sydd o'n blaen,
y bydd inni redeg ar hyd ffordd dy orchmynion
ac ennill coron llawenydd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 118 Ôl Gymun

Pob mawl a diolch, O Grist,
am y wledd gysegredig hon,
yr ydym drwy ffydd yn dy dderbyn di ynddi,
adnewyddir y cof am dy ddioddefaint,
llenwir ein bywydau â gras,
a rhoddir inni ernes o'r gogoniant sydd i ddod.
Dwg ni, o'r diwedd,
i wledda wrth y bwrdd lle rwyt yn teyrnasu
gyda'th holl saint am byth.

## YR UGEINFED SUL WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 19

### 119 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, deisyfwn arnat ollwng dy bobl oddi wrth eu camweddau; fel trwy dy hael ddaioni y byddwn oll yn rhydd oddi wrth rwymau'r pechodau hynny a gyflawnwyd gennym yn ein gwendid: caniatâ hyn, nefol Dad, er mwyn Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Hiachawdwr bendigedig.

*Cyfoes*
O Dduw, gan na allwn hebot ti
dy fodloni di;
yn dy drugaredd caniatâ fod i'th Ysbryd Glân
ym mhob peth gyfarwyddo a llywio ein calonnau;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 120 Ôl Gymun

Dduw sanctaidd a gwynfydedig,
porthaist ni â chorff a gwaed dy Fab
a'n llenwi â'th Ysbryd Glân:
bydded i ni dy anrhydeddu,
nid yn unig â'n gwefusau
ond â bywydau wedi eu cysegru i wasanaeth
Iesu Grist ein Harglwydd.

## YR UNFED SUL AR HUGAIN WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 20

### 121 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, sy'n dangos i'r sawl sydd ar gyfeiliorn lewyrch dy wirionedd i'w dwyn i ffordd cyfiawnder: caniatâ i bawb a dderbynnir i gymdeithas crefydd Crist allu cefnu ar bob peth sy'n groes i'w proffes, a dilyn yr hyn oll sy'n gytûn â hi; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Arglwydd, rhoddwr bywyd,
y mae'r Ysbryd Glân yn tarddu yn dy Eglwys:
trwy ddoniau'r Ysbryd hwnnw
galluoga ni i fyw efengyl Crist
a gwna ni'n awyddus i gyflawni dy ewyllys,
er mwyn inni rannu â'r greadigaeth gyfan
lawenydd y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 122 Ôl Gymun

Dduw ein Tad,
daeth dy Fab, y goleuni nad yw'n pallu,
o'r nefoedd i waredu'r byd o dywyllwch anwybodaeth:
caniatâ i'r dirgeleddau sanctaidd hyn
agor llygaid ein dealltwriaeth
inni adnabod ffordd y bywyd,
a cherdded ar hyd-ddi heb faglu;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## YR AIL SUL AR HUGAIN WEDI'R PENTECOST / TRINDOD 21

### 123 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, edrych yn drugarog ar ein gwendid, ac yn ein holl beryglon a'n hanghenion, estyn dy ddeheulaw i'n cynorthwyo a'n hamddiffyn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Caniatâ, erfyniwn arnat, Arglwydd trugarog,
faddeuant a thangnefedd i'th bobl ffyddlon ,
fel y glanheir hwynt o'u holl bechodau
a'th wasanaethu di â meddwl tawel;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 124 Ôl Gymun

Dad y goleuni,
ynot nid oes na chyfnewid na chysgod troadau,
yr wyt yn rhoi inni bob rhodd dda a pherffaith
a'n cenhedlu drwy air y gwirionedd:
bydded i ni fod yn arwydd bywiol o'r deyrnas honno,
lle y perffeithir dy greadigaeth gyfan
yn Iesu Grist ein Harglwydd.

**TRINDOD 22**

**125 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw trugarog, a roddaist dy unig-anedig Fab i farw drosom, a ni eto'n bechaduriaid: gwared ni rhag ysbryd anfaddeugar, fel y byddwn yn rhydd i garu a gwasanaethu ein gilydd, i'th anrhydedd a'th ogoniant di; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**Y SUL OLAF WEDI'R PENTECOST**
**Sul y Beibl**

**126 Colect**

*Cyfoes*
O Arglwydd bendigaid,
a beraist fod yr holl ysgrythur lân
yn ysgrifenedig i'n haddysgu ni,
cynorthwya ni i wrando arni,
ei darllen, ei chwilio, ei dysgu ac ymborthi arni
fel, trwy amynedd, a chymorth dy air sanctaidd
y cofleidiwn ac y daliwn ein gafael yn wastadol
yng ngobaith y bywyd tragwyddol,
a roddaist i ni yn ein Hiachawdwr Iesu Grist,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**127 Ôl Gymun**

Dduw grasol,
rhoes dy Fab Iesu Grist
fara ei fywyd
a gair ei deyrnas
yn fwyd i'r newynog:
adnewydda dy bobl â'th ras nefol,
ac yn ein holl wendid
cynnal ni trwy dy wir a'th fywiol fara,
ef sy'n fyw ac yn teyrnasu,
yn awr ac am byth.

## GĐYL YR HOLL SAINT

### 128 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Dduw hollalluog, a gysylltaist ynghyd dy etholedigion yn un cymundeb a chymdeithas yn nirgel gorff dy Fab, Crist ein Harglwydd: caniatâ inni ras felly i ddilyn dy Saint gwynfydedig mewn buchedd rinweddol a duwiol, fel y delom i'r Ilawenydd anhraethol hwnnw a baratoaist i'r rhai sy'n dy garu'n ddiffuant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
cysylltaist ynghyd dy etholedigion
yn un cymundeb a chymdeithas
yn nirgel gorff dy Fab, Crist ein Harglwydd:
caniatâ i ni ras i ddilyn dy saint gwynfydedig
mewn buchedd rinweddol a duwiol
fel y delom i'r llawenydd anhraethol hwnnw
a baratoaist i'r rhai sy'n dy wir garu;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.

### 129 Ôl Gymun

Dduw, ffynhonnell pob sancteiddrwydd a rhoddwr pob peth da,
boed i ni sydd wedi cyfranogi wrth y bwrdd hwn
fel dieithriaid a phererinion yma ar y ddaear
gael ein croesawu gyda'th holl saint
i'r wledd nefol ar ddydd dyfodiad dy deyrnas;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## TRINDOD 23

### 130 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Caniatâ, O Arglwydd, erfyniwn arnat, fod i gwrs y byd hwn gael ei drefnu mor heddychlon trwy dy lywodraeth di, fel y gall dy Eglwys dy wasanaethu'n llawen mewn heddwch a phob duwioldeb; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## SUL CYNTAF Y DEYRNAS

### 131 Colect

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
enynnaist fflam cariad
yng nghalonnau'r saint:
dyro inni'r un ffydd a grym cariad,
fel, a ninnau'n llawenhau yn eu buddugoliaeth,
y cawn ein cynnal gan eu hesiampl a'u cymdeithas;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.

### 132 Ôl Gymun

Arglwydd y nefoedd,
dygaist ni'n agos yn y cymun hwn
at gwmni dirifedi o angylion
ac at ysbrydoedd y saint a berffeithiwyd:
megis y cawsom eu cymdeithas
wrth inni gael ein porthi ar ein pererindod ddaearol
bydded inni gyfranogi o'u llawenydd yn y nefoedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## TRINDOD 24

### 133 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Arglwydd Dduw, a weli nad ydym yn ymddiried mewn un dim a wnawn: caniatâ'n drugarog fod inni gael ein hamddiffyn trwy dy nerth rhag pob adfyd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## AIL SUL Y DEYRNAS

### 134 Colect

*Cyfoes*
Hollalluog Dad,
dy ewyllys yw adfer pob peth
yn dy annwyl Fab, Brenin pawb;
llywia galonnau a meddyliau
pawb sydd mewn awdurdod,
a dwg deuluoedd y cenhedloedd,
a wahanwyd ac a rwygwyd gan anrhaith pechod,
i fod dan ei lywodraeth gyfiawn a thyner ef;
caniata hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.

### 135 Ôl Gymun

Dduw tangnefedd,
y cyhoeddodd dy Fab Iesu Grist y deyrnas
ac adfer y drylliedig i gyfanrwydd bywyd:
edrych yn dosturiol ar ing y byd,
a bydded i ti trwy dy nerth iachaol
gyfannu'r bobloedd a'r cenhedloedd;
trwy ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist.

## TRINDOD 25

### 136 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, sy'n llywodraethu pob peth yn y nef a'r ddaear: gwrando'n drugarog ymbiliau dy bobl, a dyro inni dy dangnefedd holl ddyddiau ein bywyd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## TRYDYDD SUL Y DEYRNAS

### 137 Colect

*Cyfoes*
Dad nefol,
y datguddiwyd dy fendigedig Fab
i ddatod gweithredoedd y diafol
a'n gwneud ni'n blant i Dduw
ac yn etifeddion bywyd tragwyddol,
caniatâ i ni, a'r gobaith hwn gennym,
ein puro ein hunain fel y mae ef yn bur;
fel, pan ddaw drachefn mewn nerth a gogoniant mawr
y gwneir ni'n debyg iddo ef
yn ei deyrnas ogoneddus a thragwyddol;
caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.

### 138 Ôl Gymun

Dduw grasol,
yn y sacrament sanctaidd hwn
rwyt yn rhoi sylwedd i'n gobaith:
dwg ni yn y diwedd
at y bywyd cyflawn hwnnw yr ydym yn dyheu amdano;
trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr.

## Y SUL CYN YR ADFENT

### 139 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Deffro, Arglwydd, erfyniwn arnat, ewyllys dy ffyddloniaid; fel, gan ddwyn ffrwyth gweithredoedd da yn helaeth, y cânt gennyt ti yn ehelaeth eu gwobrwyo; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## CRIST Y BRENIN
## Pedwerydd Sul y Deyrnas

### 140 Colect

*Cyfoes*
Dad tragwyddol,
yr esgynnodd dy Fab Iesu Grist i orseddfainc nef
iddo deyrnasu dros bob dim yn Arglwydd ac yn Frenin:
cadw'r Eglwys yn undod yr Ysbryd
ac yn rhwymyn tangnefedd,
a dwg yr holl greadigaeth
i addoli wrth ei draed ef;
caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.

### 141 Ôl Gymun

Deffro, Arglwydd, erfyniwn arnat,
ewyllys dy bobl ffyddlon;
fel, gan ddwyn ffrwyth gweithredoedd da yn helaeth,
y cânt eu gwobrwyo'n helaeth gennyt ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Gellir defnyddio'r Weddi Ôl Gymun hon, ynghyd â'r fawlgan* "i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân, y bo'r Deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd." *fel y Colect yn y Foreol a'r Hwyrol Weddi yn ystod yr wythnos hon.*

# GWYLIAU ERAILL

**1 Ionawr: Enwi Iesu**

**142 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a roddaist i'th Fab Iesu Grist yr Enw sydd goruwch pob enw, a'n dysgu nad oes yr un arall i ni fod yn gadwedig drwyddo: caniatâ i ni, gan lawenhau. yn ei Enw, ymroddi byth i'w gyhoeddi i'r holl bobl; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
yr enwaedwyd dy Fab bendigedig,
mewn ufudd-dod i'r gyfraith er ein mwyn,
gan roi iddo'r Enw sydd uwch law pob enw;
dyro i ni ras i arddel ei Enw'n ffyddlon,
i'w addoli yn rhyddid yr Ysbryd
ac i'w gyhoeddi'n Iachawdwr y byd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Sul (Cyntaf) y Nadolig yn addas*

**3 Ionawr: Morris Williams (enw barddol 'Nicander') (1874), Bardd ac Offeiriad**

**143 Colect**

Arglwydd nef a daear,
dy serch a'th gariad tuag atom
a ysbrydolodd dy was Nicander i foli rhyfeddod dy ras di-ball:
caniatâ y byddwn ninnau'n ffyddlon i'r cyfamod
a wnaethost â ni yn Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant
Yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bardd yn addas*

**10 Ionawr: William Laud (1645) , Esgob**

**144 Colect**

O Dduw,
trwy dy ras y proffesodd dy was William y ffydd Gristnogol
ac a fu farw yn y broffes honno:
caniatâ i ninnau a fedyddiwyd i'th Eglwys
fod yn gadarn ein ffydd
fel y rhannwn goron y gogoniant gydag ef;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Offeiriad neu Esgob yn addas*

**11 Ionawr: Rhys Prichard (1644), Offeiriad a Bardd, William Williams (1791), Diacon a Bardd, Isaac Williams (1865), Offeiriad a Bardd**

**145 Colect**

O Dduw ein Goleuni a'n Gwaredwr,
ein Ceidwad a'n Harweinydd,
llewyrcha dy oleuni arnom a gwrando arnom pan alwn arnat:
ac fel yr arweiniaist Rhys, William ac Isaac
fel pererinion drwy'r anialwch,
felly arwain ninnau i'r fan lle, gyda hwy,
y cawn offrymu caneuon a mawl i ti am byth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bardd yn addas*

**13 Ionawr: Ilar (368), Esgob**

**146 Colect**

Dduw tragwyddol,
dy was Ilar
a gyffesodd fod dy Fab Iesu Grist yn ddwyfol ac yn ddynol:
caniatâ i ninnau ei gwrteisi mwyn ef
i'n galluogi i gyflwyno i bawb neges iachawdwriaeth
drwy'r Crist ymgnawdoledig,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**14 Ionawr: Cyndeyrn (c 603) , Esgob**

**147 Colect**

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
a elwaist Cyndeyrn dy was
i bregethu'r efengyl i bobl Prydain:
meithrin yn y wlad hon ac ym mhob man
genhadon ac efengylwyr dy deyrnas,
fel y gall dy Eglwys ddatgelu cyfoeth anfesuradwy dy Fab
ein Gwaredwr Iesu Grist,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**17 Ionawr: Antwn (356) , Abad**

**148 Colect**

Dduw graslonaf,
a elwaist dy was Antwn i werthu popeth a feddai
a’th wasanaethu di yn unigedd yr anialwch:
trwy ei esiampl bydded i ninnau ddysgu hunan-ddisgyblaeth
a’th garu di uwchlaw pob peth;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**18 Ionawr: Cyffes Pedr, Apostol**

**149 Colect**

Hollalluog Dduw
a ysbrydolaist dy apostol Pedr
i gyffesu Iesu yn Feseia
ac yn Fab y Duw byw;
adeilada dy Eglwys ar y graig hon,
fel y gall, mewn undod a heddwch,
gyhoeddi’r un gwirionedd
dilyn yr un Arglwydd,
dy Fab a’n Gwaredwr Iesu Grist
sy’n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**21 Ionawr: Agnes (304), Gwyryf a Merthyr**

**150 Colect**

Dduw tragwyddol, Bugail dy ddefaid,
dy blentyn, Agnes, a nerthwyd i dystiolaethu
yn ei bywyd ac yn ei marwolaeth
i wir gariad ei Gwaredwr:
caniatâ i ninnau y gallu i amgyffred, ynghyd â'r holl saint,
beth yw lled a hyd ac uchder a dyfnder cariad Crist,
a gwybod am y cariad hwnnw sydd uwchlaw gwybodaeth;
sef Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**23 Ionawr: Ffransis de Sales (1622) , Esgob**

**151 Colect**

Dduw sanctaidd,
a elwaist dy esgob Ffransis
i ddwyn llawer at Grist trwy ei fywyd defosiynol
ac i adnewyddu dy Eglwys gydag amynedd a dealltwriaeth:
caniatâ y medrwn ninnau, ar air ac ar weithred,
arddangos dy addfwynder a'th gariad i bawb a gyfarfyddwn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**24 Ionawr: Cadog (6ed ganrif), Abad**

**152 Colect**

Hollalluog Dduw,
a elwaist Cadog i gyhoeddi'r efengyl i'r genedl hon:
dyro i ni, dy wasanaethyddion, y fath ffydd a grym cariad
fel y cawn elwa ar ei esiampl wrth i ni ymlawenhau yn ei fuddugoliaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**25 Ionawr : Troedigaeth Paul, Apostol**

**153 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, sydd trwy bregethu'r Apostol gwynfydedig Paul wedi peri i oleuni'r Efengyl dywynnu trwy'r holl fyd: caniatâ i ni, wrth goffau ei droedigaeth ryfeddol, ddangos ein diolchgarwch i ti am hyn trwy ddilyn yr athrawiaeth sanctaidd a ddysgwyd ganddo; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
a barodd i oleuni'r efengyl
lewyrchu trwy'r holl fyd
trwy bregethu dy was Sant Paul,
caniatâ i ni sy'n dathlu ei dröedigaeth ryfeddol
ei ganlyn trwy dystiolaethu i'th wirionedd
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas.*

**Ionawr 26: Timotheus a Titus, Cymdeithion Paul**

**154  Colect**

Dad nefol,
rhoddaist dy weision Timotheus a Titus
i fod yn gymdeithion i'th apostol Paul,
ac i rannu gydag ef ym mhregethu'r efengyl
ac adeiladu'r Eglwys:
trwy ein cymdeithas yn yr Ysbryd Glân
caniatâ i ni dystiolaethu i enw Iesu,
sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn Dduw yn dragywydd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr neu Genhadaeth yn addas.*

**27 Ionawr: Ioan Chrysostom (407) , Esgob a Dysgawdwr**

**155  Colect**

Dduw gwirionedd a chariad,
a roddaist i'th was Ioan Chrysostom
huodledd i gyhoeddi dy gyfiawnder yn y gynulleidfa fawr
a'r dewrder i ddioddef gwaradwydd er anrhydedd i'th enw:
caniatâ yn rasol i'r rhai sydd yn cyhoeddi dy air
fedru pregethu mor huawdl
fel y gall pawb gyfranogi gyda hwy
yn y gogoniant a ddatguddir
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg yn addas*

**28 Ionawr: Thomas o Acwin (1274), Dysgawdwr**

**156 Colect**

Dduw tragwyddol,
a gyfoethogaist dy Eglwys
trwy ddysg a sancteiddrwydd Thomas dy was:
dyro i bawb sydd yn dy geisio di
feddwl gostyngedig a chalon bur,
fel yr adnabyddont dy Fab Iesu Grist
fel y Ffordd, y Gwirionedd a’r Bywyd;
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**1 Chwefror: Ffraid (6ed ganrif), Abades**

**157 Colect**

Dduw hollalluog,
a enynnaist yng nghalon Ffraid
fflam fywiol dy gariad:
cynnau farwor oer ein calonnau ninnau
ac arwain ni at ffynhonnau’r bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i’r hwn gyda thi a’r Ysbryd Glân
y byddo’r anrhydedd a’r gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abades yn addas*

**2 Chwefror: Cyflwyniad Crist yn y Deml**

*Gweler Suliau a Gwyliau*

**3 Chwefror: Saint, Merthyron a Chenhadon Ewrop**

**158  Colect**

Hollalluog Dduw,
yr wyt yn galw dy dystion o bob cenedl
gan ddatguddio dy ogoniant yn eu bywydau:
gwna ni'n ddiolchgar am esiampl
y merthyron, y cenhadon a saint y cyfandir hwn,
a chryfhâ ni trwy eu cymdeithas
fel y bydd i ni, fel hwythau, fod yn ffyddlon
yng ngwasanaeth dy deyrnas;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer  Cenhadwr yn addas*

**Neu Seiriol (6ed ganrif), Abad**

**159  Colect**

Hollalluog Dduw,
trwy dy ras taniwyd Seiriol
â fflam sanctaidd dy gariad
a daeth yn oleuni i losgi'n llachar yn dy Eglwys:
cynnau ynom ninnau yr un ysbryd
o ddisgyblaeth a chariad,
fel y cerddom o'th flaen
fel plant y goleuni;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadaeth yn addas*

**4 Chwefror: Manche Masemola (1928), Merthyr**

**160 Colect**

Dad nefol,
y bedyddiwyd dy blentyn Manche [Masemola]
yn ei gwaed ei hun
fel disgybl i'th Fab ein Gwaredwr Iesu Grist:
dyro inni'r fath ymddiriedaeth ynddo ef
fel y bydd i'n bywydau adlewyrchu ei gariad di-ffael;
trwyddo ef sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**9 Chwefror: Teilo (6ed ganrif), Esgob**

**161 Colect**

Dad pawb oll,
codaist ym mhob cenhedlaeth wŷr a gwragedd
i fod yn llusernau dy gariad
yng nghanol stormydd a pheryglon bywyd:
caniatâ i ninnau sydd yn parchu coffadwriaeth dy was Teilo
dystio fel y gwnaeth ef i'th ofal tadol di;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**14 Chwefror: Cyril (869), Mynach a Chenhadwr, a Methodius (885), Esgob a Chenhadwr**

**162 Colect**

Dduw a Thad pawb oll,
a roddaist i'th weision Cyril a Methodius
y fath ddawn gydag ieithoedd
fel y gallent gyhoeddi'r Efengyl i'r bobl Slafonig:
caniatâ i bawb sy'n proffesu enw Crist
anrhydeddu ei gilydd
ac o'r dwyrain a'r gorllewin uno i gyhoeddi
un Arglwydd, un ffydd, un bedydd;
trwy'r un Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

**18 Chwefror: Ioan o Fiesole (Fra Angelico) (1455), Offeiriad ac Arlunydd ac Andrei Rublev (c 1430), Mynach ac Arlunydd**

**163 Colect**

Dad Grasol
a roddaist inni
yn nirgelwch y Gair a wnaed yn gnawd
weledigaeth newydd a disglair o'th ysblander:
caniatâ i ni, gan ddilyn esiampl John ac Andrei
allu dirnad dy brydferthwch ynddo ef
fel y gallwn gyfeirio eraill yma ar y ddaear
at y pethau hynny sydd y tu hwnt i'r dychymyg;
gofynnwn hyn trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

## 19 Chwefror: Thomas Burgess (1837), Esgob a Dysgawdwr

### 164 Colect

Dad hollalluog,
y rhoes dy Fab orchymyn i ni i ddeisyf arnat
anfon gweithwyr i'r cynhaeaf:
caniatâ, gan ddilyn esiampl dy was Thomas,
y bydd i ninnau gyfrannu o'n heiddo
tuag at hyfforddi'r rhai a fydd yn gweinidogaethu
yn enw yr hwn
gyda thi a'r Ysbryd Glân
sydd yn byw ac yn teyrnasu byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

## 20 Chwefror: Saint, Merthyron a Chenhadon Affrica

### 165 Colect

Dduw yr holl genhedloedd,
gelwaist o blith pobl Affrica
saint, merthyron a chenhadon
a fu'n ffyddlon wrth dystiolaethu i'r gwirionedd:
trwy wasanaeth ac aberth
caniatâ i ni fod yn barod i fyw ac i farw
mewn cariad gwastadol at dy holl blant;
er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

**23 Chwefror: Polycarp (c 155), Esgob a Merthyr**

**166  Colect**

Dduw hollalluog,
a roddaist i'th was Polycarp
y dewrder i gyffesu enw'r Gwaredwr
ac yn ei henaint i farw fel merthyr:
caniatâ  y byddwn ninnau'n barod i roi cyfrif am y gobaith sydd ynom
ac i ddioddef yn llawen er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**27 Chwefror: George Herbert (1633), Offeiriad a phob Bugail**

**167  Colect**

Frenin y gogoniant, Brenin tangnefedd,
a elwaist dy was George Herbert
o chwenychu anrhydeddau bydol
i fod yn offeiriad yn nheml ei Dduw a'i Frenin:
caniatâ i ninnau'r gras i offrymu ein hunain
i'th wasanaeth di â chalon unplyg ac ufudd-dod gostyngedig;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bugail yn addas*

**1 Mawrth: Dewi (6ed ganrif), Esgob, Nawddsant Cymru**

**168 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a elwaist dy was Dewi, yn dy gariad at dy bobl, i fod yn oruchwyliwr ffyddlon a doeth ar dy ddirgeleddau: yn drugarog caniatâ fod i ni, gan ddilyn purdeb ei fuchedd a'i sêl dros holl Efengyl Crist, dderbyn gydag ef dy wobr nefol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob anrhydedd a gogoniant, byth bythoedd.

*Cyfoes*
Dduw ein Tad,
rhoddaist Dewi Sant i bobl Cymru,
i gynnal y ffydd.
Wedi ein hannog gan ei esiampl,
bydded i ni lynu'n llawen wrth y pethau
sy'n arwain at fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

**169 Ôl Gymun**

Hollalluog Dduw
deffra ynom sêl dy was Dewi
fel y dilynom di ag unplygrwydd calon,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**5 Mawrth: Non (5ed ganrif), Mam Dewi Sant**

**170 Colect**

Dduw ein Tad,
a ymddiriedaist dy unig genedledig Fab
i ofal mam ddaearol
fel y cyfarwyddai ei gamau cyntaf ar hyd llwybrau ffydd a chariad;
caniatâ y byddwn ninnau sydd yn parchu mam ein nawddsant Dewi
yn gweithio i godi cenhedlaeth newydd i barchu a charu dy enw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Sant Cymreig yn addas*

**7 Mawrth: Perpetwa, Ffelicitas a'u Cymdeithion (203), Merthyron**

**171 Colect**

Dduw sanctaidd,
a roddaist ddewrder mawr i Perpetwa, Ffelicitas a'u cymdeithion:
caniatâ y byddwn ninnau'n deilwng i ddringo ysgol aberth
a chael ein derbyn i mewn i ardd tangnefedd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**17 Mawrth: Padrig (5ed ganrif), Esgob, Nawddsant Iwerddon.**

**172 Colect**

Hollalluog Dduw,
yn dy ragluniaeth dewisaist
dy was Padrig
i fod yn apostol i bobl Iwerddon,
i fedyddio'r rhai
oedd yn crwydro mewn tywyllwch
ac ar gyfeiliorn
a'u dwyn at y gwir oleuni
a gwybodaeth o'th air:
cadw ni yn y goleuni hwnnw
a dwg ni i'r bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

**18 Mawrth: Cyril o Jerwsalem (386), Esgob**

**173 Colect**

Dduw hollalluog,
a ysbrydolaist dy esgob Cyril
i arwain llawer at fedyddfaen y bedydd,
i farw yno yng Nghrist a chael eu geni o'r newydd ynddo ef:
caniatâ i bawb a fedyddir (y Pasg hwn)
y gras i droi oddi wrth ddrygioni
a phroffesu yn eofn eu ffydd yn Iesu Grist,
dy Fab, ein Harglwydd,
yr hwn trwy rym yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**19 Mawrth: Joseff o Nasareth**

**174 Colect**

*Llyfr Gweddi*
O Dduw, a ddewisaist Joseff i fod yn briod i'r Forwyn Fair ac yn Warcheidwad dy unig-anedig Fab: caniatâ i ni yn nheulu dy Eglwys sanctaidd fod wedi ein huno'n wastadol i'th Fab, Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Dduw ein Tad,
dyrchefaist Joseff y saer
o deulu Dafydd dy was
i ofalu am dy Fab ymgnawdoledig
ac yn ŵr i Fair Forwyn fendigaid:
dyro i ni ras i'w ddilyn ef
mewn ufudd-dod ffyddlon i'th orchmynion
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Defnyddier Colect am Sant (wedi ei dalfyru'n addas) fel Gweddi Ôl Gymun*

**21 Mawrth: Thomas Cranmer (1566), Hugh Latimer, Nicholas Ridley (1555) a Robert Ferrar (1555), Esgobion, Athrawon a Merthyron**

**175 Colect**

Dad yr holl drugareddau,
a adnewyddaist addoliad a dysgeidiaeth dy Eglwys
trwy waith dy weision
Thomas, Hugh, Nicholas a Robert,
a thrwy eu marwolaeth
a oleuaist gannwyll y gobeithiwn nas diffoddir mohoni byth:
nertha ninnau trwy dy ras i'th addoli di
mewn ysbryd a gwirionedd,
ac felly ddod i lawenydd dy deyrnas dragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Cyfryngwr a'n Heiriolwr,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Colect ar gyfer Seintiau a Merthyron o Gyfnod y Diwygiad Protestannaidd (talfyredig) yn addas i'w ddefnyddio fel Gweddi Ôl Gymun (Hydref 31)*

**24 Mawrth: Oscar Romero (1980), Esgob a Merthyr**

**176 Colect**

Hollalluog Dduw,
dy was Oscar (Romero)
a fu'n broffwyd i ddyfodol nid o'n heiddo ein hunain:
dyro ras i ni weddïo a gweithio
dros y Deyrnas sydd y tu hwnt i ni,
hyd y dydd pan welwn di wyneb yn wyneb
yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

## 25 Mawrth: Cyhoeddi ein Harglwydd i Fair Forwyn Fendigaid

### 177 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, erfyniwn arnat dywallt dy ras yn ein calonnau, fel, megis y bu i ni wybod am ymgnawdoliad dy Fab trwy genadwri angel, fod inni trwy ei groes a'i ddioddefaint gael ein dwyn i ogoniant ei atgyfodiad; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Erfyniwn arnat, O Arglwydd,
dywallt dy ras yn ein calonnau
fel, megis y bu i ni wybod am ymgnawdoliad
dy Fab Iesu Grist
trwy neges angel,
y bydd i ni trwy ei groes a'i ddioddefaint
gael ein dwyn
i ogoniant ei atgyfodiad
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Adfent 5 yn addas*

## 29 Mawrth: Gwynllyw (6ed ganrif), Brenin

### 178 Colect

Frenin y brenhinoedd ac Arglwydd yr arglwyddi,
oddi wrthyt y mae pob awdurdod ar y ddaear yn cymryd ei enw:
caniatâ i ni sydd yn parchu coffadwriaeth dy was Gwynllyw
dderbyn coron o ogoniant na fydd yn pylu;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Sant Cymreig yn addas*

## 7 Ebrill: Brynach (5ed ganrif) , Abad

### 179 Colect

Hollalluog a bythfywiol Dduw,
a elwaist Brynach Wyddel
i fyw bywyd o bererindod,
a dwyn yr Efengyl i bobl Cymru:
caniatâ i ni, dy bererinion di,
ras i wybod nad oes inni ddinas barhaus ar y ddaear
ond bod gennym gartref tragwyddol yn y nef;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy rym yr Ysbryd Glân
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

## 8 Ebrill: Griffith Jones (1761), Offeiriad ac Athro

### 180 Colect

Hollalluog Dduw,
a ysbrydolaist dy was Griffith
i hyrwyddo gwybodaeth am y ffydd Gristnogol
a thrwy ei bregethu i ddwyn eraill atat ti:
caniatâ y byddwn ninnau, a hyfforddwyd yn y ffydd a ddysgodd ef,
yn llafurio i ddwyn eraill at Grist,
yr hwn trwy rym yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad, byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Offeiriad yn addas*

**9 Ebrill: Saint, Merthyron a Chenhadon De America**

**181 Colect**

Hollalluog Dduw,
molwn a bendithiwn dy enw
am seintiau, cenhadon a merthyron De America:
boed i ni, mewn bywyd a marwolaeth,
fod yn gymuned cariad
wedi ein huno mewn gweddi a ffydd ag ef
a fu farw ac a gyfododd drachefn,
dy Fab a'n Harglwydd Iesu Grist,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fyw gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
yn oes oesoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

***Neu* Dietrich Bonhoeffer (1945), Bugail, Athro a Merthyr**

**182 Colect**

Arglwydd Iesu Grist,
dy was Dietrich (Bonhoeffer)
a ddysgodd gost disgyblaeth
trwy dystio'n ffyddlon i gyfiawnder a heddwch:
dyro i ninnau yr un sicrwydd o'th bresenoldeb
fel y dyfalbarhawn hyd at farwolaeth:
oherwydd yr wyt yn fyw ac yn teyrnasu gyda'r Tad
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

## 11 Ebrill: George Augustus Selwyn (1878), Esgob a Chenhadwr

### 183 Colect

Iesu, Dduw ymgnawdoledig,
sy'n newyddion da i bawb sydd â chlustiau i wrando a llygaid i weld:
diolchwn i ti am George
ac am bawb sydd yn dwyn yr efengyl i Seland Newydd a Melanesia:
cyfod yn y wlad hon ac ym mhob man
genhadon ac efengylwyr dy deyrnas,
a phrysura'r dydd
pan lenwir y ddaear â'th ogoniant di;
oherwydd gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân
yr wyt ti yn byw ac yn teyrnasu
yn Dduw am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

## 15 Ebrill: Padarn (6ed ganrif), Esgob

### 184 Colect

Dduw hollalluog,
a ganiateaist i Badarn ffon awdurdod bugeiliol
a'i alw i lywodraethu'r Eglwys yn ein gwlad:
caniatâ i'w ddilynwyr yn ei swydd
y gras i fod yn fugeiliaid ffyddlon i'th braidd,
gan iacháu clwyfau'r rhai a ymddiriedwyd i'w gofal;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy rym yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**20 Ebrill: Beuno (c640), Abad**

**185 Colect**

Dduw hollalluog,
a adewaist gynifer o olion dy ddaioni ar y wlad hon
trwy fywyd a gweinidogaeth Beuno:
caniatâ y cawn ninnau sy'n rhannu ei famwlad ar y ddaear
breswylio gydag ef yn y drigfan nefol honno
yr wyt ti yn dy ddaioni
wedi ei pharatoi ar gyfer y rhai sydd yn dy garu di;
er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy rym yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**21 Ebrill: Anselm (1109), Esgob a Dysgawdwr**

**186 Colect**

Dduw tragwyddol, a roddaist ddoniau mawr i'th was Anselm
fel bugail ac athro:
caniatâ y gwnawn ni, fel ef, ddyheu amdanat ti â'n holl galon
ac wrth ddyheu, dy geisio di,
ac wrth geisio, dy gael di;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Athro yn addas*

**23 Ebrill: Siôr (304), Merthyr, Nawddsant Lloegr**

**187 Colect**

Dduw'r lluoedd,
a gyneuaist fflam y ffydd
yng nghalon dy was Siôr
fel y tystiodd i'r Arglwydd atgyfodedig
trwy ei fywyd a'i farwolaeth:
dyro i ninnau yr un ffydd a'r un grym cariad
fel y cawn ni sydd yn llawenhau yn ei oruchafiaeth
rannu gydag ef yng nghyflawnder yr atgyfodiad;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**25 Ebrill: Marc, Efengylydd**

**188 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a ddysgaist dy Eglwys sanctaidd ag athrawiaeth nefol dy Efengylwr Marc: dyro inni ras, fel na byddwn fel plant yn cael ein cylch-arwain gan bob awel o wag athrawiaeth, eithr ein sefydlu yng ngwirionedd dy lân Efengyl; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a oleuaist dy Eglwys sanctaidd
trwy dystiolaeth ysbrydoledig dy efengylydd Sant Marc:
caniatâ i ni, wedi ein sefydlu yn ddiysgog yng ngwirionedd yr efengyl,
fod yn ffyddlon i'w dysgeidiaeth
mewn gair a gweithred;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fyw gyda thi, ei Dduw a'i Dad,
yn oes oesoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun am y Sul Olaf wedi'r Pentecost yn addas*

**29 Ebrill: Catrin o Siena (1380), Llenor**

**189 Colect**

Dduw tosturi
a roddaist i'th wasanaethferch Catrin o Siena
gariad rhyfeddol at ddioddefaint Crist:
caniatâ yr unir dy bobl ag ef yn ei fawrhydi
a llawenhau am byth yn y datguddiad o'i ogoniant;
yr hwn sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bardd neu Unrhyw Sant yn addas*

**1 Mai: Philip ac Iago, Apostolion**

**190 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, sydd a'th wir adnabod yn fywyd tragwyddol: caniatâ i ni adnabod dy Fab Iesu Grist yn berffaith fel y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd; fel, wrth ddilyn yn llwybrau dy Apostolion sanctaidd Philip ac lago, y bo i ni rodio'n ddiysgog yn y ffordd sy'n arwain i fywyd tragwyddol; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dad,
sydd â'th wir adnabod yn fywyd tragwyddol:
dysg i ni adnabod dy Fab Iesu Grist
fel y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd,
fel y gallwn ddilyn camau
dy apostolion sanctaidd, Philip ac Iago,
a cherdded yn ddiysgog
yn y ffordd sy'n arwain i'th ogoniant
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fyw gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
yn oes oesoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas.*

**2 Mai: Athanasius (373) , Esgob a Dysgawdwr**

**191 Colect**

Bythfywiol Dduw,
dy was Athanasius
a dystiodd i ddirgelwch y Gair a ddaeth yn gnawd er ein hiachawdwriaeth:
helpa ni, gyda'th holl saint,
i frwydro dros y gwirionedd
ac i ymdebygu i'th Fab
Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**3 Mai: Henry Vaughan (1695), Bardd**

**192 Colect**

Dad y goleuni,
ynot y mae tywyllwch dwfn ond llachar:
tywys ni atat dy hun,
a chaniatâ i ni, gan ddilyn esiampl dy was Henry,
wylio yn yr hwyr, am hanner nos,
ar ganiad y ceiliog, pan dyr y wawr,
hyd nes y daw'r dydd mawr pan welwn
dragwyddoldeb yn wyneb y Priodfab,
Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bardd yn addas.*

## 5 Mai: Asaff (6ed ganrif), Esgob

### 193  Colect

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
a elwaist Asaff i fod yn esgob yn dy Eglwys
ac i gyhoeddi'r efengyl i'r genedl hon:
dyro i ni, dy weision, y fath ffydd a grym cariad,
fel, wrth i ni lawenhau yn ei oruchafiaeth,
y byddwn yn elwa ar ei esiampl;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd Glân
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad, byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

## 8 Mai: Julian o Norwich (c 1417), Llenor Ysbrydol

### 195  Colect

Sancteiddiaf  Dduw, sylfaen ein hymbil,
a ddatgelaist ryfeddodau dy gariad
trwy dy wasanaethferch Julian:
caniatâ, fel y'n creaist ni yn dy natur ac a'n hadferaist trwy dy ras,
yr unir ein hewyllys ni â'th ewyllys di,
fel y cawn dy weld di wyneb yn wyneb
a syllu arnat am byth;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer unrhyw sant yn addas*

**9 Mai: Gregor o Nazianzus (390), Esgob**

**195 Colect**

Dduw Hollalluog, cefnfor diderfyn bodolaeth,
er mwyn ein hiacháu ni,
ni wrthododd dy Fab gymryd ein natur feidrol ni:
caniatâ na fyddwn ni, fel Gregor,
fyth yn peidio â rhyfeddu at wyrth ein hiachawdwriaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**14 Mai: Mathias, Apostol**

**196 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a ddewisaist dy was ffyddlon Mathias i fod o nifer y deuddeg Apostol: caniatâ i'th Eglwys, gan ei diogelu'n wastad rhag pob gau apostolion, gael ei threfnu a'i llywio gan fugeiliaid ffyddlon a da; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a ddewisaist dy was ffyddlon Mathias
i fod o nifer y Deuddeg yn lle Jwdas y bradwr,
diogela dy Eglwys rhag gau apostolion
a thrwy weinidogaeth bugeiliaid ac athrawon ffyddlon
cadw ni yn ddiysgog yn dy wirionedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fyw gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
yn oes oesoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**15 Mai: Edmwnd Prys (1624), Offeiriad, Bardd a Chyfieithydd a John Davies (1644), Offeiriad a Chyfieithydd**

**197 Colect**

O Dduw, a greaist nefoedd a daear trwy dy air
ac a ysbrydolaist dy weision Edmwnd a John
i ddatgelu'r gair hwnnw i'th bobl:
cadw ni rhag pob drygioni
a chaniatâ y byddwn yn cael yn yr Ysgrythur
gymorth hawdd i'w gael mewn cyfyngder;
trwy'r un Iesu Grist, dy Air, ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad, byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cyfieithydd yn addas*

**19 Mai: Dunstan (988), Esgob**

**198 Colect**

Hollalluog Dduw,
a gyfodaist Dunstan i fod yn wir fugail i'r praidd,
i adfer y bywyd mynachaidd
ac i fod yn gynghorwr ffyddlon i'r rhai mewn awdurdod:
dyro i bob gweinidog ddoniau cyffelyb dy Ysbryd Glân
fel y byddont yn wir wasanaethyddion Crist
a'i holl bobl;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
yr hwn sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr un Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**20 Mai: Siad (672) , Esgob**

**199 Colect**

Hollalluog Dduw,
o fysg blaenffrwyth y genedl Seisnig a droes at Grist
y gelwaist dy was Siad
i fod yn efengylydd ac yn esgob i'w bobl ei hun:
dyro i ni ras i ddilyn ei natur heddychlon,
ei ysbryd gostyngedig a'i fywyd gweddigar,
fel y gallwn gymeradwyo i eraill
y ffydd a broffeswn ninnau;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**24 Mai: Charles Wesley (1788) a John Wesley (1781) ,**
**Offeiriaid a Chenhadon**

**200 Colect**

Dduw trugaredd,
a ysbrydolaist Charles a John â sêl dros dy efengyl:
dyro i'th holl bobl ddewrder i gyhoeddi dy air
a chalon lawen i ganu dy glodydd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

**25 Mai: Beda (735), Dysgawdwr**

**201 Colect**

Dduw ein Crëwr
Iesu Grist, dy Fab, a roes i'th was Beda
ras i ddrachtio'n llawen o'r Gair sy'n ein harwain i'th adnabod ac i'th garu di:
yn dy ddaioni
caniatâ y cawn ninnau ymhen y rhawg ddod atat ti,
ffynhonnell pob doethineb,
a sefyll ger dy fron;
trwy'r un Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**26 Mai: Awstin o Gaer-gaint (605), Esgob**

**202 Colect**

Hollalluog Dduw,
dy was Awstin, a anfonwyd i fod yn apostol ymhlith pobl Lloegr:
caniatâ, fel y llafuriodd ef yn yr Ysbryd
i bregethu efengyl Crist
fod pawb a glywo'r newyddion da
yn ymdrechu i gyhoeddi dy wirionedd ledled y byd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr un Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**28 Mai: Melangell (6ed ganrif), Abades**

**203 Colect**

Dduw ein nerth,
amddiffynnydd y gwan,
ynot ti y caiff pechaduriaid loches:
caniatâ i ni sy'n parchu coffadwriaeth Melangell
bregethu efengyl maddeuant
a dod yn bobl y gall eraill ymddiried ynddynt;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
yr hwn trwy'r Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
yn oes oesoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abades yn addas*

**31 Mai: Ymweliad Mair Forwyn Fendigaid ag Elisabeth**

**205 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, a arweiniaist y Forwyn Fair Fendigaid i ymweld ag Elisabeth er mawr lawenydd a diddanwch iddynt: caniatâ, megis y bu lawen gan Fair gael ei galw'n Fam i'r Arglwydd, fod i ninnau ymlawenhau'n wastad yn ymgnawdoliad dy unig Fab, y bo iddo ef gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, bob anrhydedd a gogoniant, byth ac yn dragywydd.

*Cyfoes*
Dduw cadarn,
trwy dy ras llawenychodd Elisabeth gyda Mair,
a'i chyfarch yn fam yr Arglwydd:
edrych â ffafr ar dy weision gostyngedig
fel, gyda Mair, y mawrhawn dy enw sanctaidd
a llawenhau wrth glodfori ei Mab ein Hiachawdwr,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Adfent 4 yn addas*

**1 Mehefin: Iestyn (c 165), Amddiffynnydd a Merthyr**

**205 Colect**

Dduw ein Gwaredwr,
trwy ffolineb y groes
dysgaist i'th ferthyr Iestyn y wybodaeth am Iesu Grist, sydd uwchlaw pob deall:
gwared ni rhag cael ein chwythu ar gyfeiliorn
fel y byddwn, fel ef, wedi'n gwreiddio'n gadarn yn y ffydd,
ac yn gwneud dy enw'n hysbys i'r holl bobl;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**2 Mehefin: Blandina a'i Chymdeithion (177), Merthyron**

**206 Colect**

Dduw hollalluog,
a nerthaist Blandina a'i chymdeithion
yng nghanol cynifer o ddioddefiadau mawr:
caniatâ, gan ddilyn eu hesiampl,
y gallwn ni oll fod yn wir Gristnogion,
sy'n gwrthod caniatáu i unrhyw beth ffiaidd gael ei gyflawni yn ein plith;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo pob anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**3 Mehefin: James Hannington (1885), Esgob, Cenhadwr a Merthyr, Merthyron Uganda (1886) a Janani Luwum (1977), Esgob a Merthyr**

**207 Colect**

Dduw'r gwirionedd,
dy weision, James, Janani a merthyron Uganda a gerddodd yn y goleuni,
ac yn eu marwolaeth a heriodd alluoedd y tywyllwch:
gwared ni rhag ofni'r sawl sy'n lladd y corff,
fel y cawn ninnau rodio fel plant y goleuni;
trwy yr hwn a oresgynnodd y tywyllwch trwy rym y groes,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

**5 Mehefin: Boniffas (754), Cenhadwr a Merthyr**

**208 Colect**

Dduw ein Gwaredwr,
a elwaist dy was Boniffas
i bregethu'r efengyl ymhlith pobl yr Almaen
ac i adeiladu dy eglwys mewn sancteiddrwydd:
caniatâ y cawn ninnau gadw yn ein calonnau
y ffydd honno a ddysgodd trwy ei eiriau ac a seliodd â'i waed,
a'i chyffesu mewn bywydau a gysegrwyd i'th Fab,
Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**9 Mehefin: Columba (597), Abad**

**209 Colect**

Dduw hollalluog,
a lenwaist galon Columba â llawenydd yr Ysbryd Glân
ac â chariad mawr tuag at y rhai a oedd yn ei ofal:
bydded i ni, dy bererinion di, ei ddilyn ef,
wedi ein hatgyfnerthu mewn ffydd, wedi ein cynnal mewn gobaith,
ac wedi ein huno yn y cariad sydd yn ein clymu wrthyt ti;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**10 Mehefin: Effrem y Syriad (373), Diacon, Emynydd ac Athro**

**210 Colect**

Arglwydd Dduw,
diolchwn i ti am dy was Effrem;
agor ein meddyliau i oleuni dy wirionedd,
fel y gall dirgelwch ymagor o'n blaen ni,
y gall gwybodaeth dywynnu o'n hamgylch ni
a dealltwriaeth dyfu o'n mewn
yn Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bardd yn addas*

**11 Mehefin: Barnabas, Apostol**

**212 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd Dduw hollalluog, a gynysgaeddaist dy sanctaidd Apostol Barnabas â rhagorol roddion yr Ysbryd Glân: na ad inni fod yn amddifad o'th aml ddoniau, nac ychwaith o ras i'w harfer hwynt bob amser i'th anrhydedd di a'th ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
O Dduw hael, rhoddwr pob dawn,
a dywelltaist dy Ysbryd ar Barnabas dy was,
cynorthwya ni, trwy ei esiampl,
i fod yn hael ein barn
ac yn anhunanol ein gwasanaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**14 Mehefin: Basil Fawr (397), Esgob a Dysgawdwr**

**212 Colect**

O Dduw, wrth ein creu
archollaist ein calonnau â gwreichionen guddiedig dy gariad dwyfol,
a rhoddaist i'th was Basil y fath allu i hyfforddi
fel y gallai ddwyn y gwamalwyr yn ôl at dy wirionedd
heb gyfaddawdu na dwyn anfri ar yr efengyl:
caniatâ, trwy ddilyn ei esiampl,
y'n glanheir ninnau o bob drygioni
a datgan â gwir ddefosiwn:
Gogoniant i'r Tad gyda'r Mab
ynghyd â'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**16 Mehefin: Richard (1253), Esgob**

**213 Colect**

Waredwr trugarocaf,
a roddaist i'th was Richard gariad tuag at ddysg,
sêl dros eneidiau ac ymroddiad i'r tlawd:
wedi'n calonogi gan ei esiampl,
caniatâ y byddwn ninnau'n dy adnabod di'n gliriach,
yn dy garu'n anwylach
ac yn dy ddilyn yn agosach,
ddydd ar ôl dydd;
yr hwn gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân
wyt yn fyw ac yn teyrnasu
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**20 Mehefin: Alban (250), Iŵl ac Aaron (304-5), Merthyron**

**214 Colect**

Dad tragwyddol,
pan ddaeth efengyl Crist i Brydain gyntaf
cadarnheaist ffydd Alban, Iŵl ac Aaron yn ogoneddus
am mai hwy oedd y cyntaf i ennill coron merthyr:
caniatâ, trwy ddilyn eu hesiampl hwy,
yr addolwn ninnau di, y Duw byw, yng nghymdeithas y saint,
a thystio'n gywir i Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
yr hwn trwy rym yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**24 Mehefin: Genedigaeth Ioan Fedyddiwr**

**215 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, y ganwyd dy was loan Fedyddiwr yn rhyfeddol yn dy ragluniaeth, a'i anfon i baratoi ffordd dy Fab Iesu Grist ein Gwaredwr trwy bregethu edifeirwch: gwna inni ganlyn ei athrawiaeth a'i fuchedd sanctaidd fel y bo inni wir edifarhau yn ôl ei bregethu, a dilyn ei esiampl trwy ddweud y gwir yn gyson, ceryddu drygioni'n eofn, a dioddef yn amyneddgar er mwyn y gwirionedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
y ganwyd dy was Ioan Fedyddiwr
yn rhyfeddol drwy dy ragluniaeth,
a'i anfon i baratoi ffordd dy Fab ein Gwaredwr
trwy bregethu edifeirwch,
tywys ni i edifarhau yn ôl ei bregethu,
a chan ddilyn ei esiampl
i ddweud y gwir yn gyson,
i geryddu drygioni yn eofn
ac i ddioddef yn amyneddgar er mwyn y gwirionedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Colect (talfyredig) ar gyfer Adfent 3 yn addas fel Gweddi Ôl Gymun*

**28 Mehefin: Irenaeus (c 200), Esgob a Dysgawdwr**

**216 Colect**

Dduw'r tangnefedd,
trwy weinidogaeth dy was Irenaeus,
a gadarnheaist y wir ffydd a dwyn cytgord i'th Eglwys:
cadw ni'n ddiysgog yn dy wir grefydd,
ac adnewydda ni mewn ffydd a chariad,
fel y rhodiwn bob amser yn y ffordd sy'n arwain i fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**29 Mehefin: Pedr yr Apostol**

**218 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a ysbrydolaist dy sanctaidd Apostol Pedr i gyffesu Iesu yn Grist ac yn Fab y Duw byw: adeilada dy Eglwys ar y graig hon, fel y gall mewn undod a heddwch gyhoeddi un gwirionedd a dilyn un Arglwydd, dy Fab di a'n Gwaredwr ni, Iesu Grist, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân byth yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
a ysbrydolaist dy apostol Pedr
i gyffesu Iesu yn Feseia ac yn Fab y Duw byw;
adeilada dy Eglwys ar y graig hon,
fel y gall, mewn undod a heddwch,
gyhoeddi un gwirionedd
a dilyn un Arglwydd,
dy Fab ein Gwaredwr Crist
sy'n fyw, ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

***Neu* Pedr a Paul, Apostolion**

**218 Colect**

Hollalluog Dduw
y bu i'th apostolion gwynfydedig Pedr a Paul
dy ogoneddu yn eu marwolaeth fel yn eu bywydau,
caniatâ i'th Eglwys,
wedi ei hysbrydoli gan eu hathrawiaeth a'u hesiampl
a'i gwneud yn un gan dy Ysbryd,
sefyll byth yn gadarn ar yr un sylfaen,
Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**30 Mehefin: Merthyrdod Paul, Apostol**

**219 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a roddaist i'th ferthyr gwynfydedig Paul ras a gallu i oresgyn dioddefaint ac i fod yn ffyddlon hyd angau: erfyniwn arnat ein nerthu ninnau â'th ras, fel y gorffennwn ein gyrfa mewn ffydd, a derbyn gydag ef goron y bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
Paul dy apostol bendigaid a ymdrechodd ymdrech deg,
a orffennodd y ras ac a dderbyniodd y goron:
caniatâ i ninnau gadw'r ffydd a ddysgodd,
a derbyn gydag ef y bywyd tragwyddol yn rhodd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

## 1 Gorffennaf: Euddogwy (6ed ganrif), Esgob

### 220 Colect

Hollalluog a bythfywiol Dduw,
a elwaist Euddogwy i fod yn esgob yn dy Eglwys
ac i gyhoeddi'r efengyl:
dyro i ninnau, dy weision, y fath ffydd a grym cariad,
fel y cawn elwa ar ei esiampl wrth i ni ymlawenhau yn ei fuddugoliaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

## 3 Gorffennaf: Thomas, Apostol

### 221 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a byth fywiol Dduw, a oddefaist i'th Apostol sanctaidd Thomas, er mwyn cadarnhau'r Ffydd, amau atgyfodiad dy Fab: caniatâ inni gredu mor berffaith a chwbl ddiamau yn dy Fab Iesu Grist, fel na cheryddir ein ffydd un amser yn dy olwg. Gwrando ni, O Arglwydd, trwy yr un Iesu Grist, y bo iddo gyda thi ar Ysbryd Glân, bob anrhydedd a gogoniant, yn awr, ac yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
goddefaist i'th apostol sanctaidd, Thomas,
amau atgyfodiad dy Fab
nes ei argyhoeddi trwy air a golwg
a hynny er cadarnhau sylfaen ein ffydd;
caniatâ i ninnau sydd heb ei weld
eto gredu, fel y cyffeswn Grist
yn Arglwydd ac yn Dduw inni, sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

## 4 Gorffennaf: Peblig (4edd ganrif), Abad

### 222 Colect

Hollalluog a bythfywiol Dduw,
a elwaist Peblig i gyhoeddi'r efengyl i'r genedl hon:
dyro i ninnau, dy weision, y fath ffydd a grym cariad,
fel y cawn elwa ar ei esiampl wrth i ni ymlawenhau yn ei fuddugoliaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

## 6 Gorffennaf: Thomas More (1535), Merthyr

### 223 Colect

Dduw trugarog,
pan oedd yr eglwys yn y wlad hon
wedi ei rhwygo gan ddifrod pechod,
ysbrydolaist Thomas i roi cydwybod o flaen anrhydedd bydol,
fel y bu farw yn was da i'r brenin, ond yn was i ti yn gyntaf:
dyro i'th eglwys y tangnefedd yr wyt ti yn ei ewyllysio,
a chaniatâ i'r rhai a wahanwyd ar y ddaear
gael cyfarfod yn llawen yn y nefoedd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**11 Gorffennaf: Bened (c 540), Abad**

**224 Colect**

Dduw tragwyddol,
a wnaethost Bened yn feistr doeth yn ysgol dy wasanaeth
ac yn arweinydd i lawer a alwyd i fyw mewn cymuned
gan ddilyn rheol Crist:
caniatâ i ninnau roi cariad o flaen popeth arall
a cheisio ffyrdd dy orchmynion yn llawen;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**14 Gorffennaf: John Keble (1886), Offeiriad ac Athro**

**225 Colect**

Dad y Gair tragwyddol,
yn dy gariad sy'n ein cwmpasu
y mae pob peth yn symud mewn trefn a thangnefedd:
fel yr addolodd dy was John Keble di yn y greadigaeth gyfan,
caniatâ i ninnau galon ostyngedig sy'n caru
dirgeleddau dy Eglwys
ac yn profi newydd-deb dy gariad bob bore;
yn Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Offeiriad yn addas*

**18 Gorffennaf: Elisabeth o Rwsia (1918), Diacones a Merthyr**

**226 Colect**

Hollalluog Dduw,
gwerthodd dy wasanaethferch Elisabeth (o Rwsia) ei heiddo,
cysegrodd ei hun i weddi ac i wasanaethu cariad a thrugaredd:
cynorthwya ninnau, trwy dy Ysbryd, i fod yn ffyddlon hyd angau;
trwy dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**19 Gorffennaf: Gregor o Nyssa (c 394), Esgob, a Macrina (c 379), Gwyryf, Athrawon**

**227 Colect**

Arglwydd tragwyddoldeb, creawdwr pob peth,
yn dy Fab, Iesu Grist agoraist i ni y ffordd i'r atgyfodiad:
bydded i ni sy'n coffáu dy wasanaethyddion Gregor a Macrina
gyrchu'n ffyddiog tuag at dy gariad diderfyn
gan ryfeddu beunydd at wyrth dy bresenoldeb yn ein plith;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Athro yn addas*

## 21 Gorffennaf: Howell Harris (1773), Pregethwr

### 228 Colect

Dduw hollalluog,
trwy dy ras y gwelodd dy was Howell
fawr ogoniant y Duw-ddyn Iesu:
caniatâ y cawn ninnau, pan ddaw ein rhawd ddaearol i ben,
groesi o farwolaeth i fywyd,
a thrigo gydag ef ar Fynydd Seion;
trwy'r un Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bugail yn addas*

## 22 Gorffennaf: Mair Magdalen

### 229 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw hollalluog, y bu i'th Fab bendigedig adfer Mair Magdalen i lawn iechyd meddwl a chorff, a'i galw i dystio i'w atgyfodiad: o'th drugaredd caniatâ ein glanhau trwy dy ras o'n holl bechodau, a'th wasanaethu di yn nerth dy Fab Iesu Grist, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
dy Fab atgyfodedig a ymddiriedodd gyntaf i Fair Magdalen
y newyddion da am ei atgyfodiad:
caniatâ y medrwn ninnau dy wasanaethu di yng ngrym yr hwn
sydd wedi esgyn atat ti,
ei Dduw a'i Dad,
Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 5 yn addas*

**25 Gorffennaf : Iago, Apostol**

**230 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Caniatâ, O Dduw trugarog, megis y bu i'th Apostol gwynfydedig lago, gan ymado â'i dad ac â'r cwbl a feddai, ufuddhau'n ebrwydd i alwad Iesu Grist a'i ddilyn ef, felly i ninnau, gan ymwrthod â holl chwantau'r byd a'r cnawd, fod yn wastad yn barod i gadw dy orchmynion sanctaidd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dduw trugarog,
y bu i'th apostol sanctaidd, Iago
gan adael ei dad a'r cyfan a feddai,
ufuddhau i alwad dy Fab Iesu Grist
a'i ddilyn, hyd angau,
cymorth ni, gan ymwrthod â deniadau twyllodrus y byd,
i fod bob amser yn barod
i ateb dy alwad yn ddi-oed:
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**26 Gorffennaf: Ann, Mam y Forwyn Fair Fendigaid**

**231 Colect**

Arglwydd Dduw Israel,
a roddaist y fath ras i Ann
fel bod Mair ei merch wedi tyfu'n ufudd i'th air,
ac wedi ei pharatoi i fod yn fam i'th Fab:
helpa ni i'n cyflwyno ein hunain ym mhob peth i'th ofal di
a chaniatâ i ni'r iachawdwriaeth a addewaist i'th bobl;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**27 Gorffennaf: Martha a Mair o Fethania**

**232 Colect**

Dduw ein Tad,
yr oedd dy Fab yn mwynhau cyfeillgarwch Martha a Mair:
bydded i ninnau ymlawenhau cymaint yn dy gariad
fel y daw'r byd i ddirnad
dyfnder dy ddoethineb,
rhyfeddod dy dosturi,
a'th allu i ddwyn bywyd o farwolaeth;
trwy haeddiannau Iesu Grist,
ein brawd a'n cyfaill,
a gyfodaist trwy rym yr Ysbryd
i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**28 Gorffennaf: Samson (5ed ganrif), Esgob**

**233 Colect**

Hollalluog Dduw
goleuni'r ffyddloniaid a bugail eneidiau,
a roddaist dy was Samson
i fod yn esgob yn dy Eglwys,
i borthi dy braidd â'th air
a'u tywys trwy esiampl dda:
dyro i ni ras i gadw ffydd yr Eglwys
ac i ddilyn llwybrau Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**29 Gorffennaf: William Wilberforce (1833), Josephine Butler (1906) a phob Diwygiwr Cymdeithasol**

**234 Colect**

Hollalluog Dduw,
a greaist bob gŵr a gwraig ar dy ddelw
ac a arweiniaist blant Israel o gaethiwed,
a'u sefydlu yn rhyddid gwlad yr addewid:
gan ddilyn ôl traed dy wasanaethyddion William a Josephine,
caniatâ i ninnau groesawu pawb sydd yn dioddef oherwydd anghyfiawnder a gormes
fel brodyr a chwiorydd hynod o annwyl yn yr Arglwydd.
Gofynnwn hyn trwy ein Gwaredwr Iesu Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân,
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Diwygiwr Cymdeithasol yn addas*

**30 Gorffennaf: Silas, Cenhadwr**

**235 Colect**

Dduw hollalluog,
trwy dy ras y gwnaed Silas yn llefarydd dros yr apostolion
wrth gyhoeddi rhyddid plant Duw:
rhyddha ninnau o garchar dyheadau pechadurus
fel y gallwn ni, fel ef, arwain eraill at Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

## 31 Gorffennaf: Joseff o Arimathea

### 236 Colect

Dduw hollalluog,
trwy dy ras y goresgynnodd dy was Joseff
ofn a phryder wrth gladdu corff ei Arglwydd:
caniatâ i ninnau gyffesu'n agored ein bod ni'n ddisgyblion
ac, fel yntau, gael ein cyfrif yn gyfiawn yn dy olwg di;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd Glân
a atgyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
byth bythoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

## 3 Awst: Garmon (5ed ganrif) , Esgob

### 237 Colect

Ffynhonnell pob daioni,
trwy dy ddawn y cyhoeddodd Garmon dy was
frenhiniaeth dy ras ym Mhrydain:
caniatâ i'th bobl dderbyn
bob amser ffrwythau dy haelioni yn ddiolchgar
nes yn y diwedd y canwn gydag ef a'r holl saint
alelwia fawr y nef;
lle gyda'th Fab a'r Ysbryd Glân
yr wyt ti yn byw ac yn teyrnasu
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**5 Awst: Oswallt (642), Brenin a Merthyr**

**238 Colect**

Arglwydd Dduw hollalluog,
a daniaist ffydd y Brenin Oswallt i’r fath raddau
fel y cododd arwydd y groes yn ei deyrnas
a throi ei bobl at oleuni Crist:
caniatâ i ninnau, wedi’n tanio gan yr un Ysbryd,
ddwyn bob amser ein croes gerbron y byd
a’n cael yn weision ffyddlon yr efengyl;
trwy’r un Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn byw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr un Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**6 Awst: Gweddnewidiad ein Harglwydd**

**239 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, a ddatguddiaist ogoniant dy unig-anedig Fab, cyn ei Ddioddefaint, pan weddnewidiwyd ef ar y mynydd sanctaidd: caniatâ’n drugarog inni’r fath weledigaeth o’i ddwyfol fawredd, fel, wedi ein puro a’n nerthu gan dy ras, y newidir ni o ogoniant i ogoniant i fod yn gyffelyb iddo ef; trwy’r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dad yn y nefoedd
y gweddnewidiwyd dy Fab Iesu Grist
mewn modd rhyfeddol ar y mynydd sanctaidd
yng ngŵydd tystion etholedig,
ac a lefarodd am yr ymadawiad a gyflawnai yn Jerwsalem;
dyro i ni nerth, gan wrando ar ei lais,
i gario ein croes mor ddiysgog yn y byd hwn
fel y gwelwn ef fel y mae yn y byd a ddaw;
lle mae’n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Wedi Ôl Gymun ar gyfer y Sul cyn y Garawys yn addas*

**8 Awst: Dominig (1221), Pregethwr**

**240 Colect**

Dduw hollalluog,
daeth dy was Dominig i ddirnad mwy a mwy am dy wirionedd
a sefydlu urdd o bregethwyr i gyhoeddi ffydd Crist:
trwy dy ras dyro i’th holl bobl gariad at dy air
a dyhead i rannu’r efengyl,
fel y gall y byd i gyd ddod i’th adnabod di
a’th Fab Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bugail yn addas*

**9 Awst: Augustine Baker (1641), Offeiriad a Mynach**

**241 Colect**

Hollalluog Dduw,
ffynhonnell pob sancteiddrwydd a doethineb,
trwy dy ras
y goresgynnodd dy was Augustine ei amheuon
a dod yn athro gweddi:
yng nghanol rhuthr ein bywyd beunyddiol,
caniatâ y gallwn ninnau ymlonyddu a dysgu mai tydi sydd Dduw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i’r hwn gyda thi a’r Ysbryd Glân y byddo’r holl anrhydedd a’r gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Offeiriad yn addas*

***Neu* Mary Sumner (1921), Sylfaenydd Undeb y Mamau**

**242 Colect**

Dduw cariadus a ffyddlon,
a elwaist Mary Sumner i ymdrechu i adnewyddu bywyd y teulu:
dyro i ninnau rodd dy Ysbryd Glân,
fel ar air, gweddi a gweithred
yr atgyfnerthir dy deulu di ac y gwasanaethir dy bobl;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Diwygiwr Cymdeithasol yn addas*

***Neu* Edith Stein (1942), Athrawes, Lleian a Merthyr**

**243 Colect**

Hollalluog Dduw,
cododd dy wasanaethyddes *Edith [Stein]/ Teresa Benedicta*
y groes yn llawen dros ei phobl:
dyro i ninnau y fath ymddiriedaeth yn dy Fab Iesu Grist
fel y byddwn yn barod i fyw a marw drosto ef,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

## 10 Awst: Lawrens (258), Diacon a Merthyr

### 244 Colect

Hollalluog Dduw,
a wnaethost Lawrens yn was cariadus i'th bobl
ac yn geidwad doeth trysorau dy eglwys:
trwy ei esiampl tania ni i garu fel y carodd ef
a cherdded yn y ffordd sy'n arwain i fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

## 11 Awst: Clêr o Assisi (1253), Cardotes

### 245 Colect

Dduw'r tangnefedd,
yn nhlodi Clêr fendigaid
rhoddaist i ni oleuni clir i lewyrchu yn nhywyllwch y byd hwn:
dyro i ni ras felly i ddilyn ôl ei thraed
fel y gallwn, yn y diwedd, lawenhau gyda hi yn dy ogoniant tragwyddol;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abades yn addas*

## 12 Awst: Ann Griffiths (1805), Bardd

### 246 Colect

Arglwydd yr holl greadigaeth,
yn enw'r hwn y mae ein nerth,
llais dy Fab a dawelodd ymchwydd tonnau'r môr:
pan fydd dilyw pechod yn bygwth ein boddi,
caniatâ i ni,
sy'n cofio'n gariadus am fywyd Ann, dy forwyn,
dy gael di yn arch gwir iachawdwriaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bardd yn addas*

## 13 Awst: Jeremy Taylor (1667), Esgob

### 247 Colect

Dduw sanctaidd a chariadus,
sy'n trigo yn y galon ddynol,
gan ein gwneud ni'n gyfranogion o'r natur ddwyfol yng Nghrist ein Harchoffeiriad mawr:
helpa ni sydd yn cofio dy was Jeremy
i ymddiried yn dy addewidion nefol
a dilyn buchedd sanctaidd sydd yn llawn rhinwedd a gwir dduwioldeb;
trwy'r un Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**14 Awst: Maximilian Kolbe (1941), Offeiriad a Merthyr**

**248  Colect**

Hollalluog Dduw,
offrymodd dy was Maximilian (Kolbe)
ei fywyd yn lle un arall
a gorchfygodd ddioddefaint a marwolaeth:
ysbrydola ninnau trwy ei esiampl
yng nghariad a thrugaredd dy Fab,
Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd Glân
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**15 Awst: Mair, Mam ein Harglwydd**

**249  Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Dad nefol, a ddewisaist y Forwyn Fair i fod yn fam dy Fab ein Harglwydd a’n Gwaredwr: caniatâ fod i ni ym mhob peth dderbyn dy ewyllys ddwyfol a Ilawenhau gyda hi yn dy iachawdwriaeth; trwy’r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
a edrychaist ar ostyngeiddrwydd
y Forwyn Fair fendigaid
a’i dewis i fod yn fam
i’th unig Fab,
caniatâ i ni a brynwyd trwy ei waed,
gael cyfran gyda hi yng ngogoniant
dy deyrnas dragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i’r hwn gyda thi a’r Ysbryd Glân,
y byddo’r holl anrhydedd a’r gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Adfent 4 yn addas*

**20 Awst: Bernard (1153), Abad**

**250 Colect**

Waredwr Trugarog,
trwy fywyd a phregethu dy was Bernard,
ailgyneuaist oleuni disglair dy Eglwys:
caniatâ i ninnau, yn ein hoes,
gael ein tanio â’r un ysbryd o ddisgyblaeth a chariad
a chadw gwyliadwriaeth ger dy fron yn wastadol fel plant y goleuni;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**23 Awst: Tudful (430), Merthyr**

**251 Colect**

Hollalluog Dduw,
trwy dy ras rhoddwyd nerth i’th wasanaethferch Tudful
i oresgyn dioddefaint ac angau.
Nertha ninnau i orffen ein gyrfa mewn ffydd,
fel y derbyniwn goron y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**24 Awst: Bartholomeus, Apostol**

**252 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, a roddaist i'th Apostol Bartholomeus ras i wir gredu ac i bregethu dy Air; erfyniwn arnat fod i'th Eglwys garu'r Gair hwnnw a gredodd ef, a'i bregethu a'i dderbyn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw
a roddaist i'th apostol Bartholomeus
ras i wir gredu
a phregethu dy air,
caniatâ i'th Eglwys
garu'r gair hwnnw a gredodd ef
ac iddi ei bregethu
a'i dderbyn yn ffyddlon;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**27 Awst: Monica (378), Mam Awstin o Hippo**

**253 Colect**

Dduw ffyddlon,
a nerthaist Monica, mam Awstin, â doethineb,
a thrwy ei dygnwch amyneddgar
a'i hanogodd ef i chwilio amdanat ti:
dyro i ninnau'r ewyllys i ddyfalbarhau mewn gweddi
fel y daw'r rhai sy'n cyfeiliorni
i gredu yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

## 28 Awst: Awstin o Hippo (430), Esgob a Dysgawdwr

### 254  Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a oleuaist dy Eglwys â dysgeidiaeth dy was Awstin: cyfoethoga hi yn wastad â'th ras nefol, a chyfod dystion ffyddlon a ddengys i bob dyn trwy eu buchedd a'u hathrawiaeth wirionedd dy iachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dduw trugarog,
datguddiaist dy hun
i'th was Awstin
fel goleuni'r meddyliau sydd yn dy adnabod di,
llawenydd y calonnau sydd yn dy garu di
a nerth yr ewyllysiau sydd yn dy wasanaethu di:
caniatâ i ni felly dy adnabod di
fel y gwir garwn di,
ac felly dy garu di
fel y gallwn dy wir wasanaethu di,
gwasanaeth yr hwn sydd yn berffaith ryddid
yn Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**29 Awst: Dienyddio Ioan Fedyddiwr**

## 255 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*

Hollalluog Dduw, a anfonaist dy was loan Fedyddiwr yn dy ragluniaeth i baratoi ffordd dy Fab ein Gwaredwr trwy bregethu edifeirwch: gwna inni ganlyn ei athrawiaeth a'i fuchedd sanctaidd, fel y bo inni wir edifarhau, yn ôl ei bregethiad, a dilyn ei esiampl trwy ddweud y gwir yn gyson, ceryddu drygioni'n eofn, a dioddef yn amyneddgar er mwyn y gwirionedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*

Dduw hollalluog,
a elwaist dy was Ioan
i fod yn rhagredegydd Crist yn ei enedigaeth a'i farwolaeth:
nertha ninnau trwy dy ras
fel y tystiwn yn eofn i'th air
a derbyn gydag ef goron y gogoniant sydd byth yn gwywo;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## 256 Ôl Gymun

Dduw ein Tad,
bu farw dy was Ioan yn ferthyr dros gyfiawnder a gwirionedd,
caniatâ i ninnau dystio yn ddewr i'th air;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**31 Awst: Aidan (651), Esgob**

**257  Colect**

Dduw tragwyddol,
a anfonaist yr esgob addfwyn Aidan
i gyhoeddi'r efengyl i bobl Northymbria:
caniatâ i ninnau fyw fel y dysgodd ef,
mewn symlrwydd, gostyngeiddrwydd a chariad at y tlodion:
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**2 Medi: Lucian Tapiedi (1942), Cenhadwr a Merthyr, a Merthyron Papua Guinea Newydd (1901 a 1942)**

**258  Colect**

Dad nefol,
offrymodd dy weision Lucian (Tapiedi) a merthyron Papua Guinea Newydd
eu bywydau yn dystiolaeth ffyddlon i gariad Crist:
cynorthwya ninnau i ymddal hyd y diwedd,
wedi'n cryfhau gan ras yr hwn a roddodd ei fywyd trosom,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

## 3 Medi: Gregori Fawr (604), Esgob a Dysgawdwr

### 259 Colect

Dad trugarog,
a ddewisaist dy esgob Gregori
yn was i weision Duw:
caniatâ i ni, fel ef,
ddyheu'n wastadol am dy wasanaethu
drwy gyhoeddi'r efengyl i'r cenhedloedd,
a llawenhau'n wastadol i ganu dy glodydd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

## 4 Medi: Cuthbert (687), Esgob

### 260 Colect

Hollalluog Dduw,
a elwaist dy was Cuthbert o ddilyn y praidd
i ddilyn dy Fab ac i fod yn fugail i'th bobl:
yn dy drugaredd, caniatâ i ni,
gan ddilyn ei esiampl,
ddod â'r colledig adref i'th gorlan;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer neu Esgob yn addas*

**8 Medi: Genedigaeth y Forwyn Fair Fendigaid**

**261 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, deisyfwn arnat ein cynysgaeddu â'th ras nefol fel, wrth dy foliannu am enedigaeth Mam dy annwyl Fab, y bo i ni ei gydnabod ef yn Iachawdwr, a chael ynddo fendith tangnefedd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Gldn bob anrhydedd a gogoniant.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a ddewisaist y Fendigaid Forwyn Fair
yn fam i'th unig Fab:
caniatâ i ni a brynwyd ynddo ef
fod, trwy dy ras, yn sanctaidd ac yn ufudd i'th air;
trwy Iesu Grist, y Gair a wnaethpwyd yn gnawd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn Dduw yn dragywydd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Adfent 4 yn addas*

**10 Medi: William Salesbury (1584), Cyfieithydd a William Morgan (1604), Esgob a Chyfieithydd**

**263 Colect**

Dduw Hollalluog,
a roddaist drwy dy Ysbryd Glân
ddyhead i'th weision Wiliam Salesbury a William Morgan
am ddwyn trysor dy air i oleuni cyffredin pob un:
trwy'r un Ysbryd,
ennyn ynom ninnau ddyhead am gyhoeddi newyddion da dy gariad achubol
yn Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
yr holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cyfieithydd yn addas*

## 11 Medi: Deiniol (6ed ganrif), Esgob

### 263  Colect

Hollalluog Dduw,
a ysbrydolaist dy esgob Deiniol
i gasglu o'i gwmpas gymuned o Gristnogion
i gyd-fyw bywyd cytun;
caniatâ i ni, sy'n anrhydeddu'r cof amdano
weithio i atgyfnerthu teulu dy Eglwys
mewn ffydd, gobaith a chariad;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
yr holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

## 13 Medi: Cyprian (258), Esgob, Dysgawdwr a Merthyr

### 264  Colect

Dduw Sanctaidd
y daethost â Cyprian at ffydd yng Nghrist,
a'i wneud yn esgob yn yr Eglwys,
a choroni ei dystiolaeth â marwolaeth merthyr:
caniatâ i ni, gan ddilyn ei esiampl,
garu'r Eglwys a'i dysgeidiaeth,
canfod dy faddeuant o fewn ei chymdeithas
fel y down i rannu'r wledd nefol a ddarperaist ar ein cyfer;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw,  yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**14 Medi: Gŵyl y Grog**

**265 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, y dyrchafwyd dy unig-anedig Fab Iesu Grist ar y Groes i dynnu pawb ato ei hun: caniatâ inni'n wastad orfoleddu yn y Groes honno, sydd inni'n arwydd ein prynedigaeth; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
gwnaethost i offeryn angau dolurus
fod i ni yn fywyd a thangnefedd
trwy ddioddefaint dy Fab gwynfydedig:
caniatâ i ni orfoleddu yng nghroes Crist
fel y bydd i ni ddioddef yn llawen er ei fwyn ef;
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Garawys 6 (Sul y Blodau) yn addas*

**16 Medi: Ninian (c 430), Esgob**

**266 Colect**

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
a elwaist dy was Ninian
i bregethu'r efengyl i bobl gogledd Prydain:
cyfod yn y wlad hon ac ym mhob gwlad
ragredegwyr ac efengylwyr dy deyrnas,
fel y bydd i'th Eglwys hysbysu cyfoeth anhraethol dy Fab
ein Gwaredwr Iesu Grist,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

## 20 Medi: Saint, Merthyron a Chenhadon Awstralasia a’r Môr Tawel

### 267 Colect

Ysbryd Duw,
cofiwn am bawb sydd wedi tystiolaethu
i enw Iesu
yn Awstralasia ac ynysoedd y Môr Tawel:
adfywia dy Eglwys â bywyd a nerth,
adnewydda ynom dy roddion o gariad a gwasanaeth
a gwna ni’n ffyddlon i’n Harglwydd a’n Gwaredwr,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yng ngogoniant y Tad,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

## 21 Medi: Mathew, Apostol ac Efengylwr

### 268 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a elwaist Mathew o’r dollfa, trwy dy Fab gwynfydedig, i fod yn Apostol ac Efengylwr: caniatâ inni ras i ymwrthod â phob chwenychiad pechadurus a thrachwant am olud bydol, ac i ddilyn yr un dy Fab Iesu Grist, sy’n byw ac yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd GIân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
O Dduw Hollalluog,
y galwodd dy Fab bendigaid
Mathew, y casglwr trethi,
i fod yn apostol ac efengylwr;
dyro i ni ras i ymwrthod â cheisio elw yn hunanol
a chariad trachwantus at gyfoeth,
fel y gallwn ddilyn yn ffordd dy Fab Iesu Grist,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a’r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer y Sul Olaf wedi’r Pentecost yn addas*

**25 Medi: Sergei o Radonezh (1392), Abad**

**269 Colect**

Hollalluog Dduw,
trwy dy ras
daeth Sergei a daniwyd gan fflam sanctaidd dy gariad
i fod yn oleuni'n llosgi a disgleirio yn yr Eglwys:
cynnau ynom yr un ysbryd o ddisgyblaeth a chariad,
fel y cerddom o'th flaen fel plant y goleuni;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**26 Medi: Lancelot Andrewes (1626), Esgob**

**270 Colect**

Arglwydd Dduw
a roddaist i Lancelot amryw ddoniau'r Ysbryd Glân,
a'i wneud yn ŵr gweddigar ac yn fugail i'th bobl:
perffeithia ynom yr hyn sy'n ddiffygiol yn dy ddoniau;
ffydd, i'w chynyddu,
gobaith, i'w sefydlu,
cariad, i'w ennyn,
fel y byddom fyw yng ngoleuni dy ras a'th ogoniant;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

## 27 Medi: Vincent de Paul (1660), Offeiriad

### 271 Colect

Dad trugarog,
dygodd dy was Vincent de Paul,
trwy ei weinidogaeth yn pregethu a bugeilio,
dy gariad i'r claf a'r tlawd:
dyro i'th holl bobl galon dosturiol
fel y gallant drwy air a gweithred
dy wasanaethu di wrth wasanaethu eraill yn eu hangen;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bugail yn addas*

**29 Medi: Mihangel a'r Holl Angylion**

## 272 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*

O dragwyddol Dduw, a sefydlaist wasanaeth angylion a dynion mewn trefn ryfeddol: caniatâ'n drugarog, megis y mae dy angylion sanctaidd yn dy wasanaethu di'n wastad yn y nef, fod iddynt hefyd trwy dy drefniad ein cynorthwyo a'n hamddiffyn ni ar y ddaear; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*

Arglwydd Dduw tragwyddol,
tynnaist ni ynghyd â'r angylion
mewn trefn ryfeddol i'th wasanaethu:
caniatâ, megis y mae dy angylion sanctaidd
yn sefyll yn wastad ger dy fron yn y nefoedd,
y bydd iddynt, ar dy orchymyn,
ein cynorthwyo a'n hamddiffyn ni ar y ddaear;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## 273 Ôl Gymun

Arglwydd y nefoedd,
daethost â ni yn agos
at lu anneirif o angylion
ac at eneidiau'r cyfiawn a berffeithiwyd.
Fel yr ydym wedi cyfranogi o'u cymdeithas
yma yn ymborth ein pererindod ddaearol,
bydded i ni gyfranogi o'u llawenydd yn y nef;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**30 Medi: Sierôm (420), Dysgawdwr**

**274 Colect**

Dragwyddol Dad,
a roddaist i'th was Sierôm
hyfrydwch mawr mewn astudio'r Ysgrythurau sanctaidd:
caniatâ i ni â'th air yn wastadol ar ein gwefusau,
fyfyrio arno ddydd a nos,
glynu'n dyn wrth ei orchmynion,
a llywio ein bywydau yn ôl ei ddysgeidiaeth;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cyfieithydd yn addas*

**4 Hydref: Ffransis o Assisi (1226), Brawd Crefyddol**

**275 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a sefydlaist dy Eglwys trwy gariad ac ymroddiad dy Saint: diolchwn am dy was Ffransis a goffawn yn awr. Ysbrydola ni i ganlyn ei esiampl, fel y bo i ninnau yn ein cenhedlaeth lawenhau gydag ef wrth ganfod dy ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd

*Cyfoes*
O Dduw,
yr wyt ti o hyd yn ymhyfrydu mewn datguddio dy hun
i'r rhai sydd megis plentyn ac yn ostyngedig o galon:
caniatâ i ni, gan ddilyn esiampl dy was Ffransis,
gyfrif doethineb y byd hwn yn ffolineb
ac adnabod Iesu Grist yn unig
ac ef wedi ei groeshoelio,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**6 Hydref: William Tyndale (1536), Cyfieithydd a Merthyr**

**276 Colect**

O Dduw, trwy dy ras yr agorodd dy was William
drysorau dy eiriau i'r tlawd a'r annysgedig:
caniatâ i ni ddarganfod yn yr Ysgrythur
y fath weledigaeth o'th ogoniant
fel y byddom, fel ef, yn wasanaethyddion ffyddlon i ti hyd at farwolaeth;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gofodaist i fyw gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
yn oes oesoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cyfieithydd yn addas*

**9 Hydref: Cynog (5ed ganrif), Abad**

**277 Colect**

Hollalluog Dduw,
trwy dy ras
daeth Cynog, a daniwyd gan fflam sanctaidd dy gariad,
i fod yn oleuni'n llosgi a disgleirio yn yr Eglwys:
cynnau ynom yr un ysbryd o ddisgyblaeth a chariad,
fel y cerddom o'th flaen fel plant y goleuni;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**13 Hydref: Edward Gyffeswr (1066), Brenin**

**278 Colect**

Arglwydd Dduw,
a osodaist dy was Edward ar orsedd teyrnas ddaearol
a'i symbylu â sêl dros deyrnas nefoedd:
caniatâ i ni gyffesu ffydd Crist mewn gair a gweithred,
fel y cawn, gyda'th holl saint, etifeddu dy Deyrnas dragwyddol;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**14 Hydref: Esther John (1960), Cenhades a Merthyr**

**279 Colect**

Hollalluog Dduw,
bu dy wasanaethferch ffyddlon Esther (John)
yn byw ac yn gweithio er mwyn dy Fab Iesu Grist
a bu farw yn ei wasanaethu:
dyro i ninnau y fath ymroddiad i'w enw
fel y bydd ein bywydau'n gân o fawl;
trwy'r hwn sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

## 15 Hydref: Teresa o Ávila (1582), Athrawes

### 280 Colect

Drugarog Dad,
a godaist drwy dy Ysbryd dy wasanaethferch Teresa o Ávila
i ddatguddio ffordd perffeithrwydd i'th Eglwys:
caniatâ i'w dysgeidiaeth ennyn ynom ddyhead am sancteiddrwydd,
hyd nes y cyrhaeddwn at undeb perffaith cariad
yn Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

## 16 Hydref: Daniel Rowland (1790), Offeiriad a Phregethwr

### 281 Colect

Hollalluog Dduw,
a enynnaist yn dy was Daniel
ddyhead tanbaid am rodd yr Ysbryd
a'r grym i bregethu'r newyddion da yn ein gwlad:
agor ein clustiau i dderbyn dy air
a deffro yn ein calonnau ysbryd edifeirwch
fel y cawn, ar derfyn y bywyd marwol hwn,
ddihuno i weledigaeth o'th ogoniant;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
yr holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bugail yn addas*

**17 Hydref: Ignatius (c 117), Esgob a Merthyr**

**282 Colect**

Portha ni, O Arglwydd, â'r bara bywiol
a gwna i ni ddrachtio'n ddwfn o gwpan iachawdwriaeth
fel, gan ddilyn dysgeidiaeth dy esgob Ignatius
a chan ymlawenhau yn y ffydd a gofleidiodd wrth farw'n ferthyr,
y cawn ein maethu yn y bywyd tragwyddol hwnnw y dyheodd amdano;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**18 Hydref: Luc, Efengylydd**

**283 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a chariadus Dad, a ysbrydolaist Luc y Ffisigwr, sydd â'i glod yn yr Efengyl, i gyhoeddi cariad a gallu iachaol dy Fab: dyro i'th Eglwys, trwy feddyginiaeth iachusol ei ddysgeidiaeth ef, yr un cariad a gallu i iacháu; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
gelwaist Luc y Ffisigwr,
sydd â'i glod yn yr efengyl,
i fod yn efengylwr a meddyg i'r enaid
trwy ras yr Ysbryd
a thrwy feddyginiaeth iachusol yr efengyl,
dyro i'th Eglwys yr un cariad a gallu i iacháu;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
yr holl anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

**284 Ôl Gymun**

Dad ein Harglwydd Iesu Grist,
agor ein meddyliau i ddeall yr Ysgythurau
a'n genau i gyhoeddi maddeuant
yn enw'r hwn sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## 19 Hydref: Henry Martyn (1812), Bugail, Cyfieithydd a Chenhadwr

### 285 Colect

Hollalluog Dduw,
a roddaist i'th was Henry, trwy dy Ysbryd Sanctaidd,
ddyhead am adrodd y newyddion da am Grist
a'r ddawn i gyfieithu'r Ysgrythurau:
drwy'r un Ysbryd, dyro i ni ras i offrymu ein doniau i ti,
ble bynnag yr wyt yn arwain, beth bynnag fo'r gost;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr neu Gyfieithydd yn addas*

## 23 Hydref: Iago o Jerwsalem, Esgob

### 286 Colect

Caniatâ, O Dduw tangnefedd,
y bydd i'th Eglwys,
yn unol ag esiampl Iago,
brawd yr Arglwydd,
ymroddi'n wastadol i weddi
ac i gymodi pawb sydd wedi
eu dal mewn casineb neu elyniaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**25 Hydref: Lewis Bayley (1631), Esgob ac Awdur**

**287 Colect**

Fendigaid Arglwydd,
a ennynaist yn dy was Lewis
gariad at ymarfer duwioldeb:
caniatâ i ni fod yn gyson yn ein defosiwn
a thystio'n ddewr i efengyl dy Fab
Iesu Grist ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
yr holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae Gweddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**26 Hydref: Alffred (899), Brenin**

**288 Colect**

Dduw, ein Gwneuthurwr a'n Prynwr,
gweddïwn arnat o'th fawr drugaredd
a thrwy rym dy groes sanctaidd
i'n tywys yn ôl dy ewyllys a'n hamddiffyn rhag ein gelynion
fel, gan ddilyn esiampl dy was Alffred,
y cawn dy garu di goruwch popeth arall;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae Gweddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**28 Hydref: Simon a Jwdas, Apostolion**

**289  Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a adeiledaist dy Eglwys ar sail yr Apostolion a’r Proffwydi, ac Iesu Grist ei hun yn ben conglfaen: caniatâ i ni fod wedi ein cysylltu ynghyd mewn undeb ysbryd gan eu dysgeidiaeth hwy, fel y gwneir ni’n deml sanctaidd gymeradwy gennyt; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
a adeiledaist dy Eglwys ar sail
yr apostolion a’r proffwydi
gydag Iesu Grist ei hun yn ben-conglfaen,
cysyllta ni ynghyd mewn undeb ysbryd
trwy eu dysgeidiaeth
fel y’n gwneir ni yn deml sanctaidd gymeradwy gennyt;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**30 Hydref: Richard Hooker (1600), Offeiriad ac Athro**

**290  Colect**

Dduw’r tangnefedd, rhwymyn pob cariad,
a greaist drwy dy Fab Iesu Grist
breswylfa anwahanadwy i ti dy hun yn y ddynolryw:
dyro i ni ras fel y cawn, yn ôl esiampl dy was Richard,
lawenhau’n wastadol yng ngwir etifeddiaeth dy blant mabwysiedig
a datgan dy glodydd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**31 Hydref: Saint a Merthyron Catholig a Phrotestannaidd Cyfnod y Diwygiad Protestannaidd**

**291 Colect**

Hollalluog Dduw,
a ddatguddiaist y ffydd i'r apostolion a'r proffwydi,
gyda Christ Iesu yn gonglfaen:
boed i ni, gan ddilyn esiampl
saint a merthyron
cyfnod y Diwygiad Protestannaidd,
fyw yn dy ofn,
marw yn dy ffafr
a gorffwys yn dy dangnefedd;
er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

***Neu* Gwylnos yr Holl Saint**

**292 Colect**

Hollalluog Dduw,
yn dy drugaredd y paratown i ddathlu uchel ŵyl
dy holl saint;
caniatâ i'w hesiampl gynyddu ein hymroddiad
a'n harwain ar hyd ffordd iachawdwriaeth;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**1 Tachwedd: Yr Holl Saint**

*Gweler Suliau a'r Prif Wyliau*

**2 Tachwedd: Yr Holl Eneidiau**

**293 Collect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd ein Duw, Creawdwr a Cheidwad yr holl gredinwyr: caniatâ i'r ffyddloniaid ymadawedig holl ddoniau anchwiliadwy Dioddefaint dy Fab; fel, yn nydd ei ymddangosiad ef, yr amlygir hwynt yn blant i ti; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dragwyddol Dduw, ein Creawdwr a'n Gwaredwr,
caniatâ i'r holl ffyddloniaid ymadawedig
ddoniau sicr dioddefaint achubol dy Fab,
fel, ar y dydd diwethaf,
pan gesgli bopeth yng Nghrist,
y cânt fwynhau llawnder dy addewidion;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Neu*
O Dduw,
Creawdwr a Gwaredwr pawb:
caniatâ i'th holl Eglwys,
y byw a'r ymadawedig,
ddoniau sicr dioddefaint achubol dy Fab,
fel y cawn fynd trwy angau
i atgyfodiad llawen,
trwyddo ef a fu farw ac a gyfodwyd er ein mwyn,
Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**3 Tachwedd: Merthyron a Chyffeswyr ein Hoes**

**294  Colect**

Hollalluog Dduw,
a roddaist allu i ferthyron a chyffeswyr ein hoes ni
i oresgyn dioddefaint
a bod yn ffyddlon hyd angau:
gwna ni'n barod i oddef sarhad ac erledigaeth,
ac i ddwyn tystiolaeth ffyddlon
i enw Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

***Neu* Gwenfrewi (7fed ganrif), Abades**

**295  Colect**

Arglwydd Dduw, ffynnon pob bywyd
sydd yn ein galw trwy ddŵr bedydd i fyw a chyfodi gyda Christ;
caniatâ i ni sydd yn dwyn i gof
fywyd a marwolaeth dy wasanaethferch Gwenfrewi,
ystyried ein hunain, fel hithau, yn farw i bechod
ond yn fyw i ti yng Nghrist Iesu,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abades yn addas*

**4 Tachwedd: Saint a Merthyron y Cymundeb Anglicanaidd**

**296 Colect**

O Dduw,
rhoddaist i'th saint
ras i gyffesu dy unig Fab yn Arglwydd:
cadw ni'n ffyddlon yn ein tystiolaeth
fel y bo i ni chwilio am dy wirionedd,
gwasanaethu dy bwrpas,
a moli dy enw di yn llawen;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr neu Unrhyw Sant yn addas*

**5 Tachwedd: Cybi (6ed ganrif), Abad**

**297 Colect**

Dduw pob cyfnod a lle,
a ysbrydolaist dy was Cybi
i adael ei bobl a thŷ ei dad
ac, fel Abraham, i chwilio amdanat wrth grwydro:
caniatâ i ni, pan ddaw ein pererindod ddaearol i ben
ganfod, fel hwythau, breswylfa dragwyddol
lle, gyda dy Fab a'th Ysbryd Glân
yr wyt ti'n byw ac yn teyrnasu,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**6 Tachwedd: Illtud (5ed ganrif), Abad**

**298 Colect**

Fendigaid Arglwydd, ffynhonnell pob doethineb,
drwy dy ras
y rhagorodd dy was Illtud mewn gwybodaeth a dysg,
yn ddynol a dwyfol;
caniatâ i ni beidio â cheisio byw wrth fara’n unig
ond wrth y Gair hwnnw a ddaw o’th enau,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
y bydded iddo gyda thi a’r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**7 Tachwedd: Richard Davies (1581), Esgob a Chyfieithydd**

**299 Colect**

Dragwyddol Dduw,
a elwaist dy was Richard i reoli yn nheulu’r ffydd,
gan ofalu am Eglwys Dduw:
caniatâ i ni sy’n parchu’r cof amdano
fod yn wyliadwrus, yn syber a bucheddol,
yn hael ein lletygarwch ac yn gymwys i ddysgu;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a’r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cyfieithydd yn addas*

**8 Tachwedd: Holl Saint Cymru**

**300 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, sy’n galw dy etholedigion o bob cenedl, ac yn dangos dy ogoniant yn eu buchedd: gweddïwn arnat ganiatáu i ni, gan ddilyn esiampl Saint Cymru, a chael ein cyfnerthu gan eu cymdeithas, fod yn ffrwythlon mewn gweithredoedd da, er mawl i’th Enw sanctaidd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dduw grasol,
wrth i ni alw i gof holl saint ein gwlad,
caniatâ i ni sy’n llawenhau
i rannu eu trigfan ddaearol
gael ein gwneud yn deilwng
i fod yn gyd-ddinasyddion nefol â hwynt
trwy haeddiannau Iesu Grist,
dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Sant Cymreig yn addas*

**10 Tachwedd: Leo (461), Esgob a Dysgawdwr**

**301 Colect**

Dduw ein Tad,
a roddaist gryfder i’th was Leo i amddiffyn y Ffydd:
llanw dy Eglwys ag Ysbryd y gwirionedd
fel, wedi’i thywys gan ostyngeiddrwydd a’i llywodraethu gan gariad,
y gall drechu grymoedd drygioni;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Athro yn addas*

### 11 Tachwedd: Martin (c 397), Esgob

### 302  Colect

Hollalluog Dduw,
a elwaist Martin o fyddinoedd y byd hwn
i fod yn filwr ffyddlon i Grist:
dyro ras i ni ei ddilyn ef
yn ei gariad a'i dosturi at bawb mewn angen,
a galluoga dy Eglwys i hawlio i'r holl bobloedd
eu hetifeddiaeth fel plant i Dduw;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

### 12 Tachwedd: Tysilio (6ed ganrif), Abad

### 303  Colect

Dad pawb oll,
a elwaist Tysilio i ffoi o dŷ ei dad
ac i fyw mewn unigedd ar ynysoedd môr y gorllewin:
caniatâ i ni, gan ddilyn ei esiampl,
fod yn barod i roi heibio
popeth a'n rhwystra rhag dilyn llwybr dy Fab,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

**13 Tachwedd: Charles Simeon (1836), Offeiriad ac Athro**

**304 Colect**

Dragwyddol Dduw,
a godaist Charles Simeon
i bregethu’r newyddion da am Iesu Grist
ac ysbrydoli dy bobl mewn gwasanaeth a chenhadaeth:
caniatâ i ni gyda’th holl Eglwys addoli’r Gwaredwr,
troi mewn galar oddi wrth ein pechodau
a cherdded yn ffordd sancteiddrwydd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bugail yn addas*

**14 Tachwedd: Dyfrig (6ed ganrif), Esgob**

**305 Colect**

Hollalluog Dduw,
goleuni’r ffyddloniaid a bugail eneidiau,
a roddaist dy was Dyfrig
i fod yn esgob yn yr Eglwys
ac i bregethu’r efengyl i bobl Cymru:
dyro i ni, dy wasanaethyddion,
y fath ffyddlondeb a grym cariad
fel, wrth orfoleddu yn ei fuddugoliaeth,
y cawn elwa ar ei esiampl:
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a’r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**15 Tachwedd: Saint, Merthyron a Chenhadon Gogledd America**

**306  Colect**

Dad, cysegraist
ddechreuadau'r Eglwys yng Ngogledd America
trwy bregethu ac esiampl
llawer o saint a merthyron;
caniatâ yn ein dyddiau ein hunain
i'r ffydd a ddysgwyd ganddynt
ysbrydoli eraill i ddilyn ôl eu traed;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

**16 Tachwedd: Margaret o'r Alban (c 1045), Brenhines**

**307  Colect**

Dduw, llywodraethwr popeth,
a elwaist dy wasanaethyddes Margaret i orsedd ddaearol
a rhoi iddi sêl dros dy Eglwys a chariad at dy bobl,
fel y gallai hyrwyddo dy deyrnas nefol:
caniatâ'n drugarog i ni sy'n coffáu ei hesiampl
fod yn ffrwythlon mewn gweithredoedd da
a chyrraedd coron ogoneddus dy saint;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**17 Tachwedd: Huw (1200), Esgob**

**308 Colect**

O Dduw,
a gynysgaeddaist dy was Huw
â beiddgarwch doeth a llawen
a'i ddysgu i gymeradwyo disgyblaeth buchedd
sanctaidd i lywodraethwyr daearol:
dyro i ni ras fel yntau i fod yn feiddgar yng ngwasanaeth yr efengyl,
gan ymddiried yng Nghrist yn unig,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

**18 Tachwedd: Hilda (680), Abades**

**309 Colect**

Dragwyddol Dduw,
a beraist i'r abades Hilda ddisgleirio fel gem
a thrwy ei sancteiddrwydd a'i harweiniad
a fendithiaist dy Eglwys â bywyd ac undod newydd:
cynorthwya ni, fel hithau, i ddyheu am efengyl Crist
ac i gymodi pawb sy'n rhanedig;
trwy'r hwn sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abades yn addas*

**19 Tachwedd: Elisabeth o Hwngari (1231), Tywysoges**

**310 Colect**

Arglwydd Dduw,
a ddysgaist Elisabeth o Hwngari
i adnabod a mawrygu Crist yn nhlodion y byd hwn:
trwy ei hesiampl, cryfha ni
i garu a gwasanaethu'r dioddefus a'r anghenus
ac felly i anrhydeddu dy Fab, y Gwas Brenhinol,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Unrhyw Sant yn addas*

**21 Tachwedd: Peulin (5ed ganrif), Abad**

**311 Colect**

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
a elwaist Peulin i gyhoeddi'r efengyl i'r genedl hon:
dyro i ni, dy wasanaethyddion, y fath ffydd a grym cariad,
fel, wrth orfoleddu yn ei fuddugoliaeth,
y cawn elwa ar ei esiampl;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

## 23 Tachwedd: Clement (c 100), Esgob

### 312 Colect

Greawdwr a Thad tragwyddoleb,
y tystiodd dy ferthyr Clement â'i waed
i'r cariad a gyhoeddodd a'r efengyl a bregethodd:
dyro i ni galonnau diolchgar
wrth i ni ddathlu dy ffyddlondeb a ddatguddiwyd inni ym mywydau dy saint
a chryfha ni yn ein pererindod
wrth ddilyn dy Fab, Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Esgob yn addas*

## 25 Tachwedd: John Donne (1631), Offeiriad a Bardd

### 313 Colect

Cura'n calonnau, Dduw dri-pherson,
fel y cawn ni, a loriwyd gan ein pechodau,
gyfodi yn y diwedd gyda John dy was
a chanu gydag ef am ryfeddodau dy gariad;
lle yr wyt ti yn byw ac yn teyrnasu,
yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
yn Dduw am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Bardd yn addas*

**29 Tachwedd: Gwylnos a Dydd Gweddi dros Genhadaeth yr Eglwys**

**314 Colect**

Hollalluog Dduw,
a elwaist dy Eglwys i dystiolaethu
mai yng Nghrist y cymodaist y byd â thi dy hun:
cynorthwya ni i gyhoeddi
newyddion da dy gariad,
er mwyn i bawb sydd yn eu clywed gael eu huno gyda thi;
trwyddo ef a fu farw er ein mwyn,
a gyfododd drachefn
ac sydd yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd Glân
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun am Genhadaeth yn addas*

## 30 Tachwedd: Andreas, Apostol, Nawddsant yr Alban

### 315 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a roddaist y fath ras i'th Apostol bendigedig Andreas, fel yr ufuddhaodd yn ebrwydd i alwad dy Fab Iesu Grist, a'i ddilyn yn ddi-oed: caniatâ i ni oll, wedi ein galw gan dy Air bendigedig, ymroddi rhag blaen i gyflawni'n ufudd dy orchmynion sanctaidd; trwy yr un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
a roddaist y fath ras i'th apostol Andreas
fel yr ufuddhaodd yn ddi-oed i alwad dy Fab Iesu Grist,
gan ddod â'i frawd gydag ef:
galw ni â'th Air sanctaidd
a dyro i ni ras i ddilyn heb oedi
ac i gyhoeddi newyddion da dy deyrnas;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Pentecost 15 yn addas*

**1 Rhagfyr: Nicholas Ferrar (1637), Diacon**

**316 Colect**

Arglwydd grasol,
a ddenaist y diacon Nicholas yn dyner i'th wasanaeth
a pheri iddo glywed galwad dy gariad:
caniatâ i ni, sy'n parchu ei goffadwriaeth,
fod yn gyson mewn gweddi, yn ddiysgog mewn gobaith,
ac yn llawen mewn symlrwydd calon;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad neu Unrhyw Sant yn addas*

**2 Rhagfyr: Saint, Merthyron a Chenhadon Asia**

**317 Colect**

Dduw graslonaf,
derbyn ein diolch
am seintiau, merthyron a chenhadon Asia.
Bydded i'r clustiau sy'n clywed dy air fod yn agored i'r gwirionedd;
i'r llygaid sy'n gweld dy gariad ddisgleirio â goleuni gobaith;
ac i'r tafodau sy'n canu dy glodydd sôn am y Gair a wnaethpwyd yn gnawd,
Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn a gyfodaist, trwy nerth yr Ysbryd,
i fyw gyda thi
ei Dduw a'i Dad ef,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ay gyfer Cenhadwr yn addas*

**3 Rhagfyr: Francis Xavier (1552), Cenhadwr**

**318 Colect**

Dduw ein Tad,
a ddygaist lawer o genhedloedd Asia atat dy hun
trwy bregethu dy was Francis;
dyro ei sêl ef dros y Ffydd i bawb sy'n credu ynot ti,
fel y bydd i'th Eglwys lawenhau wrth iddi barhau i dyfu;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cenhadwr yn addas*

**6 Rhagfyr: Nicolas (c 342), Esgob**

**319 Colect**

Dad Hollalluog,
carwr eneidiau,
a ddewisaist dy was Nicolas i fod yn esgob yn yr Eglwys,
er mwyn iddo rannu trysorau dy ras yn hael:
gwna ni'n ymwybodol o anghenion eraill,
ac fel yr ydym wedi derbyn, dysg ni hefyd i roi;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Offeiriad neu Esgob yn addas*

**7 Rhagfyr: Emrys (397), Esgob a Dysgawdwr**

**320 Colect**

Dduw’r lluoedd,
a elwaist Emrys o orsedd y llywodraethwr
i fod yn esgob yn dy Eglwys
ac yn amddiffynnwr gwrol i’th bobl ffyddlon:
caniatâ yn drugarog,
fel nad oedd ef yn ofni ceryddu llywodraethwyr,
y medrwn ninnau, gyda’r un dewrder, frwydro dros y ffydd
yr ydym wedi ei derbyn;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Athro yn addas*

**8 Rhagfyr: Cynidr (6ed ganrif), Esgob**

**321 Colect**

Hollalluog Dduw,
goleuni’r ffyddloniaid a bugail eneidiau,
a roddaist dy was Cynidr i fod yn esgob yn yr Eglwys,
i fwydo dy ddefaid â’th air
a’u harwain trwy fod yn esiampl dda iddynt:
dyro i ni ras i gadw ffydd yr Eglwys
ac i ddilyn ôl traed Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae’r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Offeiriad neu Esgob yn addas*

**13 Rhagfyr: Lleucu (304), Merthyr**

**322 Colect**

Dduw ein Hiachawdwr,
a roddaist oleuni i fyd oedd mewn tywyllwch
trwy nerth iachusol croes y Gwaredwr:
tywallt ei oleuni arnom, fe weddïwn,
fel, gyda'th ferthyr Lleucu,
y cawn ninnau trwy burdeb ein bywydau adlewyrchu goleuni Crist
a thrwy haeddiannau ei ddioddefaint
ddod at oleuni'r bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

**14 Rhagfyr: Ioan y Groes (1591), Offeiriad, Bardd ac Athro**

**323 Colect**

O Dduw, farnwr pawb oll,
a roddaist i'th was Ioan y Groes
gynhesrwydd natur, cryfder pwrpas a ffydd gyfriniol
a'i cynhaliodd ef hyd yn oed yn y tywyllwch:
tywallt dy oleuni ar bawb sydd yn dy garu
a dyro iddynt undeb corff ac ysbryd
yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Addysg neu Athro yn addas*

**Colectau y gellir eu defnyddio ar ddyddiau'r wythnos Rhagfyr 17-23**
*Mae Gweddi Ôl Gymun y Sul yn addas*

**324 O Ddoethineb! Rhagfyr 17**
O Arglwydd ein Duw,
gwna ni'n wyliadwrus a chadw ni'n ffyddlon
wrth inni ddisgwyl dyfodiad Doethineb oddi uchod:
fel, pan ymddengys,
na chawn ein hunain yn cysgu mewn pechod
ond yn weithgar yn ei wasanaeth
ac yn ei foli'n llawen:
gofynnwn hyn trwy'r hwn y mae ei ddyfodiad yn sicr,
y mae ei ddydd yn agosàu,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

**325 O Adonai! Rhagfyr 18**
O Arglwydd ein Duw,
gwna ni'n wyliadwrus a chadw ni'n ffyddlon
wrth inni ddisgwyl dyfodiad ein Harglwydd:
fel, pan ymddengys,
na chawn ein hunain yn cysgu mewn pechod
ond yn weithgar yn ei wasanaeth
ac yn ei foli'n llawen:
gofynnwn hyn trwy'r hwn y mae ei ddyfodiad yn sicr,
y mae ei ddydd yn agosàu,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant yn awr ac am byth.

**326  O Wreiddyn Jesse!  Rhagfyr 19**
O Arglwydd ein Duw,
gwna ni'n wyliadwrus a chadw ni'n ffyddlon
wrth inni ddisgwyl dyfodiad bachgen a aned o wreiddyn Jesse:
fel, pan ymddengys,
na chawn ein hunain yn cysgu mewn pechod
ond yn weithgar yn ei wasanaeth
ac yn ei foli'n llawen:
gofynnwn hyn trwy'r hwn y mae ei ddyfodiad yn sicr,
y mae ei ddydd yn agosàu,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

**327  O Allwedd Dafydd!  Rhagfr 20**
O Arglwydd ein Duw,
gwna ni'n wyliadwrus a chadw ni'n ffyddlon
wrth inni ddisgwyl dyfodiad yr hwn
sy'n dal allweddau ty a theyrnas Dafydd:
fel, pan ymddengys,
na chawn ein hunain yn cysgu mewn pechod
ond yn weithgar yn ei wasanaeth
ac yn ei foli'n llawen:
gofynnwn hyn trwy'r hwn y mae ei ddyfodiad yn sicr,
y mae ei ddydd yn agosàu,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

**328 O Wawrddydd! Rhagfyr 21**
O Arglwydd ein Duw,
gwna ni'n wyliadwrus a chadw ni'n ffyddlon
wrth inni ddisgwyl dyfodiad Haul Cyfiawnder:
fel, pan ymddengys,
na chawn ein hunain yn cysgu mewn pechod
ond yn weithgar yn ei wasanaeth
ac yn ei foli'n llawen:
gofynnwn hyn trwy'r hwn y mae ei ddyfodiad yn sicr,
y mae ei ddydd yn agosàu,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.

**329 O Frenin y Cenhedloedd! Rhagfyr 22**
O Arglwydd ein Duw,
gwna ni'n wyliadwrus a chadw ni'n ffyddlon
wrth inni ddisgwyl dyfodiad y Brenin
y mae'r holl bobloedd yn dyheu amdano:
fel, pan ymddengys,
na chawn ein hunain yn cysgu mewn pechod
ond yn weithgar yn ei wasanaeth
ac yn ei foli'n llawen:
gofynnwn hyn trwy'r hwn y mae ei ddyfodiad yn sicr,
y mae ei ddydd yn agosàu,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant yn awr ac am byth.

**330  O Immanuel!  Rhagfyr 23**

O Arglwydd ein Duw,
gwna ni'n wyliadwrus a chadw ni'n ffyddlon
wrth inni ddisgwyl dyfodiad Immanuel
yn Farnwr arnom ac yn Waredwr inni:
fel, pan ymddengys,
na chawn ein hunain yn cysgu mewn pechod
ond yn weithgar yn ei wasanaeth
ac yn ei foli'n llawen:
gofynnwn hyn trwy'r hwn y mae ei ddyfodiad yn sicr, y mae ei ddydd yn agosàu,
Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant yn awr ac am byth.

**25/25 Rhagfyr: Noswyl a Dydd y Nadolig**

*Gweler Suliau a'r Gwyliau*

## 26 Rhagfyr: Steffan, Diacon, y Merthyr Cyntaf

### 331 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Caniatâ, O Arglwydd, yn ein holl ddioddefiadau yma ar y ddaear er tystiolaeth i'th wirionedd, inni allu dysgu caru ein gelynion, trwy esiampl dy ferthyr cyntaf Steffan, a weddïodd dros ei erlidwyr arnat ti, O Iesu gwynfydedig, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Dad grasusol,
a roddaist i'r merthyr cyntaf Steffan
ras i weddïo dros y rhai oedd yn ei labyddio;
caniatâ i ni wrth ddioddef dros y gwirionedd,
ddysgu caru hyd yn oed ein gelynion
a cheisio maddeuant i'r rhai sydd am beri loes i ni
gan edrych i'r nef ato ef a groeshoeliwyd er ein mwyn,
Iesu Grist, ein Cyfryngwr a'n Heiriolwr,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Y mae'r ddwy Weddi Ôl Gymun ar gyfer y Nadolig yn addas*

## 27 Rhagfyr: Ioan, Apostol ac Efengylydd

### 332 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Arglwydd trugarog, caniatâ fod i'th oleuni disglair lewyrchu ar dy Eglwys, fel, wedi ei dysgu gan athrawiaeth dy Apostol ac Efengylwr gwynfydedig Ioan, y gall hi rodio yng ngoleuni dy wirionedd, a dod yn y diwedd i oleuni'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Arglwydd trugarog,
caniatâ i'th belydrau disglair o oleuni lewyrchu ar yr Eglwys;
fel, wedi ein goleuo gan ddysgeidiaeth
dy apostol ac efengylydd gwynfydedig, Ioan,
y gallwn rodio yng ngoleuni dy wirionedd
a chyrraedd yn y diwedd at oleuni'r bywyd tragwyddol
trwy Iesu Grist,
dy Fab ymgnawdoledig ein Harglwydd,
yr hwn trwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fyw gyda thi,
ei Dduw a'i Dad,
yn oes oesoedd.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer y Nadolig (Yn ystod y Dydd) yn addas.*

**28 Rhagfyr: Gŵyl y Diniweidiaid**

**333 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a beraist nerth o enau plant bychain a rhai yn sugno, ac a wnaethost i fabanod dy ogoneddu trwy eu marwolaeth: marweiddia bob drygioni ynom, a nertha ni â'th ras, fel, trwy ddiniweidrwydd buchedd a ffydd ddiysgog, ie, hyd angau, y gogoneddwn dy Enw sanctaidd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Nefol Dad,
y dioddefodd dy blant trwy ddwylo Herod:
o'th allu nerthol
rhwystra bob cynllun anfad
a gosod sylfaen dy deyrnasiad o gyfiawnder, o gariad a heddwch;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sydd yn fyw ac yn ternasau gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glan,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr neu Unrhyw Sant yn addas*

**29 Rhagfyr: Thomas o Gaer-gaint (1170), Esgob a Merthyr**

**334 Colect**

Arglwydd Dduw,
a roddaist ras i'th was Thomas
i roi heibio pob ofn daearol a bod yn ffyddlon hyd at angau;
caniatâ i ni, gan ddiystyru parch bydol,
ymladd yn erbyn pob drwg,
cynnal dy drefn di a'th wasanaethu di hyd ddiwedd ein hoes;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Merthyr yn addas*

## 30 Rhagfyr: Tathan (6ed ganrif) Abad

### 335 Colect

Hollalluog Dduw,
trwy dy ras
daeth Tathan a daniwyd gan fflam sanctaidd dy gariad
i fod yn oleuni'n llosgi a disgleirio yn yr Eglwys:
cynnau ynom yr un ysbryd o ddisgyblaeth a chariad,
fel y cerddom o'th flaen fel plant y goleuni;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Abad yn addas*

## 31 Rhagfyr: John Wycliffe (1384), Offeiriad a Chyfieithydd

### 336 Colect

Dduw ein Tad,
yr wyt yn ewyllysio bod pawb yn dod i'th adnabod di
ac Iesu Grist, yr hwn a anfonaist:
caniatâ i ni, fel dy was John,
fod yn ddiflino wrth ledaenu'r newyddion da am dy Air a wnaed yn gnawd;
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r holl anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

*Mae'r Weddi Ôl Gymun ar gyfer Cyfieithydd yn addas*

# COLECTAU ERAILL A GWEDDÏAU ÔL - GYMUN

## CYNNWYS


| | Colect | Ôl-Gymun |
|---|---|---|
| Diolchgarwch am Fedydd Sanctaidd | 337 | 338 |
| Diolchgarwch am y Cymun Bendigaid | 339 | 55 |
| Tridiau'r Gweddïau | 340 | 344 |
| Dydd Llun | 341 | |
| Dydd Mawrth | 342 | |
| Dydd Mercher | 343 | |
| Diolchgarwch / Cynhaeaf | 345 | 346 |
| Gŵyl Gyflwyniad | 347 | 348 |
| Undod | 349 | 350 |
| Dyddiau'r Catgoriau | 351 | 352 |
| Sefydlu / Gweinidogaeth Newydd | 353 | 354 |
| Addysg | 355 | 356 |
| Priodas | 357 | |
| Y Rhai Mewn Angen | 358 | |
| Gwaeledd | 359 | |
| Y Rhai sy'n Marw | 360 | |
| Angladd | 361 | |
| Cenhadaeth | 362 | 363 |
| Cenhadwr | 364 | 365 |
| Heddwch | 366 | 367 |
| Cyfarfod | 368 | |
| Arweiniad yr Ysbryd Glân | 369 | 370 |
| Cyfrifoldeb Cymdeithasol | 371 | |
| Diwygiwr Cymdeithasol | 372 | 373 |
| Bardd | 374 | 375 |

| | | |
|---|---|---|
| Offeiriad | 376 | 377 |
| Esgob | 378 | 379 |
| Bugail | 380 | 381 |
| Abad neu Abades | 382 | 383 |
| Merthyr | 384 | 385 |
| Dysgadwdwr / Athro’r Ffydd | 386 | 387 |
| Sant | 388 | 389 |
| Sant Cymreig | 390 | 391 |
| Cyfieithydd | | 392 |
| Gŵylnos Sant | 393 | |

**DIOLCHGARWCH AM FEDYDD SANCTAIDD: Unrhyw adeg yn Nhymor y Pasg**

**337 Colect**

Dad nefol,
trwy nerth yr Ysbryd Glân
yr wyt yn rhoddi i'th bobl ffyddlon
fywyd newydd yn nŵr y bedydd.
Llywia a nertha ni trwy'r un Ysbryd,
fel y cawn ni sydd wedi ein geni o'r newydd
dy wasanaethu mewn ffydd a chariad,
a thyfu i faintioli cyflawn dy Fab Iesu Grist,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**338 Ôl Gymun**

Hollalluog Dduw,
diolchwn i ti am ein cymdeithas
yn nheulu'r ffydd â phob un a fedyddiwyd yn dy enw;
Cadw ni'n ffyddlon i'n bedydd
a'n paratoi felly ar gyfer y dydd hwnnw
pan wneir y greadigaeth gyfan yn berffaith
yn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.

*Neu*
Dduw tragwyddol,
cyhoeddaist yng Nghrist
lawnder dy bwrpas cariadlon.
Bydded inni fyw trwy ffydd,
cerdded mewn gobaith
a chael ein hadnewyddu mewn cariad,
hyd nes yr adlewyrcho'r byd dy ogoniant,
a thithau'n bopeth ym mhopeth.
Amen; tyrd, Arglwydd Iesu!

**DIOLCHGARWCH AM Y CYMUN BENDIGAID:**
**Dydd Iau ar ôl Sul y Drindod**

## 339 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Fendigaid Arglwydd, a adewaist i ni goffadwriaeth o'th Ddioddefaint mewn Sacrament rhyfeddol, caniatâ inni felly barchu dirgeleddau sanctaidd dy Gorff a'th Waed, fel y canfyddwn yn wastad ynom ein hunain ffrwyth dy brynedigaeth di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Iesu, Waredwr y byd,
diolchwn i ti am adael inni
yn y sacrament rhyfeddol hwn
goffâd o'th ddioddefaint:
caniatâ inni felly barchu
dirgeleddau sanctaidd dy gorff a'th waed
fel y profwn ynom ein hunain
ffrwyth dy gariad achubol di;
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Mae'r Collect ar gyfer Dydd Iau Cablyd yn addas fel gweddi Ôl-Gymun*

## TRIDIAU'R GWEDDÏAU

### 340 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, yr wyt bob amser yn barotach i wrando na ni i weddïo, ac yn arfer rhoi mwy nag yr ydym yn ei ddeisyf na'i haeddu: tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddau inni'r pethau y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoi inni'r pethau daionus hynny nad ydym yn deilwng i'w gofyn, ond trwy haeddiannau a chyfryngdod dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd.

***Dydd Llun***
### 341 Colect

Hollalluog Dduw,
dy ewyllys yw i'r ddaear a'r môr
ddwyn ffrwyth yn eu pryd:
bendithia lafur y rhai sy'n gweithio ar y tir a'r môr;
dyro gynaeafau da
a'r gras i gydnabod dy ofal tadol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

***Dydd Mawrth***
### 342 Colect

Hollalluog Dduw a Thad,
trefnaist ein bywyd fel y dibynnwn ar ein gilydd:
dyro lwyddiant i'r rhai sy'n ymwneud â masnach a diwydiant,
a chyfarwydda eu meddyliau a'u dwylo mewn gwasanaeth i eraill;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

***Dydd Mercher***
**343 Colect**

Creawdwr y ddaear ffrwythlon,
fe’n gwnaethost yn stiwardiaid pob peth:
dyro inni galonnau sy’n ddiolchgar am dy ddaioni,
a’r ewyllys gadarn i ddefnyddio dy drysor yn dda,
fel y bydd i’r teulu dynol cyfan,
heddiw ac yn y cenedlaethau i ddod,
ddiolch gyda ni am gyfoeth dy greadigaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**344 Ôl Gymun**

Dduw ein Creawdwr,
yr wyt yn rhoddi hâd i ni ei hau a bara i ni ei fwyta:
fel yr wyt wedi bendithio ffrwyth ein llafur yn y Cymun hwn,
felly gofynnwn i ti roddi eu bara beunyddiol i’th holl blant,
er mwyn i’r byd dy foli am dy ddaioni;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## DIOLCHGARWCH / CYNHAEAF

### 345 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog a thragwyddol Dduw, sy'n coroni'r flwyddyn â'th ddaioni, ac yn rhoddi inni ffrwythau'r ddaear yn eu tymor: dyro i ni galonnau diolchgar, fel y defnyddiwn dy roddion yn unol â'th ewyllys; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Arglwydd yr holl greadigaeth,
yr wyt yn rhoi i ni ffrwythau'r ddaear yn eu pryd
ac yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni:
cynorthwya ni i dderbyn dy roddion â chalonnau diolchgar
inni eu defnyddio i'th ogoniant,
er lles y rhai sydd mewn angen
a diwallu ein hanghenion beunyddiol;
trwy Iesu Grist, Bara'r Bywyd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 346 Ôl Gymun

Arglwydd y cynhaeaf,
yr ydym wedi offrymu diolchgarwch yn llawen
am dy gariad yn y greadigaeth
ac wedi cyfranogi o fara a gwin y deyrnas:
trwy dy ras planna ynom y fath barch at bopeth yr wyt yn rhoi inni
fel y byddwn yn stiwardiaid doeth o'r pethau da yr ydym yn eu mwynhau;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## GŴYL GYFLWYNIAD

### 347 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, y dathlwn drachefn trwy dy ragluniaeth gysegriad [*neu gyflwyniad]* yr eglwys hon: deisyfwn arnat ein cynysgaeddu â'th fendith nefol, a'n gwneud yn deml fyw, sanctaidd a chymeradwy i ti; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a ninnau'n dathlu *cyflwyniad* y tŷ gweddi hwn
er gogoniant i'th enw:
molwn di am y bendithion lluosog
a roddaist i'r rhai sy'n addoli yma,
gweddïwn am i bawb sy'n dy geisio yn y lle hwn
dy ganfod,
ac, wedi eu llenwi â'r Ysbryd Glân,
y byddant yn demlau bywiol cymeradwy i ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 348 Ôl Gymun

Dad yn y nefoedd,
caniatâ i ni, wedi ein bwydo â bara bywiol y nef
ac wedi ein huno yng nghorff dy Fab,
fod yn deml i'th bresenoldeb,
yn drigfan i'th ogoniant ar y ddaear
ac yn arwydd o'th ras achubol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## UNDOD

### 349 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd Iesu Grist, a ddywedaist wrth dy apostolion, Tangnefedd yr wyf yn ei adael i chwi, fy nhangnefedd yr wyf yn ei roddi i chwi: nac edrych ar ein pechodau, eithr ar ffydd dy Eglwys, a dyro iddi'r tangnefedd hwnnw a'r undod sy'n unol â'th ewyllys di, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Dad nefol,
fe'n gelwaist ynghyd yng Nghorff dy Fab Iesu Grist
i barhau ei waith o gymodi
ac i'th ddatguddio i'r byd:
maddau'r pechodau hynny
sydd yn ein gwahanu oddi wrth ein gilydd,
a dyro i ni'r dewrder i orchfygu ein hofnau
fel y ceisiwn yr undod hwnnw
sef dy rodd a'th ewyllys di;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 350 Ôl Gymun

Tragwyddol Dduw a Thad,
gweddïodd dy Fab yn y swper y byddai ei ddisgyblion yn un,
fel yr wyt ti ag ef yn un:
tyn ni'n agosach ato,
fel, mewn cariad ac ufudd-dod i ti,
y cawn ein huno â'n gilydd
yng nghymdeithas yr un Ysbryd,
er mwyn i'r byd gredu mai ef yw yr Arglwydd,
er gogoniant i ti yn dragywydd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## DYDDIAU'R CATGORIAU

### 351 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, rhoddwr pob dawn daionus, sydd o'th ddarbodaeth ddwyfol wedi gosod amryw Raddau o Weinidogion yn dy Eglwys: dyro dy ras, erfyniwn arnat, i'r rhai hynny oll a elwir i unrhyw swydd a gweinyddiad ynddi; cyflawna hwynt â'th wir athrawiaeth, a'u cynysgaeddu â diniweidrwydd buchedd, fel y gwasanaethant yn ffyddlon ger dy fron, i ogoniant dy Enw mawr, ac er lles dy Eglwys; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*

*Dros weinidogaeth pob Cristion*:

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
y llywodraethir ac y sancteiddir
holl gorff yr Eglwys gan dy Ysbryd:
gwrando ein gweddi a offrymwn dros dy holl bobl ffyddlon,
fel y gallant, yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth,
dy wasanaethu di mewn sancteiddrwydd a gwirionedd
er gogoniant i'th enw;
trwy ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
Duw yn oes oesoedd.

*Neu dros bawb sydd i'w hordeinio:*

Hollalluog Dduw, rhoddwr pob dawn dda,
trwy dy Ysbryd Glân gosodaist
amryw raddau o weinidogion yn yr Eglwys:
edrych yn drugarog ar dy *was/wasanaethferch* (*wasanaethyddion*)
a elwir yn awr i fod yn *ddiaconiaid/offeiriaid/esgob*;
cadw *hwy* yn y gwirionedd ac adnewydda *hwy* mewn sancteiddrwydd,
fel, trwy air ac esiampl dda,
y'th wasanaethant yn ffyddlon
er gogoniant i'th enw ac er lles dy Eglwys;
trwy haeddiannau ein Gwaredwr Iesu Grist
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
Duw yn oes oesoedd.

*Neu am alwedigaethau i Urddau Sanctaidd:*

Hollalluog Dduw,
ymddiriedaist i'th Eglwys
gyfran yng ngweinidogaeth dy Fab ein Harchoffeiriaid mawr:
ysbrydola galonnau llawer
trwy dy Ysbryd
i offrymu eu hunain i'w hordeinio yn dy Eglwys,
fel, trwy gryfder ei nerth,
y gweithiant i hyrwyddo dy deyrnas
a chanu mawl tragwyddol i'th enw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
Duw yn oes oesoedd.

*Neu ar gychwyn gweinidogaeth newydd:*

Dduw ein Tad, Arglwydd yr hollfyd,
trwy dy Fab gelwaist ni i gymdeithas
dy Eglwys fydeang:
gwrando ein gweddi dros dy bobl ffyddlon
fel y bo iddynt yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth
fod yn gyfryngau dy gariad;
a dyro i'th *was/wasanaethferch* ***E***
sydd yn awr i'w sefydlu
ddoniau angenrheidiol gras;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**352 Ôl Gymun**

Dad nefol,
rhoddodd dy Fab esgynedig ddoniau arweiniad a gwasanaeth i'r Eglwys:
atgyfnertha ni sydd wedi derbyn y bwyd sanctaidd hwn
i fod yn stiwardiaid da o'th ras amrywiol,
trwy'r hwn a ddaeth nid i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu,
gan roi ei fywyd yn bridwerth dros lawer,
Iesu Grist ein Harglwydd.

*Neu*
Arglwydd y cynhaeaf,
maethaist dy bobl yn y sacrament hwn
â ffrwythau'r greadigaeth a sancteiddiwyd gan dy Ysbryd:
trwy dy ras cyfod yn ein plith weithwyr ffyddlon
i hau dy air ac i fedi'r cynhaeaf eneidiau;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## SEFYDLU / GWEINIDOGAETH NEWYDD

### 353 Colect

Dduw ein Tad,
diolchwn i ti
am ein galw trwy dy Fab i gymdeithas
dy Eglwys fydeang:
gwrando ein gweddïau dros dy bobl ffyddlon
fel y bo iddynt yn eu galwedigaeth
a'u gweinidogaeth
fod yn gyfryngau dy gariad;
a dyro i'th was/wasanaethferch ***E***
sydd yn awr i'w sefydlu
ddoniau gras, sancteiddrwydd a chariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 354 Ôl Gymun

Dad hollalluog,
ysbrydolaist ***E***
â'r penderfyniad i ddilyn Crist
trwy gyhoeddi ei air a'i sacrament:
cyfoethoga *ef/hi* â'th Ysbryd Glân
wrth arwain a dysgu pawb yn ei *ofal/gofal,*
iddynt dreiddio'n ddyfnach
i ddirgeledd Crist a'i Eglwys;
gofynnwn hyn trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

## ADDYSG

### 355 Colect

Arglwydd Dduw,
agor ein meddyliau i oleuni dy wirionedd,
fel y gall dirgelwch agor o'n blaenau,
fel y gall gwybodaeth lewyrchu o'n hamgylch
fel y gall dealltwriaeth dyfu o'n mewn
yn enw Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân
un Duw, yn awr a hyd byth.

### 356 Ôl Gymun

Dragwyddol Dduw,
rwyt yn ysbrydoli dy blant ym mhob oes
yn ffyrdd heddwch a deall.
Dyfnha ein dyhead am wybodaeth
trwy rannu goleuni dy wirionedd â'n gilydd,
fel y gallwn wrth wasanaethu ein gilydd dy wasanaethu di,
yr unig wir Dduw:
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

**PRIODAS**

**357 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, i ti y mae pob calon yn agored, pob dymuniad yn hysbys, a phob dirgel yn amlwg: glanha feddyliau'n calonnau trwy ysbrydoliaeth dy Lân Ysbryd, fel y carwn di yn berffaith a mawrhau'n deilwng dy Enw sanctaidd; trwy Grist ein Harglwydd.

*Neu*
Hollalluog Arglwydd a thragwyddol Dduw, cyfarwydda, sancteiddia a llywodraetha ein calonnau a'n cyrff yn ffyrdd dy ddeddfau ac yng ngweithredoedd dy orchmynion fel, trwy dy nodded gadarnaf yma a thros byth, y byddwn yn gadwedig gorff ac enaid; trwy ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist.

*Cyfoes*
Dduw ein Tad,
fe'n dysgaist trwy dy Fab
mai cariad yw cyflawniad y gyfraith;
caniatâ i'th wasanaethyddion ***E*** ac ***E,***
gan garu ei gilydd,
aros yn dy gariad hyd ddiwedd eu hoes;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## Y RHAI MEWN ANGEN

### 358 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, ffynnon pob doethineb, sy'n gwybod ein hanghenion cyn inni ofyn, a'n hanwybodaeth wrth ofyn: deisyfwn arnat dosturio wrth ein gwendid, a'r pethau hynny na feiddiwn eu gofyn oherwydd ein hanneilyngdod, ac na fedrwn eu gofyn oherwydd ein dallineb, bydded yn wiw gennyt eu rhoddi inni, er teilyngdod dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Dad nefol,
gwyddost am ein hanghenion a'n hanwybodaeth:
trugarha wrth ein gwendid a dyro inni,
nid fel y gofynnwn yn ein dallineb,
neu fel yr haeddwn yn ein pechod,
ond fel yr wyt yn ein hadnabod a'n caru
yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## GWAELEDD

### 359 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dad, rhoddwr bywyd ac iechyd, edrych yn drugarog ar dy weision sy'n glaf; fel trwy dy fendith arnynt yr adferir hwy i iechyd meddwl, corff ac enaid, ac y bydd iddynt ddiolch i ti yn dy lân Eglwys; trwy Iesu Crist ein harglwydd.

*Cyfoes*
Creawdwr a Thad,
rhoddwr bywyd ac iechyd,
gweddïwn dros bawb sy'n glaf a'r rhai sy'n gweini arnynt,
iddynt gael eu nerthu yn eu gwendid
gan ymddiried yn dy gariad di-derfyn
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## Y RHAI SY’N MARW

### 360 Colect

Dad nefol,
i’th ddwylo y cyflwynodd dy Fab Iesu Grist
ei ysbryd ar ei awr olaf:
i’r dwylo cariadus a thrugarog hynny
y cyflwynwn yn awr dy *was/wasanaethferch* ***E,***
fel y bo marwolaeth *iddo/iddi* yn borth i fywyd
mewn cymdeithas dragwyddol gyda thi;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**ANGLADD**

**361 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, Crewr a Gwaredwr pawb sy'n credu, dyro i'th *was/wasanaethferch* ***E*** a'r holl ffyddloniaid ymadawedig ddoniau anchwiliadwy dioddefaint dy Fab, fel yn nydd ei ymddangosiad yr amlygir hwy'n blant i ti; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd.

*Neu*
O Dduw, a roddaist dy annwyl Fab i farwolaeth y groes er ein hiachawdwriaeth, a'n gwaredu oddi wrth allu'r gelyn trwy ei atgyfodiad gogoneddus: Dyro inni farw beunydd i bechod, fel y byddwn byw byth gydag ef yn llawenydd ei atgyfodiad; trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
*Oedolyn*
O Dduw,
creawdwr a gwaredwr pawb,
dyro i'th holl Eglwys,
yn fyw ac yn ymadawedig,
ddoniau sicr dioddefaint achubol dy Fab,
fel yr awn trwy farwolaeth
i atgyfodiad llawen,
trwyddo ef a fu farw ac a gyfodwyd er ein mwyn,
Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Plentyn*
O Dduw,
dyro inni ras
i ymddiried ***E*** i'th gariad a'th ofal
a dwg ni oll i'th deyrnas nefol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth.

## CENHADAETH

### 362 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, sy'n ewyllysio i bob dyn fod yn gadwedig a dod i ganfod dy wirionedd: anfon, ni a erfyniwn arnat, weithwyr i'th gynhaeaf, a chaniatâ fod iddynt bregethu dy air mor ffyddlon, fel y daw'r holl genhedloedd i'th adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw
a elwaist dy Eglwys i dystio
dy fod yn cymodi'r byd yng Nghrist â thi dy hun:
cynorthwya ni i gyhoeddi newyddion da dy gariad
fel y bydd pawb sy'n ei glywed yn cael eu huno â thi;
trwy'r hwn a fu farw trosom ac a atgyfododd,
ac sy'n teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Neu*
Nefol Dad,
datgelaist dy gariad
trwy ddanfon dy unig Fab i'r byd
fel y gall pawb fyw trwyddo ef:
caniatâ i'th Eglwys drwy nerth yr Ysbryd
ufuddhau i'th orchymyn
i wneud disgyblion o'r holl genhedloedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

### 363 Ôl Gymun

Rhoddwr tragwyddol cariad a nerth,
danfonodd dy Fab Iesu Grist ni i'r holl fyd
i bregethu efengyl ei deyrnas:
Cadarnha ni yn y genhadaeth hon,
a helpa ni i fyw'r newyddion da a gyhoeddwn;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## CENHADWR

### 364  Colect

Iesu,
Dduw ymgnawdoledig,
newyddion da i bawb sydd â chlustiau i wrando a llygaid i weld:
diolchwn i ti am ***E***
[ac am bawb sy'n dod â'r efengyl i….]:
cyfod yn y wlad hon ac ym mhob gwlad
ragredegwyr ac efengylwyr dy deyrnas,
a phrysura'r dydd
pan lenwir y ddaear â'th ogoniant;
oherwydd gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân
yr wyt yn byw ac yn teyrnasu, yn Dduw am byth.

### 365  Ôl Gymun

Sanctaidd Dad,
a'n cynullaist ni yma o gwmpas bwrdd dy Fab
i rannu'r pryd bwyd hwn â'th holl deulu:
cynnull ynghyd,
yn y byd newydd hwnnw lle y datguddi gyflawnder dy dangnefedd,
bobloedd o bob hil ac iaith
i rannu *gyda/gydag* ***E*** a'th holl saint
wledd dragwyddol Iesu Grist ein Harglwydd.

## HEDDWCH

### 366 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, ffynhonnell pob meddwl o wirionedd a hedd: ennyn yng nghalon pob dyn wir gariad at heddwch; ac i'th ddoethineb bur a heddychlon arwain y rhai sy'n ymgynghori dros genhedloedd y byd, fel yr hyrwyddir dy deyrnas mewn tangnefedd, hyd oni lenwir y ddaear â gwybodaeth o'th gariad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
dy ewyllys yw adfer popeth
yn dy annwyl Fab, Brenin pawb:
llywodraetha yng nghalonnau a meddyliau
y rhai sydd mewn awdurdod,
a thywys y cenhedloedd,
a rannwyd ac a rwygwyd gan reibiadau pechod,
i ymostwng i'w lywodraeth gyfiawn ac addfwyn ef;
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

*Neu*
Hollalluog Dduw, ffynhonnell pob meddwl o wirionedd a heddwch:
ennyn ym mhob calon, fe weddïwn, wir gariad at heddwch;
ac â'th ddoethineb bur a heddychlon
tywys y rhai sy'n ymgynghori dros genhedloedd y byd,
fel yr hyrwyddir dy deyrnas mewn tangnefedd,
hyd nes y llenwir y ddaear â gwybodaeth o'th gariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**367 Ôl Gymun**

Dduw ein Tad,
dy Fab yw ein heddwch
a'i groes yn arwydd o gymod:
cynorthwya ni sydd yn rhannu'r bara a dorrwyd,
i gynnull ynghyd yr hyn a wasgarwyd
ac i iacháu'r hyn a glwyfwyd,
fel y cyhoedda Crist, yn enw'r hwn y gweddïwn,
deyrnas dragwyddol ei dangnefedd.

## CYFARFOD

**368 Colect**

Arglwydd Dduw,
rhoddaist dy Ysbryd Glân i'th Eglwys
iddo ein harwain i bob gwirionedd:
bendithia â'i ras a'i bresenoldeb
aelodau'r cyngor hwn;
cadw ni'n ddiysgog mewn ffydd
ac yn unedig mewn cariad,
fel y bo inni hyrwyddo dy ogoniant
a thangnefedd, undod a chenhadaeth dy Eglwys;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## ARWEINIAD YR YSBRYD

### 369 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Dduw, a ddysgaist galonnau dy ffyddloniaid trwy anfon iddynt oleuni dy Ysbryd Glân: caniatâ i ni yn yr un Ysbryd feddu bam gywir ym mhob peth, a llawenychu, byth yn ei ddiddanwch gwynfydedig; trwy haeddiannau Iesu Grist ein Hiachawdwr, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi yn undeb yr un Ysbryd, yn un Duw, yn oes oesoedd.

*Cyfoes*
Dragwyddol Dduw,
anfonaist oleuni dy Ysbryd Glân
i ddysgu calonnau dy bobl ffyddlon,
caniatâ i ni, trwy ddawn yr Ysbryd,
feddu barn gywir
a llawenhau yn y nerth a roddir ganddo;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a phob amser.

### 370 Ôl Gymun

Dduw nerthol,
bydded i feiddgarwch yr Ysbryd ein trawsnewid,
i dynerwch yr Ysbryd ein harwain,
ac i ddoniau'r Ysbryd ein cyfnerthu
i'th wasanaethu a'th addoli di;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

### 371  Colect

Caniatâ, O Dduw,
i'th Ysbryd sanctaidd a bywiol
gyffwrdd â phob calon ddynol,
fel y bydd i'r rhwystrau sy'n ein gwahanu syrthio,
i'r amheuon ddiflannu ac i bob casineb ddarfod,
fel, a'n hymraniadau wedi eu hiacháu,
y gallwn fyw mewn cyfiawnder a heddwch;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn Dduw yn oes oesoedd.

## DIWYGIWR CYMDEITHASOL

### 372  Colect

Hollalluog Dduw,
yr wyt yn cyhoeddi dy wirionedd ym mhob oes
trwy lawer o dystion amrywiol:
molwn di am yr holl ddiwygwyr cymdeithasol [yn arbennig ***E*** ]
sydd trwy eu gair a'u gweithred
wedi ymdrechu i ddod â newid yn eu dydd,
er gogoniant mwy i ti
ac er sefydlu uniondeb a chyfiawnder ar y ddaear;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn Dduw yn oes oesoedd.

### 373  Ôl Gymun

Dduw ein Tad,
y bu dy annwyl Fab farw ar y groes i'n gwneud ni'n sanctaidd,
a chodi o'r bedd i'n gwneud ni'n rhydd:
nertha ni, drwy'r sacrament hwn, sacrament ein prynedigaeth,
i rannu newyddion da dy iachawdwriaeth,
gan ddwyn rhyddid i'r carcharor,
gobaith i'r diobaith,
a diddanwch i'r gwrthodedig,
yn ei enw ef sy'n Arglwydd yn awr a hyd byth.

**BARDD**

## 374 Colect

Dduw'r Creawdwr,
diolchwn i ti am dy was ***E***,
y mae ei *farddoniaeth/barddoniaeth* yn datgelu ei *gariad/chariad* at dy air.
Agor ein calonnau a'n deall
fel y down i ganfod dy ewyllys ar ein cyfer
yn y gair ysgrifenedig ac ym mherseinedd cân;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn drwy nerth yr Ysbryd
a gyfodaist i fywyd gyda thi,
ei Dduw a'i Dad, byth bythoedd.

## 375 Ôl Gymun

Dad pawb oll,
dyfnha o'n mewn y synnwyr o fawl a syfrdan
yn rhythmau barddoniaeth a chân,
fel y cawn weld a chanfod
rhyfeddod dy ogoniant.
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**OFFEIRIAD**

## 376 Colect

Dduw ein Tad,
gelwaist dy was ***E***
i'n harwain at Iesu, Bara'r bywyd.
Maetha ni â sacrament dy gariad
fel y cawn gerdded yn llawen ar hyd ffordd tangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân
yn un Duw, yn awr ac am byth.

## 377 Ôl Gymun

Dduw tragwyddol,
yr wyt yn ein galw i'th addoli mewn Ysbryd a gwirionedd.
Derbyn ein hoffrwm o foliant a diolch
am y rhai a fu'n dy wasanaethu di mewn ffyddlondeb a llawenydd,
gan rodio ger dy fron mewn sancteiddrwydd a chariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

**ESGOB**

**378 Colect**

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, goleuni'r ffyddloniaid a bugail eneidiau, a osodaist ***E*** gwynfydedig i fod yn Esgob yn dy Eglwys, fel y porthai dy braidd â'i air a'i dywys trwy ei esiampl: ymbiliwn arnat fod inni gadw'r ffydd a ddysgodd ef a dilyn yn ei lwybrau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
goleuni'r ffyddloniaid a bugail eneidiau,
a roddaist dy was ***E***
i fod yn esgob yn yr Eglwys,
i borthi dy braidd â'th air
a'u harwain trwy ei esiampl dda:
dyro inni ras i gadw ffydd yr Eglwys
ac i ddilyn ôl traed
Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

**379 Ôl Gymun**

Dragwyddol Dduw,
yr wyt yn ein galw i'th addoli mewn Ysbryd a gwirionedd.
derbyn ein hoffrwm o foliant a diolch
am y rhai a fu'n dy wasanaethu di mewn ffyddlondeb a llawenydd
gan rodio ger dy fron mewn sancteiddrwydd a chariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Neu*
O Dad,
a elwaist ***E*** i lywyddu wrth dy fwrdd ar y ddaear,
yn oruchwyliwr ffyddlon ar dy ddirgeleddau:
caniatâ fod i ni, a fu'n dwyn i gof ei fywyd o wasanaeth i gorff Crist,
weithio yn yr un modd at ddyfodiad dy deyrnas,
lle y mae Iesu yn Arglwydd yn awr a hyd byth.

**BUGAIL**

**380 Colect**

Dad pawb oll,
trwy goflaid dy gariad
ysbrydolaist ***E*** i fod yn fugail i'th bobl.
Dysg ni i ofalu mewn gostyngeiddrwydd a chariad
fel y gallwn wasanaethu Bugail a Gwarcheidwad ein cyrff a'n heneidiau,
Iesu Grist ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob anrhydedd a gogoniant,
yn awr ac am byth.

**381 Ôl Gymun**

Dduw'r Creawdwr,
yr wyt yn chwilio am y defaid gwasgaredig
i'w bwydo ar borfa dda.
Annog ac ysbrydola ni drwy esiampl y rhai hynny
a fu'n gofalu am braidd Crist,
fel y gallwn wrthsefyll temtasiwn,
rhoi cysur a lluniaeth,
a dychwelyd atat dan lawenhau,
yr unig dragwyddol Dduw,
byth bythoedd.

## ABAD NEU ABADES

### 382 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
O Arglwydd, ffynhonnell ein holl ddaioni, a gynysgaeddaist ***E*** â gras duwioldeb: gwna i ni fod yn helaeth ym mhob daioni, fel y derbyniwn gennyt bob peth angenrheidiol i'n hiachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
trwy dy ras
daeth ***E*** a daniwyd gan fflam sanctaidd dy gariad
i fod yn oleuni'n llosgi a disgleirio yn yr Eglwys:
cynnau ynom yr un ysbryd o ddisgyblaeth a chariad,
fel y cerddom o'th flaen fel plant y goleuni;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 383 Ôl Gymun

Dduw trugarog,
a roddaist y fath ras i'th *wasanaethwr/wasanaethwraig/wasanaethwyr* ***E***
fel y *gwasanaethodd/gwasanaethasant* di â chalon unplyg:
galluoga ni,
yr adnewyddwyd ein cymundeb â thi yn y sacrament hwn,
i ymwrthod â phopeth sy'n ein dal yn ôl rhag dilyn Crist,
ac i gynyddu beunydd mewn tebygrwydd iddo Ef,
ein Harglwydd ni,
yn awr a hyd byth.

## MERTHYR

### 384 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a roddaist i'th Ferthyr gwynfydedig ***E*** ras a gallu i oresgyn dioddefaint ac i fod yn ffyddlon hyd angau: erfyniwn arnat ein nerthu ninnau â'th ras, fel y gorffennwn ein gyrfa mewn ffydd, a derbyn gydag ef (gyda hi) goron y bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
trwy dy ras
derbyniodd dy *was/wasanaethyddes* ***E*** nerth
i oresgyn dioddefaint ac angau:
nertha ni i orffen ein gyrfa mewn ffydd
inni dderbyn gydag *ef/hi*
goron y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 385 Ôl Gymun

Dduw ein Prynwr,
y calonogwyd dy Eglwys ddioddefus gan ddewrder dy *ferthyr/ferthyron* ***E:***
rhwyma ni drwy'r ewcharist hwn wrth aberth Crist,
fel y bydd i'n bywydau,
wedi eu dryllio a'u cyflwyno fel *ei/eu fywyd/bywyd ef/hi/hwy,*
ddwyn marwolaeth Crist, a chyhoeddi ei atgyfodiad i'r byd.
Gofynnwn hyn drwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

*Neu*
Dduw pob dewrder,
wrth inni ddiolch iti a'th foliannu am dy ferthyr ***E***,
caniatâ fod i ni, wedi ein nerthu gan yr ymborth hwn,
redeg gyda dyfalbarhad, fel *ef/hi/hwy*,
yr yrfa a osodwyd o'n blaen,
ac ennill torch y buddugwr, y dorch nad yw byth yn gwywo.
Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## DYSGAWDWR / ATHRO'R FFYDD

### 386 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a oleuaist dy Eglwys â dysgeidiaeth dy was ***E***: cyfoethoga hi yn wastad â'th ras nefol, a chyfod dystion ffyddlon a ddengys i bob dyn trwy eu buchedd a'u hathrawiaeth wirionedd dy iachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
a oleuaist dy Eglwys
trwy ddysgeidiaeth dy *was/wasanaethyddes* ***E***:
cyfoethoga hi hyd byth â'th ras nefol,
a chyfod dystion ffyddlon
a gyhoedda trwy eu buchedd a'u dysgeidiaeth
wirionedd dy iachawdwriaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 387 Ôl Gymun

Dad nefol,
sy'n ein gwahodd at dy fwrdd,
i'n cynnal yno â'r bara sy'n rhoi bywyd i'r byd:
llanw ni â'i gyflawnder Ef, dy Ddoethineb di,
fel na bydd i ni sy'n ei dderbyn fyth fod yn newynog,
nac i ni sy'n credu ynddo fyth sychedu eto.
Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## UNRHYW SANT

### 388 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, a sefydlaist dy Eglwys trwy gariad ac ymroddiad dy Saint: diolchwn am dy *was/wasanaethferch* ***E*** a goffawn yn awr. Ysbrydola ni i ganlyn *esiampl/hesiampl*, fel y bo, i ninnau yn ein cenhedlaeth lawenhau *gydag ef / gyda hi* wrth ganfod dy ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
adeiledaist dy Eglwys
trwy gariad ac ymroddiad dy saint.
Diolchwn am dy *was/wasanaethyddes* ***E***:
ysbrydola ni i ddilyn ei *esiampl/hesiampl*
fel y bydd i ninnau yn ein dydd lawenychu
yng ngweledigaeth o'th ogoniant;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 389 Ôl Gymun

Ffynhonnell pob sancteiddrwydd a rhoddwr popeth da,
boed i ni, a fu'n rhannu â'n gilydd wrth y bwrdd hwn,
yn ddiethriaid a phererinion ar y ddaear hon,
gael ein croesawu *gyda/gydag* ***E*** a'th holl saint
i'r wledd nefol ar ddydd dy deyrnas di,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## SANT CYMREIG

### 390 Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, sydd trwy weinidogaeth dy *was/wasanaethferch* ***E*** wedi dwyn goleuni'r Efengyl i'n gwlad: caniatâ i ni, gan ddilyn esiampl ei ffyddlondeb a'i sêl, ddyfod i oleuni'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog a thragwyddol Dduw,
a elwaist ***E*** i gyhoeddi'r efengyl i'r genedl hon:
dyro i ni, dy weision, y fath ffydd a nerth cariad,
fel, a ninnau'n llawenhau yn ei *fuddugoliaeth/buddugoliaeth,*
y bydd inni elwa trwy ei *esiampl/hesiampl;*
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

### 391 Ôl Gymun

Arglwydd y lluoedd,
y moliannwn dy ogoniant wrth weld ei adlewyrchu
yn sancteiddrwydd y rhai a aeth o'n blaen:
boed i ni, a dderbyniodd, fel hwy, gynhaliaeth wrth y bwrdd hwn,
gael ein llenwi gyda hwy â llawenydd yn dy deyrnas dragwyddol,
lle y mae Iesu yn Arglwydd yn awr a hyd byth.

## CYFIEITHYDD

### 392  Ôl Gymun

Arglwydd, cynhesa ein calonnau o'n mewn,
wrth inni adnabod dy Air yn nhoriad y bara.
Ennyn ynom gariad at yr ysgrythurau,
fel y deallwn yn fwyfwy dwfn yr efengyl a gyhoeddwn
a'r Gwaredwr a ddilynwn,
Iesu Grist ein Harglwydd.

## GŴYLNOS SANT

### 393  Colect

*Llyfr Gweddi 1984*
Hollalluog Dduw, erfyniwn arnat ganiatáu fod uchel ŵyl dy fendigaid Sant ***E*** yr ydym yn ei rhagwylio yn awr, yn foddion i ddyfnhau ein defosiwn ac yn fuddiol i'n hiachawdwriaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

*Cyfoes*
Hollalluog Dduw,
yn dy drugaredd paratown
i ddathlu uchel ðyl
dy *was/wasanaethyddes* ***E*** :
caniatâ i'w *esiampl/hesiampl* gynyddu ein hymroddiad
a'n harwain ar hyd ffordd iachawdwriaeth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.